



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 23 Ionawr 2001

Tuesday 23 January 2001

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 21 Cwestiwn Brys: Darparu Llety ar gyfer Ceiswyr Lloches
Urgent Question: Housing Asylum Seekers
- 27 Datganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru
Statement on the Wales Millennium Centre
- 29 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 35 Datganiad Busnes
Business Statement
- 36 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000
Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a Rheoliadau
Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001
*Composite Motion: Approval of the Care Standards Act 2000 (Commencement
No. 2 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2001 and the Children's
Homes Amendment (Wales) Regulations 2001*
- 38 Dirprwyo Swyddogaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Brif
Weinidog Cymru
*Delegation of Functions of the Countryside and Rights of Way Act 2000 to the
First Minister*
- 64 Cyfeiriad Hir Dymor Amaethyddiaeth
The Long-term Direction of Agriculture

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Y Llywydd: Yr wyf wedi caniatáu i'r Trefnydd, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3A, ateb cwestiynau ar ran Prif Weinidog Cymru sydd, fel y gwyddoch, mewn cyfarfod yn Llundain.

The Presiding Officer: I have permitted the Minister for Assembly Business, under Standing Order No. 6.3A, to answer questions on behalf of the First Minister who is, as you know, attending a meeting in London.

Materion Trawsbynciol Cross-cutting Issues

Q1 Pauline Jarman: Will the First Minister report on the mechanisms by which he executes his responsibility for cross-cutting issues? (OAQ8993)

C1 Pauline Jarman: A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar ei fecanweithiau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau am faterion trawsbynciol? (OAQ8993)

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): The First Minister has regular discussions with my Cabinet colleagues who have lead responsibility for our three cross-cutting Assembly themes.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae'r Prif Weinidog yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'm cyd-Aelodau yn y Cabinet sydd â'r prif gyfrifoldebau dros dair thema trawsbynciol y Cynulliad.

Pauline Jarman: You have told us about the mechanisms. How do we measure the effectiveness of the outcomes? I have seen no real effect. There is still much thinking in silos in the Assembly. Can we be confident that when questions are raised with Ministers on the application of cross-cutting issues—equal opportunities and sustainable development—that they will each be personally accountable rather than referring the matters to our colleagues Edwina Hart and Sue Essex?

Pauline Jarman: Yr ydych wedi sôn am y mecanweithiau. Sut byddwn yn mesur effeithiolrwydd y canlyniadau? Ni welais unrhyw effaith wirioneddol. Mae llawer o waith meddwl y Cynulliad yn cael ei wneud mewn seilos o hyd. A allwn fod yn hyderus pan godir cwestiynau gyda Gweinidogion ar gymhwysio materion trawsbynciol—cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy—y byddant oll yn bersonol atebol yn hytrach na chyfeirio'r materion i'n cydweithwyr Edwina Hart a Sue Essex?

Andrew Davies: The Ministers that you mentioned have lead responsibility for those cross-cutting themes. Nobody would accuse Sue Essex or Edwina Hart of being backward in coming forward in outlining what the Assembly is doing. We will debate the action plan on sustainable development in the next few weeks. We have already established an innovative sustainable development strategy on a range of other areas, on which the Assembly is taking a lead. We have made progress on equality of opportunity, which is Edwina's portfolio. For example, we have

Andrew Davies: Mae gan y Gweinidogion a grybwyllwyd gennych brif gyfrifoldeb dros y themâu trawsbynciol hynny. Ni fyddai unrhyw un yn cyhuddo Sue Essex nac Edwina Hart o fod yn araf i amlinellu'r hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud. Byddwn yn dadlau'r cynllun gweithredu ar ddatblygiad cynaliadwy yn ystod yr wythnosau nesaf. Yr ydym eisoes wedi sefydlu strategaeth datblygiad cynaliadwy arloesol ar ystod o feysydd eraill, y mae'r Cynulliad yn flaenllaw ynddynt. Yr ydym wedi gwneud cynnydd ar gyfle cyfartal, sef portffolio

allocated an additional £250,000 each year until 2003-04 to fund programmes to promote equality of opportunity and Edwina has taken a lead on other initiatives. The Assembly is also taking a lead on the third cross-cutting theme, namely combating social exclusion, and developing innovative programmes such as Communities First.

David Melding: Will the First Minister require his Cabinet colleagues to undertake equal opportunities training and when will he report on the performance of such training and the Cabinet members thereof?

Andrew Davies: That is an interesting question and I am sure that the Cabinet will discuss this. I would be happy to undertake such training. I cannot speak for my Cabinet colleagues but as we have a commitment to lifelong learning, it should relate to us, as elected Members, and officials.

Edwina. Er enghraifft, dyrannwyd £250,000 ychwanegol bob blwyddyn tan 2003-04 i ariannu rhaglenni i hyrwyddo cyfle cyfartal ac mae Edwina wedi arwain ar fentrau eraill. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cymryd yr awenau ar y drydedd thema trawsbynciol, sef trechu allgáu cymdeithasol, a datblygu rhaglenni arloesol megis Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

David Melding: A fydd Prif Weinidog Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'w gyd-Aelodau yn y Cabinet ymgymryd â hyfforddiant cyfle cyfartal a phryd bydd yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad hyfforddiant o'r fath ac aelodau'r Cabinet a gymerodd ran?

Andrew Davies: Mae hwnnw'n gwestiwn diddorol ac yr wyf yn siŵr y bydd y Cabinet yn ei drafod. Byddwn yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn hyfforddiant o'r fath. Ni allaf siarad ar ran fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet ond gan ein bod wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes, dylai fod yn berthnasol inni, fel Aelodau etholedig, a swyddogion.

'Rhoi Cymru'n Gyntaf' 'Putting Wales First'

Q2 Jonathan Morgan: Will the First Minister make a statement on progress towards implementing 'Putting Wales First'? (OAQ8974)

Andrew Davies: I refer you to the answers that the First Minister gave you in response to questions on 21 and 28 November and 19 December and to Mick Bates's question last week. The annual Government business programme that was announced on 21 November and debated on 14 December sets out our first steps towards implementing the policies contained in 'Putting Wales First'.

Jonathan Morgan: I am grateful for the reply, but I draw your attention to page 20 of the document, which refers to supporting Wales on the international stage in cultural terms. In this vein, will the Minister and the

C2 Jonathan Morgan: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y camau sydd wedi'u cymryd i roi'r rhaglen 'Rhoi Cymru yn Gyntaf' ar waith? (OAQ8974)

Andrew Davies: Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddodd y Prif Weinidog ichi mewn ymateb i gwestiynau ar 21 a 28 Tachwedd a 19 Rhagfyr ac i gwestiwn Mick Bates yr wythnos ddiwethaf. Mae rhaglen fusnes flynyddol y Llywodraeth a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd ac a drafodwyd ar 14 Rhagfyr yn nodi ein camau cyntaf tuag at weithredu'r polisiau a gynhwysir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar am yr ymateb, ond tynnaf eich sylw at dudalen 20 y ddogfen, sydd yn cyfeirio at gefnogi Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn nhermau diwylliannol. Yn y cyswllt hwn, a

administration explain why Wales's cities are falling so far behind English cities in putting forward their bid for European Capital of Culture 2008? As a result of the administration's dithering, we allow English cities to steal a march on Wales and I am afraid that Wales will lose out. When will the administration take action on this?

Andrew Davies: I refute any allegation that this administration is being dilatory on this issue. The First Minister, the Cabinet and the Assembly are taking a leading role in promoting Wales abroad. I was in a meeting the other week regarding the possibility of having a high profile Welsh presence at the Lorient Interceltic Festival in Brittany. I cannot comment on the individual bids for the European Capital of Culture, but we will support any Welsh city in putting forward such a bid.

Peter Black: Given that this is the hundredth day of this partnership Government, do you agree that the partnership agreement has brought much needed stability to Wales and that the legislative programme that we are introducing will produce significant benefits to the people of Wales? [CONSERVATIVE MEMBERS: 'Oh.']

Andrew Davies: You can always rely on the Conservatives for a knee-jerk reaction to most things.

The partnership Government has given us stability. It means that we can demonstrate that the Assembly is changing the life of Wales for the people of Wales. Over the next two sessions, until the summer recess, we will introduce several policy initiatives and a legislative programme that will reflect the Government's priorities on a range of issues. Later today, we will debate the long-term direction of agriculture. In terms of our budget, my colleague, Edwina Hart, has made announcements on spending priorities and public services. These are concrete examples of the partnership Government

wnaiff y Gweinidog a'r weinyddiaeth egluro pam bod dinasoedd Cymru mor bell y tu ôl i ddinasoedd Lloegr wrth gyflwyno eu cynnig ar gyfer Prifddinas Diwylliant Ewropeaidd 2008? O ganlyniad i oedi'r weinyddiaeth, caniatawn i ddinasoedd Lloegr achub y blaen ar Gymru ac yr wyf yn ofni y bydd Cymru ar ei cholled. Pryd bydd y weinyddiaeth yn gweithredu ar hyn?

Andrew Davies: Gwrthodaf unrhyw honiad bod y weinyddiaeth hon yn araf yn hyn o beth. Mae'r Prif Weinidog, y Cabinet a'r Cynulliad yn cymryd rhan flaenllaw wrth hyrwyddo Cymru dramor. Bûm mewn cyfarfod yr wythnos o'r blaen ynghylch posibilrwydd cael presenoldeb Cymreig proffil uchel yng Ngŵyl Ryng-geltaidd Lorient yn Llydaw. Ni allaf roi sylwadau ar y cynigion unigol ar gyfer y Brifddinas Diwylliant Ewropeaidd, ond byddwn yn cefnogi unrhyw ddinas yng Nghymru wrth gyflwyno cynnig o'r fath.

Peter Black: O gofio mai heddiw yw canfed diwrnod y Llywodraeth bartneriaeth hon, a gytunwch y daeth y cytundeb partneriaeth â sefydlogrwydd yr oedd angen dirfawr amdano i Gymru ac y bydd y rhaglen ddeddfwriaethol yr ydym yn ei chyflwyno yn cynhyrchu buddiannau arwyddocaol i bobl Cymru? [AELODAU CYNULLIAD: 'O.']

Andrew Davies: Gallwch ddiwynnu bob amser ar y Ceidwadwyr am ymateb difeddwl i'r rhan fwyaf o bethau.

Mae'r Llywodraeth bartneriaeth wedi rhoi sefydlogrwydd inni. Golyga y gallwn ddangos bod y Cynulliad yn newid bywyd Cymru er budd pobl Cymru. Dros y ddwy sesiwn nesaf, tan wyliau'r haf, byddwn yn cyflwyno sawl menter polisi a rhaglen ddeddfwriaethol a fydd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth ar ystod o faterion. Yn ddiweddarach heddiw, byddwn yn dadlau cyfeiriad hir dymor amaethyddiaeth. Yn nhermau ein cyllideb, cafwyd cyhoeddiadau gan fy nghyd-Aelod, Edwina Hart, ar flaenoriaethau gwariant a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn

delivering for the people of Wales.

enghreiffiau pendant bod y Llywodraeth bartneriaeth yn gweithredu er budd pobl Cymru.

2:10 p.m.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Speaking of the partnership Government, but this time truthfully, he will recall that, in 'Putting Wales First', there is a commitment to contain council tax increases to an average of 3 per cent. Furthermore, the Finance Minister said that there should not be an increase of more than 9 per cent. Does the administration stand by that promise?

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Wrth sôn am y Llywodraeth bartneriaeth, ond gan fod yn onest y tro hwn, bydd yn cofio bod 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cynnwys ymrwymiad i gyfyngu unrhyw gynnydd mewn treth gyngor i gyfartaledd o 3 y cant. At hyn, nododd y Gweinidog Cyllid na ddylai fod cynnydd o fwy na 9 y cant. A yw'r weinyddiaeth yn cadw at yr addewid honno?

Andrew Davies: We made that commitment, but we would need to know what the local government settlements were before commenting further. There is a great deal of conjecture and speculation about that, and until we see the figures, I cannot comment on the outcome other than to state that that is our target.

Andrew Davies: Gwnaethom yr ymrwymiad hwnnw, ond byddai angen inni gael gwybod beth oedd y setliadau llywodraeth leol cyn cyflwyno sylwadau pellach. Mae llawer o dybiaethau a damcaniaethau am hynny a than inni weld y ffigurau, ni allaf gyflwyno sylwadau ar y canlyniad heblaw nodi mai dyna yw ein targed.

Nick Bourne: It is no longer a promise, but a target. Given the increased expenditure that local authorities must face on flood defences and on implementing the right to roam legislation—of which we will hear more later—that answer is not realistic. We already know that in Powys council tax increases will exceed 3 per cent by far and that it looks like being true throughout much—[*Interruption.*]

Nick Bourne: Nid yw'n addewid erbyn hyn, ond yn darged. O gofio'r gwariant cynyddol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wynebu ar amddiffynfeydd rhag llifogydd ac ar weithredu'r ddeddfwriaeth hawl i grwydro—y clywn fwy amdani yn ddiweddarach—nid yw'r ateb hwnnw yn realistig. Gwyddom eisoes y bydd cynnydd treth gyngor Powys yn llawer uwch na 3 y cant a'i bod yn edrych fel y bydd hynny'n wir drwy lawer—[*Torri ar draws.*]

I am waiting for you to retract that statement, Kirsty.

Yr wyf yn aros ichi dynnu eich datganiad yn ôl, Kirsty.

The Presiding Officer: Order. No statement can be made from a sedentary position. That remark should not have been made.

Y Llywydd: Trefn. Ni ellir cyflwyno datganiad tra'n eistedd. Ni ddylid fod wedi gwneud y sylw hwnnw.

Nick Bourne: Can Andrew assure council taxpayers in Wales that they will not have to pay more than 9 per cent? Many believe that they will have to do so because of the mishandling of the Labour Party and its Liberal Democrat annex.

Nick Bourne: A all Andrew roi sicrwydd i drethdalwyr cyngor yng Nghymru na fydd yn rhaid iddynt dalu mwy na 9 y cant? Cred llawer y bydd yn rhaid iddynt wneud hynny yn sgîl camweinyddu'r Blaid Lafur a'i hatodiad Democrataidd Rhyddfrydol.

Andrew Davies: Whenever I hear Nick Bourne, I am reminded of Patrick Hannan's comment in his recent book about the Assembly, when he stated that you can always rely on Nick to relay the same message over and over again like a stuck record. My colleagues, Edwina Hart and Sue Essex, have been discussing flooding and looking at how we can work with local authorities, not only to ameliorate the effect of flooding, but also to improve flood defences over the years. Unlike the Conservatives, we are in the business of delivering for the people of Wales, not just talking about it.

Andrew Davies: Pryd bynnag y clywaf Nick Bourne, fe'm hatgoffir o sylw Patrick Hannan yn ei lyfr diweddar am y Cynulliad, pan nododd y gallwch bob amser ddibynnu ar Nick i ailadrodd yr un neges dro ar ôl tro fel tiwn gron. Bu fy nghyd-Aelodau, Edwina Hart a Sue Essex, yn trafod llifogydd ac yn ystyried sut y gallwn weithio gydag awdurdodau lleol, nid yn unig i liniaru effaith y llifogydd, ond hefyd i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd dros y blynyddoedd. Yn wahanol i'r Ceidwadwyr, yr ydym yn anelu at gyflawni er budd pobl Cymru, nid dim ond sôn am wneud hynny yn unig.

Y Cynulliad (Gweithio er Lles Cymru) The National Assembly (Working for the Benefit of Wales)

Q3 Nick Bourne: What steps is the First Minister taking to ensure that the National Assembly is working for the benefit of all parts of Wales? (OAQ8976)

Andrew Davies: The Assembly and this administration are committed to achieving equitable progress and representation for all parts of Wales. There are established mechanisms for engaging all parts, including the Regional Committees and the Partnership Councils. We have also had real achievements in implementing Wales-wide initiatives, including sustainable development and Communities First.

Nick Bourne: As you know, the administration is seeking to put together a rescue package for the Llanwern steelworkers. Are you in a position to report on any progress made in a meeting at Downing Street this morning, which, I understand, lasted 40 minutes? Can you reassure us that that package will protect all parts of the steel industry including those in Shotton, Trostre, Llanwern, Ebbw Vale and Gorseinon and that the administration will do something about business rates for all businesses, not just for the steel industry?

Andrew Davies: It is too early for me to

C3 Nick Bourne: Pa gamau mae Prif Weinidog Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio er lles pob rhan o Gymru? (OAQ8976)

Andrew Davies: Mae'r Cynulliad a'r weinyddiaeth hon yn ymrwymedig i gyflawni cynnydd a chynrychiolaeth deg i bob rhan o Gymru. Ceir mecanweithiau sefydledig ar gyfer cynnwys pob rhan, gan gynnwys y Pwyllgorau Rhanbarth a'r Cyngorau Partneriaeth. Cawsom gyflawniadau gwirioneddol hefyd wrth weithredu mentrau Cymru-gyfan, gan gynnwys datblygiad cynaliadwy a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

Nick Bourne: Fel y gwyddoch, mae'r weinyddiaeth yn ceisio llunio pecyn achub i weithwyr dur Llanwern. A ydych mewn sefyllfa i sôn am unrhyw gynnydd a wnaethpwyd mewn cyfarfod yn Downing Street y bore yma, y deallaf iddo bara 40 munud? A allwch chi roi sicrwydd inni y bydd y pecyn hwnnw yn diogelu pob rhan o'r diwydiant dur gan gynnwys y rheini yn Shotton, Trostre, Llanwern, Glynebwy a Gorseinon, ac y bydd y weinyddiaeth yn gwneud rhywbeth am ardrethi busnes i bob busnes, nid y diwydiant dur yn unig?

Andrew Davies: Mae'n rhy gynnar i mi sôn

report back on the meetings. The First Minister will do so on Thursday, if appropriate. He attended a meeting at No. 10 Downing Street this morning after which he will attend a meeting with Corus with the Deputy First Minister and Minister for Economic Development. It is important that there is no sabre-rattling at this time. There is much speculation about the future of Corus and the steel industry in Wales, which as Nick rightly indicates, affects several parts of north and south Wales. Corus said that no final decisions on restructuring have been made and that it will not make an announcement until the end of this month or early February. That is the company's position. The Assembly and the UK Government are engaged in negotiations with Corus to see whether assistance can be given to mitigate some of the measures that the company may be considering. As you are aware, the All-Wales Steel Taskforce has been established to counter those measures. This is an important issue and the First Minister will keep Members up to date on the latest position on Corus and the steel industry in Wales.

John Griffiths: I welcome the continuing efforts at the highest level to engage with Corus. Will you join me in urging the Corus management, even at this late stage, to engage fully with Government at all levels, so that whatever assistance the Government can provide is made available and so that a meaningful package can be devised in the knowledge of the real problems that Corus faces? Will the Government continue to urge it to take the medium to long-term view, given the rise in the value of the euro and the fact that all informed commentators think that that rise is set to continue?

Andrew Davies: You are absolutely right. The First Minister and the Minister for Economic Development have made these points publicly and in meetings with Corus and the UK Government. The administration and the UK Government are pressing Corus extremely hard on this issue and making the

am y cyfarfodydd. Bydd Prif Weinidog Cymru yn gwneud hynny ddydd Iau, os yn briodol. Mynychodd gyfarfod yn Rhif 10 Downing Street y bore yma ac yn dilyn hynny bydd yn mynychu cyfarfod gyda Corus gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Mae'n bwysig na cheir unrhyw drwst cleddyfau ar hyn o bryd. Mae llawer o ddamcaniaethu am ddyfodol Corus a'r diwydiant dur yng Nghymru sydd, fel y noda Nick, a hynny'n gyfiawn, yn effeithio ar sawl rhan o ogledd a de Cymru. Nododd Corus na wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau terfynol ar ailstrwythuro ac na fydd yn gwneud cyhoeddiad tan ddiwedd y mis hwn neu ddechrau mis Chwefror. Dyna yw safbwynt y cwmni. Mae'r Cynulliad a Llywodraeth y DU wrthi'n negodi gyda Corus i weld a ellir rhoi cymorth i liniaru rhai o'r camau y gallai'r cwmni fod yn eu hystyried. Fel y gwyddoch, sefydlwyd Tasglu Dur Cymru-Gyfan i drechu'r camau hynny. Mae hwn yn fater pwysig a bydd Prif Weinidog Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa ddiweddaraf Corus a'r diwydiant dur yng Nghymru.

John Griffiths: Croesawaf yr ymdrechion parhaus ar y lefel uchaf i drafod â Corus. A ymunwch â mi wrth annog rheolwyr Corus, hyd yn oed yn ystod y cyfnod hwyr hwn, i gyd-drafod yn llawn â'r Llywodraeth ar bob lefel, er mwyn sicrhau bod pa bynnag gymorth y gall y Llywodraeth ei ddarparu ar gael ac er mwyn llunio pecyn ystyrllon yn seiliedig ar wybodaeth o'r problemau gwirioneddol y mae Corus yn eu wynebu? A wnaiff y Llywodraeth barhau i'w annog i gymryd y safbwynt tymor canolig i dymor hir, o gofio'r cynnydd yng ngwerth yr ewro a'r ffaith fod pob sylwebydd hyddysg o'r farn y bydd y cynnydd yn parhau?

Andrew Davies: Yr ydych yn llygad eich lle. Mae Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd wedi cyflwyno'r pwyntiau hyn yn gyhoeddus ac mewn cyfarfodydd gyda Corus a Llywodraeth y DU. Mae'r weinyddiaeth a Llywodraeth y DU yn pwysu'n galed ar

case for a sustained and sizeable steel industry in Wales.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I am sure that you are aware that today is the third anniversary of the court case involving miners' claims for compensation. Do you share my concern at the continuing delay in settling individual claims? Will you make urgent representations to the UK Government to employ more staff to deal with medical examinations and call on them to speed up the processing of applications? Do you realise that Helen Liddell, the Department of Trade and Industry Minister for Energy and Competitiveness in Europe, gave an assurance, on 1 January 2000, that she would ask health centres to process 4,000 applications a week, yet at the end of the year fewer than 2,000 a week were being processed?

Andrew Davies: Everybody regrets the rate at which the compensation has been handled. I heard this morning that there might be a further delay in the reissue of pensions. This is not an issue purely for the Government. The Government negotiated the compensation together with the miners and their legal representatives, but there was a court case and the courts are heavily involved in this. That is one reason why there has been such a significant delay. I understand that there is another matter going to the High Court regarding miners' pensions. That is a further complication. As you know, Helen Liddell has worked extremely hard to speed up the process and increase the staff employed to deal with compensation cases. This week it was announced that a significant amount of money has been processed for miners suffering from the dreadful industrial diseases that they experience as a result of spending years underground.

Ieuan Wyn Jones: I tell you that salvation is in the Government's hands because it could accept the claim that pension loss should be

Corus yn hyn o beth ac yn cyflwyno'r achos dros ddiwydiant dur cynaliadwy ac amlwg yng Nghymru.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol mai tair blynedd i heddiw y cynhaliwyd yr achos llys ynghylch ceisiadau glowyr am iawndal. A rannwch fy mhryder ynghylch yr oedi parhaus wrth setlo ceisiadau unigol? A wnewch gynrychioliadau brys i Lywodraeth y DU gyflogi mwy o staff i ddelio ag archwiliadau meddygol a galw arnynt i gyflymu'r gwaith o brosesu ceisiadau? A sylweddolwch y rhoddodd Helen Liddell, Gweinidog yr Adran Masnach a Diwydiant dros Ynni a Gallu Cystadleuol yn Ewrop, sicrwydd ar 1 Ionawr 2000, y byddai'n gofyn i ganolfannau iechyd brosesu 4,000 o geisiadau yr wythnos, ond eto ar ddiwedd y flwyddyn yr oedd llai na 2,000 yr wythnos yn cael eu prosesu?

Andrew Davies: Mae pawb yn edifar am gyflymder trin achosion iawndal. Clywais y bore yma y gallai fod oedi pellach wrth ailgyhoeddi pensiynau. Nid mater i'r Llywodraeth yn unig yw hwn. Negododd y Llywodraeth yr iawndal ar y cyd â'r glowyr a'u cynrychiolwyr cyfreithiol, ond cafwyd achos llys ac mae gan y llysoedd ran fawr i'w chwarae yn hyn o beth. Dyna un rheswm pam y bu cymaint o oedi. Deallaf fod mater arall yn mynd i'r Uchel Lys o ran pensiynau glowyr. Mae hynny'n gymhlethdod pellach. Fel y gwyddoch, bu Helen Liddell yn gweithio'n galed iawn i gyflymu'r broses a chynyddu'r staff a gyflogir i ddelio ag achosion o iawndal. Yr wythnos hon cyhoeddwyd y proseswyd swm sylweddol o arian i lowyr yn dioddef o'r afiechydon diwydiannol ofnadwy a brofwyd ganddynt o ganlyniad i dreulio blynyddoedd dan ddaear.

Ieuan Wyn Jones: Dywedaf wrthyh fod achubiaeth yn nwylo'r Llywodraeth gan y gallai dderbyn y cais i golledion pensiwn fod

part of that compensation package. It is not necessary to go back to court; the Government could accede to the claim. It can also pay extra medical staff to ensure that these claims are presented. I also suggest that it is possible to ensure, once those compensation claims are settled, that urgent payment could be made and the Government could end the iniquitous clawback that means that miners must wait 12 months before they are paid.

Andrew Davies: I reiterate that the UK Government has freed the logjam caused by the previous Conservative Government that largely brought about this deal. The UK Government has been moving heaven and earth to solve the compensation issue. This is a non-devolved matter but the administration has been pressing the case: the First Minister has been negotiating with the Secretary of State for Wales and others. It is a non-party issue: all parties agree that we need to expedite this, and I believe that everybody has worked honestly in that endeavour.

yn rhan o'r pecyn iawndal hwnnw. Nid oes angen dychwelyd i'r llys; gallai'r Llywodraeth ganiatáu'r cais. Gall hefyd dalu staff meddygol ychwanegol i sicrhau y cyflwynir y ceisiadau hyn. Awgrymaf hefyd ei bod yn bosibl sicrhau, unwaith y caiff y ceisiadau iawndal hynny eu setlo, y gellid gwneud taliadau brys ac y gallai'r Llywodraeth roi terfyn ar yr ôl-groniad anghyfiawn sydd yn golygu bod yn rhaid i lowyr aros 12 mis cyn derbyn taliad.

Andrew Davies: Ailbwysleisiaf bod Llywodraeth y DU wedi rhyddhau'r ôl-groniad a achoswyd gan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol a fu'n bennaf gyfrifol am y sefyllfa. Gwnaeth Llywodraeth y DU bopeth o fewn ei gallu i ddatrys y mater o iawndal. Mae'n fater heb ei ddatganoli ond bu'r weinyddiaeth yn pwysu'r achos: bu Prif Weinidog Cymru yn negodi gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac eraill. Nid yw'n fater sydd yn ymwneud ag unrhyw blaid benodol: mae pob plaid yn cytuno bod angen inni gyflymu'r broses, a chredaf fod pawb wedi gweithio'n onest i'r perwyl hwnnw.

Protocol Drafft rhwng y Cynulliad a Swyddfa Cymru Draft Protocol Between the Assembly and the Wales Office

Q4 Helen Mary Jones: Will the First Minister report on the draft protocol between the Assembly and the Office of the Secretary of State for Wales? (OAQ 8992)

Andrew Davies: The concordat between the Assembly Cabinet and the Wales Office was agreed and published on 9 January.

Helen Mary Jones: Has the Cabinet used these draft protocols—and we urge you to use them—to raise concerns about the potential harm caused by using depleted uranium in weapons, to Welsh members of the armed forces and to any members of the Welsh public involved in producing such weapons?

Andrew Davies: I am not aware that this issue has been discussed. I have not been

C4 Helen Mary Jones: A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd ar y protocol drafft rhwng y Cynulliad a Swyddfa Cymru? (OAQ8992)

Andrew Davies: Cytunwyd ar y concordat rhwng Cabinet y Cynulliad a Swyddfa Cymru ac fe'i gyhoeddwyd ar 9 Ionawr.

Helen Mary Jones: A yw'r Cabinet wedi defnyddio'r protocolau drafft hyn—ac fe'ch anogwn i'w defnyddio—i godi pryderon am y difrod posibl a achoswyd drwy ddefnyddio hen wraniwm mewn arfau, i aelodau'r lluoedd arfog yng Nghymru ac i unrhyw aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sydd yn ymwneud â chynhyrchu arfau o'r fath?

Andrew Davies: Nid wyf yn ymwybodol y trafodwyd y mater hwn. Ni fûm yn rhan o'r

party to the discussions with the Secretary of State and the Whitehall departments, but I will seek clarification on it, and speak to the First Minister about it.

Alun Cairns: The role of the Wales Office and that of the Secretary of State for Wales is to report on or advise the Cabinet on what is happening in Wales. Will the Minister advise the Assembly on the Cabinet and the Secretary of State for Wales's reactions following the Liberal promoted task and finish group's comments about a policy and strategy vacuum and the leadership gap in the Assembly?

2:20 p.m.

Andrew Davies: I am at a loss to understand Alun's question. I am not sure if I am the only one, but if you care to clarify, I will try to answer it.

Alun Cairns: May I clarify it?

The Presiding Officer: Order. As you know, the custom and practice in this Chamber is to allow second bites at the cherry only to the leader of the opposition, in this case, the leader of the Welsh Conservatives. Alun Cairns, you are not yet the leader of the Welsh Conservatives.

Codi Proffil Cymru Raising Wales's Profile

Q5 Brian Hancock: What plans does the First Minister have to raise Wales's profile through policy development within the United Kingdom? (OAQ8987)

Andrew Davies: The First Minister and his colleagues are already taking clear action to raise the profile of Wales throughout the United Kingdom through the imaginative partnership policy programme. The First Minister has discussions with the Secretary of State for Wales, the First Ministers of Scotland and Northern Ireland and their cabinet members on a regular basis to discuss a wide range of policy matters of mutual

trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ac adrannau Whitehall, ond gofynnaf am eglurhad, a thrafodaf y mater gyda Phrif Weinidog Cymru.

Alun Cairns: Rôl Swyddfa Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw cyflwyno adroddiadau ar yr hyn sydd yn digwydd yng Nghymru, neu hysbysu'r Cabinet am hynny. A hysbysa'r Gweinidog y Cynulliad am ymateb y Cabinet ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sylwadau'r grŵp gorchwyl a gorffen a hyrwyddwyd gan y Rhyddfrydwyr am ofod polisi a strategaeth a'r bwlch arweinyddiaeth yn y Cynulliad?

Andrew Davies: Nid wyf yn deall cwestiwn Alun. Nid wyf yn siŵr ai fi yw'r unig un, ond os hoffech ei egluro, fe geisiaf ei ateb.

Alun Cairns: A gaf i ei egluro?

Y Llywydd: Trefn. Fel y gwyddoch, arfer a thraddodiad y Siambr hon yw mai dim ond arweinydd yr wrthblaid, yn yr achos hwn, arweinydd Ceidwadwyr Cymru, gaiff ail gyfle arni. Alun Cairns, nid ydych eto yn arweinydd Ceidwadwyr Cymru.

C5 Brian Hancock: Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru i godi proffil Cymru drwy ddatblygiadau polisi o fewn y Deyrnas Unedig? (OAQ8987)

Andrew Davies: Mae Prif Weinidog Cymru a'i gyd-Aelodau eisoes yn cymryd camau pendant i godi proffil Cymru ledled y Deyrnas Unedig drwy'r rhaglen polisi partneriaeth llawn dychymyg. Bu Prif Weinidog Cymru yn trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon ac aelodau eu cabinet yn rheolaidd i drafod ystod eang o faterion polisi sydd o

interest and benefit.

Brian Hancock: The steel industry is firmly in our minds, but other manufacturing industries, which also raise Wales's profile throughout the UK and Europe, have been equally productive, efficient and innovative in their approach. What action will you take to help small and medium-sized industries to develop their policies?

Andrew Davies: As I am sure you are aware, Brian, the new national economic development strategy was discussed in the Economic Development Committee last week. That will be debated in the next few weeks. It considers key strategies to encourage small and medium-sized enterprises. These businesses form the bulk of companies and employers in Wales. We need to help people to set up their businesses and ensure that they have the right support mechanisms and the right environment in which to thrive and prosper. I am confident that the national economic development strategy, when debated, will reflect those priorities.

Kirsty Williams: Do you agree that your colleagues in the Westminster Government could do a great deal to enhance Wales's profile and wealth by reconsidering the Barnett formula?

Andrew Davies: That is an ongoing issue, and one that the Assembly and all political parties will wish to debate here and in Westminster.

Jonathan Morgan: One way to raise the Assembly's profile is through freedom of information, which we know you are keen on. In supporting this principle, will the Government commit itself to retaining school examination performance tables, so that parents can also have freedom of information?

Andrew Davies: I am sure that Jonathan knows—as he is well-informed—that my

ddiddordeb a budd cyffredin.

Brian Hancock: Mae'r diwydiant dur yn gadarn yn ein meddyliau, ond bu diwydiannau gweithgynhyrchu eraill, sydd hefyd yn codi proffil Cymru ledled y DU ac Ewrop yr un mor gynhyrchiol, effeithlon ac arloesol yn eu hymagwedd. Pa gamau a gymerwch i helpu diwydiannau bach a chanolig eu maint i ddatblygu eu polisiau?

Andrew Davies: Fel yr ydych yn ymwybodol mae'n siŵr, Brian, trafodwyd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos diwethaf. Caiff ei thrafod yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'n ystyried strategaethau allweddol i annog mentrau bach a chanolig eu maint. Dyna yw'r rhan fwyaf o gwmnïau a chyflogwyr yng Nghymru. Mae angen inni helpu pobl i sefydlu eu busnesau a sicrhau bod y dulliau cymorth cywir a'r amgylchedd cywir ar gael iddynt dyfu a ffynnu. Yr wyf yn hyderus y bydd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, pan gaiff ei thrafod, yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hynny.

Kirsty Williams: A gytunwch y gallai eich cyd-Aelodau yn Llywodraeth San Steffan wneud llawer i wella proffil a chyfoeth Cymru drwy ailystyried fformwla Barnett?

Andrew Davies: Mae hwn yn fater parhaus, ac yn un y bydd y Cynulliad a phob plaid wleidyddol am ei drafod yma ac yn San Steffan.

Jonathan Morgan: Un ffordd i godi proffil y Cynulliad yw drwy ryddid gwybodaeth, y gwyddom eich bod yn frwd o'i blaid. Wrth gefnogi'r egwyddor hon, a fydd y Llywodraeth yn ymrwymo i gadw tablau perfformiad arholiadau ysgolion, fel y gall rhieni hefyd gael rhyddid gwybodaeth?

Andrew Davies: Yr wyf yn siŵr bod Jonathan yn ymwybodol—gan ei fod yn

Cabinet colleague, Jane Davidson, is considering that issue, and will be discussing it in due course. I do not wish to pre-empt her decision and consultation.

hyddysg—fod fy nghyd-Aelod yn y Cabinet, Jane Davidson, yn ystyried y mater hwnnw, ac y bydd yn ei drafod maes o law. Nid wyf am achub y blaen ar ei phenderfyniad a'r broses ymgynghori.

The Presiding Officer: Question 6 has been transferred for written answer.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd Cwestiwn 6 i gael ateb ysgrifenedig.

Gohebiaeth rhwng y Cabinet a Swyddfa Cymru Correspondence between the Cabinet and the Wales Office

C7 Cynog Dafis: Beth yw'r diweddaraf am y trefniadau sydd yn cael eu hystyried i wneud yr ohebiaeth rhwng Cabinet Prif Weinidog Cymru a Swyddfa Cymru yn hysbys i'r cyhoedd? (OAQ8991)

Q7 Cynog Dafis: Will the First Minister give an update on the arrangements under consideration to make the correspondence between his Cabinet and the Wales Office public? (OAQ8991)

Andrew Davies: We have no plans for any such arrangements.

Andrew Davies: Nid oes unrhyw fwriad i roi trefniadau o'r fath ar waith.

Cynog Dafis: Yr wyf yn siomedig o glywed hynny. Ceir ymrwymiad yn y ddogfen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' y byddai protocol ar ryddid gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad erbyn diwedd 2000. Mae'n amlwg bod y protocol hwnnw yn hwyr. Fodd bynnag, pan ddaw'r protocol hwnnw, gobeithiaf y bydd yn gwarantu y bydd unrhyw ohebiaeth rhwng y Cabinet a Swyddfa Cymru, yn arbennig ynglŷn â gwneud deddfwriaeth San Steffan, yn gyhoeddus. Mae'n bwysig ein bod ni'n cael gwybod am unrhyw ddeialog, ar ddeddfwriaeth yn benodol, rhwng y Cabinet hwn a Swyddfa Cymru.

Cynog Dafis: I am disappointed to hear that. There is a commitment in the 'Putting Wales First' document to put a protocol on freedom of information before the Assembly by the end of 2000. It is obvious that that protocol is behind schedule. However, when that protocol materialises, I hope that it will ensure that any correspondence between the Cabinet and the Wales Office, particularly with regard to making Westminster legislation, is made public. It is important that we are aware of any dialogue, on legislation in particular, between this Cabinet and the Wales Office.

Andrew Davies: As you know, the First Minister is committed to freedom of information. One of the first actions that he took when he took office as First Secretary was to announce the publication of the minutes of Cabinet meetings. The Cabinet is also committed to freedom of information. However, correspondence between the Assembly, or the Cabinet, and third parties is another matter. We do not feel that that is contrary to our policy on freedom of information. It has always been made clear that a limited amount of material will need to

Andrew Davies: Fel y gwyddoch, mae'r Prif Weinidog yn ymrwymedig i ryddid gwybodaeth. Un o'r camau cyntaf a gymerodd yn ei swydd fel Prif Ysgrifennydd oedd cyhoeddi y byddai cofnodion cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cyhoeddi. Mae'r Cabinet hefyd yn ymrwymedig i ryddid gwybodaeth. Fodd bynnag, mae gohebiaeth rhwng y Cynulliad, neu'r Cabinet, a thrydydd parti, yn wahanol. Ni theimlwn ei fod yn groes i'n polisi ar ryddid gwybodaeth. Eglurwyd o'r cychwyn cyntaf y bydd angen cadw swm cyfyngedig o

be kept confidential. Negotiations or discussions between us as an Executive and the Secretary of State, for example, would fall into that category.

In terms of legislation, when the Cabinet and the Assembly express priorities, that is public information. If it were a decision of the Assembly, the administration would have no problem in publishing the contents of the letter that informs government departments of Assembly decisions. In terms of publishing correspondence with third parties, we feel, as I said, that that would be outside normal practice.

Glyn Davies: What discussions have taken place between the Government of Wales and the Wales Office about creating a mechanism for ensuring clarity in dealing with future primary legislation? We do not want a government that does not know what it is doing on a permanent basis.

Andrew Davies: I presume that your comment about

‘a government that does not know what it is doing on a permanent basis’

refers to your own party’s rule from 1979 to 1997. In the last Queen’s Speech, the Assembly and the Cabinet were extremely successful in ensuring that the voice of Wales and of the Assembly were heard. Of around 12 Bills, five were Welsh Bills or had significant Welsh clauses. That is a major, significant triumph for the Assembly and for the relationship between the Assembly Cabinet and the Westminster Government. It is an example of the devolution settlement working. I know that Glyn’s party was against devolution, but those who were pro-devolution feel that this is a mark of the settlement’s success.

Y Llywydd: Mae cwestiwn 8 wedi ei dynnu yn ôl.

ddeunydd yn gyfrinachol. Byddai negodiadau neu drafodaethau rhyngom ni fel Gweithrediaeth a’r Ysgrifennydd Gwladol, er enghraifft, yn rhan o’r categori hwnnw.

Yn nhermau deddfwriaeth, pan fo’r Cabinet a’r Cynulliad yn mynegi blaenoriaethau, mae hynny’n wybodaeth gyhoeddus. Pe bai’n benderfyniad gan y Cynulliad, ni fyddai unrhyw broblem gan y weinyddiaeth wrth gyhoeddi cynnwys y llythyr yn hysbysu adrannau’r llywodraeth am benderfyniadau’r Cynulliad. Yn nhermau cyhoeddi gohebiaeth gyda thrydydd parti, teimlwn, fel y nodais, y byddai hynny y tu allan i arfer cyffredin.

Glyn Davies: Pa drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru ynghylch creu peirianwaith ar gyfer sicrhau eglurdeb wrth ddelio â deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol? Nid ydym am weld llywodraeth na wŷr beth mae’n ei wneud ar sail barhaol.

Andrew Davies: Tybiaf fod eich sylw am

‘lywodraeth na wŷr beth mae’n ei wneud ar sail barhaol’

yn cyfeirio at gyfnod llywodraethu eich plaid eich hun o 1979 i 1997. Yn Araith ddiwethaf y Frenhines, bu’r Cynulliad a’r Cabinet yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau bod llais Cymru a’r Cynulliad yn cael ei glywed. O tua 12 o Fesurau, yr oedd pump ohonynt yn Fesurau i Gymru neu’n cynnwys cymalau o arwyddocâd i Gymru. Mae hynny’n llwyddiant pwysig, arwyddocaol i’r Cynulliad ac i’r berthynas rhwng Cabinet y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan. Mae’n enghraifft o’r setliad datganoli yn gweithio. Gwn fod plaid Glyn yn erbyn datganoli, ond mae’r rheini a oedd o blaid datganoli yn teimlo fod hyn yn arwydd o lwyddiant y setliad.

The Presiding Officer: Question 8 has been withdrawn.

Y Cynulliad Cenedlaethol (Ymateb i Newid mewn Cymuned)
The National Assembly (Response to Changes in a Community)

Q9 William Graham: Will the First Minister make a statement concerning the readiness of the National Assembly to respond to a major change which affects all aspects of the community life, within an area of Wales? (OAQ8979)

Andrew Davies: As a result of a review of the National Assembly's arrangements for tackling poverty and its associated problems, we have now established a Community Regeneration and Social Inclusion Unit. This unit is responsible for driving forward the Communities First programme and the social inclusion agenda. It is also co-ordinating action to promote social inclusion across all of the Assembly's responsibilities. The unit will ensure flexible and effective responses to unanticipated social or economic problems which may arise in any area of Wales.

William Graham: For the past three months, uncertainty in the steel industry has overshadowed all communities in South Wales East. Should their worst fears be realised, how can this Assembly immediately and effectively support their needs?

Andrew Davies: We hope that any restructuring will not lead to major or significant job losses in any of the areas where the steel plants are situated. However, the unit to which I referred has plans for a co-ordinated approach to tackling the problems, for example, of redundancy. My colleague, Jane Davidson, has been involved in terms of skills and re-training, and the Welsh Development Agency and its taskforce will also be brought in to co-ordinate an effective response to any job losses. We hope job losses do not occur, but we are prepared for them.

C9 William Graham: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ba mor barod yw'r Cynulliad Cenedlaethol i ymateb i newid mawr sydd yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd cymuned o fewn ardal o Gymru? (OAQ8979)

Andrew Davies: O ganlyniad i arolwg o drefniadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i broblemau cysylltiedig, yr ydym bellach wedi sefydlu Uned Adfywio Cymunedau a Chynhwysiant Cymdeithasol. Mae'r uned hon yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r agenda cynhwysiant cymdeithasol. Mae hefyd yn cydlynu camau gweithredu i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ar draws pob un o gyfrifoldebau'r Cynulliad. Bydd yr uned yn sicrhau ymatebion hyblyg ac effeithiol i broblemau cymdeithasol neu economaidd nas rhagwelwyd a allai godi o fewn unrhyw ardal o Gymru.

William Graham: Am y tair blynedd diwethaf, bu ansicrwydd yn y diwydiant dur yn gwmwl dros bob cymuned yn Nwyrain De Cymru. Pe gwiredwyd eu hofnau gwaethaf, sut gall y Cynulliad hwn weithredu ar unwaith i gynnal eu hanghenion yn effeithiol?

Andrew Davies: Gobeithiwn na fydd unrhyw ailstrwythuro yn arwain at golli swyddi mawr neu sylweddol o fewn unrhyw un o'r ardaloedd lle lleolir y ffatrioedd dur. Fodd bynnag, mae gan yr uned y cyfeiriais ati gynlluniau ar gyfer ymagwedd gydlynus tuag at fynd i'r afael â phroblemau o ran diswyddo, er enghraifft. Bu fy nghyd-Aelod, Jane Davidson, yn ymwneud â hyn yn nhermau sgiliau ac ailhyfforddi a chynhwysir Awdurdod Datblygu Cymru a'i dasglu hefyd er mwyn cydlynu ymateb effeithiol i unrhyw golli swyddi. Gobeithiwn na chaiff unrhyw swyddi eu colli, ond yr ydym yn barod amdanynt.

Phil Williams: Taking that as an example, the Assembly has used its maximum powers to draw up an aid package for Corus, but in total it seems small compared to the steps that will be necessary to safeguard the industry. Do you agree that the National Assembly, in its present form, does not have adequate financial powers or resources to tackle fully a major challenge on this scale? Will you join Plaid Cymru in pressing for the necessary additional powers for this Assembly?

2:30 p.m.

Andrew Davies: It is rather premature to talk about inadequate powers, Phil, until we know what the outcome will be. It would be premature for me to try to answer that question.

Tom Middlehurst: Do you agree that in the absence of decisions by the business community, in particular Corus, it is difficult for the Assembly and for the other players—local authorities, the agencies acting on behalf of the Assembly and the Employment Service—to take decisive action to deal with the consequences of those potential decisions? Do you also agree that it is time for Corus to come clean in order to rid the communities involved of the insecurity and the uncertainty that has arisen, as a result of the ongoing speculation and the lack of decisions being made by it, and to enable such action as the Assembly can take to be put in place to deal with the consequences?

Andrew Davies: I am sure that we all have sympathy for those who work in the steel industry and are employed by Corus, and who live in the communities involved. The uncertainty is damaging to them and to the economic future of the company. I agree with you that there is pressure. The point that the administration here and in Westminster have made to the company is that this speculation is damaging, not only to the livelihood and health of the people who work in the company, and the local communities, but to

Phil Williams: Gan gymryd hynny fel enghraifft, defnyddiodd y Cynulliad ei uchafswm pwerau i lunio pecyn cymorth i Corus, ond yn gyffredinol ymddengys yn fach o'i gymharu â'r camau y bydd eu hangen i ddiogelu'r diwydiant. A gytunwch nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol, ar ei ffurf bresennol, ddigon o bwerau neu adnoddau ariannol i fynd i'r afael yn llawn â her fawr ar y raddfa hon? A ymunwch â Phlaid Cymru wrth bwysu am y pwerau ychwanegol sydd eu hangen ar y Cynulliad hwn?

Andrew Davies: Mae braidd yn gynnwyr inni ddechrau sôn am bwerau annigonol, Phil, tan y gwyddom beth fydd y canlyniad. Byddai'n rhy gynnwyr imi geisio ateb y cwestiwn hwnnw.

Tom Middlehurst: A gytunwch yn absenoldeb penderfyniadau gan y gymuned fusnes, yn arbennig Corus, ei bod yn anodd i'r Cynulliad a chyfranogwyr eraill—awdurdodau lleol, yr asiantaethau sydd yn gweithredu ar ran y Cynulliad a'r Gwasanaeth Cyflogi—gymryd camau pendant i ddelio â chanlyniadau'r penderfyniadau posibl hynny? A gytunwch hefyd ei bod yn bryd i Corus fod yn agored er mwyn cael gwared ar yr ansicrwydd a ddaeth i'r amlwg yn y cymunedau dan sylw, o ganlyniad i'r tybiaethau parhaus a'r diffyg penderfyniadau ganddo, ac er mwyn galluogi i'r Cynulliad sefydlu'r camau gweithredu y gall eu cymryd i ddelio â'r canlyniadau?

Andrew Davies: Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn cydymdeimlo â'r rheini sydd yn gweithio yn y diwydiant dur ac sydd wedi'u cyflogi gan Corus, ac sydd yn byw yn y cymunedau dan sylw. Mae'r ansicrwydd yn niweidiol iddynt hwy ac i ddyfodol economaidd y cwmni. Cytunaf â chi bod yna bwysau. Y pwynt a gyflwynwyd i'r cwmni gan y weinyddiaeth yma ac yn San Steffan yw bod y damcaniaethu hwn yn niweidiol, nid yn unig i fywoliaeth a iechyd y bobl sydd yn gweithio yn y cwmni, a'r cymunedau

the economy of Wales and other parts of the UK.

lleol, ond i economi Cymru a rhannau eraill o'r DU.

Polisi ar Newid Hinsawdd ar Lefel Ewropeaidd (Cyfraniad Cymru)
Policy on Climate Change at a European Level (Wales's Contribution)

Q10 Janet Davies: Will the First Minister make a brief statement on Wales's contribution to policy development regarding climate change at a European level? (OAQ8986)

C10 Janet Davies: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar gyfraniad Cymru at ddatblygu polisi ar newid hinsoddol ar lefel Ewropeaidd? (OAQ8986)

Andrew Davies: The Assembly's role in the fight against climate change is set out in section 4, chapter 3 of 'Climate Change: the UK Programme', which was published on 19 November last year. Copies of a programme summary were sent to all Members. Copies of the full report are available in the Library or from the Assembly's Environment Division.

Andrew Davies: Nodir rôl y Cynulliad yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd yn adran 4, pennod 3 'Climate Change: the UK Programme', a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd y llynedd. Anfonwyd copïau o grynodedd o'r rhaglen at bob Aelod. Mae copïau o'r adroddiad llawn ar gael yn y Llyfrgell neu o Adran Amgylchedd y Cynulliad.

Janet Davies: A major issue in controlling climate change is energy conservation. I note that local government is not approaching its target on energy conservation rapidly. What steps do you propose to take to help them achieve it?

Janet Davies: Mater pwysig wrth reoli newid hinsawdd yw cadwraeth ynni. Nodaf nad yw llywodraeth leol yn agos at gwrdd â'i tharged ar gadwraeth ynni. Pa gamau y bwriadwch eu cymryd i'w helpu i'w gyflawni?

Andrew Davies: We are considering a range of measures to cut back on energy use and measures that will hopefully enable us to hit the target set by the UK Government to meet the Kyoto protocol, which is a 12.5 per cent reduction in greenhouse gas emissions by 2008. In discussion with my colleagues, Edwina Hart and Sue Essex, we are considering a range of measures and policy initiatives that will help to reduce energy use in transport, housing and business. Such measures include improving business's use of energy, stimulating investment and cutting costs, stimulating new and more efficient sources of power generation—that relates to our policy on sustainable development—cutting emissions from the transport sector and promoting better energy efficiency in the domestic sector. That also has the benefit of saving on householders' costs. On a range of issues, we feel we are making a contribution towards cutting energy use and cutting

Andrew Davies: Yr ydym yn ystyried ystod o fesurau i leihau'r defnydd o ynni a mesurau a fydd, gobeithiaf, yn ein galluogi i gyrraedd y targed a osodwyd gan Lywodraeth y DU i gwrdd â phrotocol Kyoto, sef gostyngiad o 12.5 y cant mewn gollyngiadau nwy tŷ gwydr erbyn 2008. Wrth drafod gyda'm cyd-Aelodau, Edwina Hart a Sue Essex, yr ydym yn ystyried ystod o fesurau a mentrau polisi a fydd yn helpu i leihau'r defnydd o ynni gan drafnidiaeth, tai a busnes. Ymhlith mesurau o'r fath mae gwella defnydd busnes o ynni, ysgogi buddsoddiad a lleihau costau, ysgogi ffynonellau newydd, mwy effeithlon o gynhyrchu pw^er—sydd yn ymwneud â'n polisi ar ddatblygiad cynaliadwy—lleihau gollyngiadau gan y sector trafnidiaeth a hyrwyddo gwell effeithlonrwydd ynni yn y sector domestig. Bydd budd ychwanegol i hyn hefyd sef lleihau costau i ddeiliaid cartrefi. Ar ystod o faterion, teimlwn ein bod yn gwneud cyfraniad tuag at leihau'r defnydd

emissions.

David Davies: Will you tell us if Wales's contribution towards policy development at the European level on climate change included a full and frank explanation as to why the Assembly has cut the freight facilities grant, therefore forcing more rail freight off the railways onto the roads, in direct contravention of the policies that you have just claimed to support?

Andrew Davies: The Assembly has made those representations to the UK Government and the points have been taken on board. Sue Essex could respond in detail to you, if you wish to write to her on that matter.

o ynni a lleihau gollyngiadau.

David Davies: A ddywedwch wrthym a oedd cyfraniad Cymru tuag at ddatblygiad polisi ar lefel Ewropeaidd ar newid hinsawdd yn cynnwys esboniad llawn a gonest o resymau'r Cynulliad dros leihau'r grant cyfleusterau cludo nwyddau, gan olygu bod mwy o nwyddau yn gorfod newid o gael eu cludo ar y rheilffyrdd i gael eu cludo ar y ffyrdd, sydd yn gwbl groes i'r polisiau yr ydych newydd honni eich bod o'u plaid?

Andrew Davies: Mae'r Cynulliad wedi gwneud y sylwadau hynny i Lywodraeth y DU ac ystyriwyd y pwyntiau. Gallai Sue Essex roi ymateb manwl ichi, pe hoffech ysgrifennu ati ynghylch y mater hwnnw.

Polisiau i Ddenu Mewnfuddsoddi (Gogledd Cymru) Policies Designed to Encourage Inward Investment (North Wales)

Q11 Alison Halford: In his role as policy co-ordinator for north Wales, what action has the First Minister taken to ensure that policies designed to encourage inward investment are supported by measures to improve the local transportation and technological infrastructure? (OAQ8982)

Andrew Davies: The National Assembly has agreed an outline programme to facilitate the exploitation of spare capacity of the A55 fibre-optic cable network for the benefit of industries and educational establishments in north Wales. This project will facilitate the development of broadband telecommunications in north Wales by making the Assembly's installations available to the north Wales business community, assisting the Assembly's policy for reducing exclusion and enhance the sustainable development programme and provide equal opportunity for all industries.

On transport, on 11 January, Sue Essex announced a £300 million package of transport investment in Wales over the next five years, supporting local authority integrated transport delivery. The Assembly will continue to enthusiastically promote and

C11 Alison Halford: Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynnydd polisi ar gyfer y gogledd, pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod polisiau i ddenu mewnfuddsoddiant yn cael eu cefnogi gan fesurau i wella'r isadeiledd trafndiaeth a thechnolegol lleol? (OAQ8982)

Andrew Davies: Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno ar amlinelliad o'r rhaglen i hwyluso defnyddio cynhwysedd ychwanegol rhwydwaith cebl ffeibr-optig yr A55 er budd diwydiannau a sefydliadau addysgol yng ngogledd Cymru. Bydd y prosiect hwn yn hwyluso datblygu telathrebu eang yng ngogledd Cymru drwy roi gosodiadau'r Cynulliad ar gael i gymuned fusnes gogledd Cymru, gan gynorthwyo polisi'r Cynulliad ar gyfer lleihau allgáu a gwella'r rhaglen datblygiad cynaliadwy a rhoi cyfle cyfartal i bob diwydiant.

Ar drafndiaeth, ar 11 Ionawr, cyhoeddodd Sue Essex becyn £300 miliwn o fuddsoddiad mewn trafndiaeth yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf, gan gynorthwyo cyflwyno trafndiaeth integredig awdurdodau lleol. Bydd y Cynulliad yn parhau i hybu a

support extensive utilisation of advanced information technologies in all sectors. As I said earlier, in terms of new technology, on 17 December 1999 at St Asaph, the First Minister officially launched strand 6 of the Llwybr/Pathway project, which is a telecommunications infrastructure project. That was a substantial investment, with a total cost of £6 million, funded by British Telecom, the Welsh Development Agency and European funds, bringing access to those living and working in Anglesey, Gwynedd, Conwy and Denbighshire, among others.

Alison Halford: In your role as the new Minister for e-commerce, would you like to visit north Wales to talk to business people? Your advice would be invaluable to them.

Andrew Davies: I plan to visit north Wales and visit ICT developments. Interesting initiatives have been established, particularly community-based industries. I would also like to look at the possibility of the planned use for the A55 fibre-optic cable network.

chynorthwyo'r defnydd o dechnolegau gwybodaeth datblygedig yn frwdfrydig ym mhob sector. Fel y dywedais yn gynharach, yn nhermau technoleg newydd, ar 17 Rhagfyr 1999 yn Llanelwy, lansiodd Prif Weinidog Cymru linyn 6 y prosiect Llwybr/Pathway, sydd yn brosiect isadeiledd telathrebu, yn swyddogol. Yr oedd hynny'n fuddsoddiad sylweddol, gyda chyfanswm cost o £6 miliwn, a ariannwyd gan British Telecom, Awdurdod Datblygu Cymru ac arian Ewropeaidd, gan roi mynediad i'r rhai hynny sydd yn byw ac yn gweithio yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, ymysg eraill.

Alison Halford: Yn eich rôl fel y Gweinidog newydd dros e-fasnach, a hoffech ymweld â gogledd Cymru i siarad â phobl fusnes? Byddai eich cyngor yn werthfawr iawn iddynt.

Andrew Davies: Bwriadaf ymweld â gogledd Cymru ac ymweld â datblygiadau TGCh. Sefydlwyd mentrau diddorol, yn enwedig diwydiannau wedi'u lleoli mewn cymunedau. Hoffwn edrych hefyd ar y posibilrwydd o'r defnydd a gynlluniwyd ar gyfer rhwydwaith ceblau ffeibr-optig yr A55.

Mesur Hawliau Dinasyddiaeth ('Rhoi Cymru'n Gyntaf') **Citizenship Rights Bill ('Putting Wales First')**

Q12 Kirsty Williams: What steps have been taken to establish the bill of citizenship rights mentioned in Putting Wales First? (OAQ8995)

Andrew Davies: Our bill of rights will be an Assembly product, a codification of Assembly policies and principles, rather than the result of Westminster legislation. It will draw together a range of actions on which the partnership is already embarked and signal others that we intend to bring forward. The partnership Government will act to strengthen the rights of citizens in Wales, in both social and civic spheres. For example, new rights for children, free school milk and the establishment and development of the Children's Commissioner for Wales. We will

C12 Kirsty Williams: Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sefydlu'r mesur hawliau dinasyddiaeth y cyfeirir ato yn Rhoi Cymru yn Gyntaf? (OAQ8995)

Andrew Davies: Bydd ein mesur hawliau yn gynnyrch y Cynulliad, yn gyfundrefn o bolisiau ac egwyddorion y Cynulliad, yn hytrach na chanlyniad deddfwriaeth San Steffan. Bydd yn dod ag ystod o weithredoedd y mae'r bartneriaeth wedi ymgymryd â hwy eisoes ynghyd ac yn rhoi arwydd i rai eraill y bwriadwn eu cyflwyno. Bydd y Llywodraeth bartneriaeth yn gweithredu i atgyfnerthu hawliau dinasyddion yng Nghymru, o fewn meysydd cymdeithasol a dinesig. Er enghraifft, hawliau newydd i blant, llaeth am ddim

also publish a code of practice on access to information

Kirsty Williams: Within what timescale will this project be completed?

Andrew Davies: I cannot give you a firm date. However, the Cabinet and the partnership Government will implement it. There is a major commitment to this. As I said in answer to Cynog's question, we are committed to freedom of information as well as establishing a bill of rights.

Glyn Davies: Do you agree that introducing a Bill to ban hunting with dogs is a threat to the right of the hundreds of thousands of people who enjoy country sports and the hundreds of thousands of farmers throughout the land who will suffer great cost at a very difficult time?

Andrew Davies: You may be surprised to learn, Glyn, that I do not agree with you. Hunting with dogs and hunting for pleasure is barbaric. If I were a Member of Parliament I would have supported the majority in the House of Commons on that matter.

Val Feld: Are you aware, Andrew, that the Government in Westminster has recently established a committee to consider the question of whether there should be a human rights commission? If that happened, the question arises whether we would wish to have a human rights commission in Wales to enable individuals to enforce their new rights under the new legislation. Members might be interested in attending a seminar on this next Monday. However, do you agree that we should give serious consideration in this Assembly to how to enable people in Wales to enforce those rights?

Andrew Davies: In the short history of the Assembly, we have been in the vanguard of protecting rights, particularly children's rights. The establishment of the Children's Commissioner shows our commitment to

mewn ysgolion a sefydlu a datblygu swydd Comisiynydd Plant Cymru. Byddwn hefyd yn cyhoeddi cod ymarfer ar fynediad i wybodaeth.

Kirsty Williams: Erbyn pryd y cwblheir y prosiect hwn?

Andrew Davies: Ni allaf roi dyddiad pendant i chi. Fodd bynnag, bydd y Cabinet a'r Llywodraeth bartneriaeth yn ei weithredu. Ceir ymrwymiad mawr i hyn. Fel y dywedais yn fy ateb i gwestiwn Cynog, yr ydym yn ymroddedig i ryddid gwybodaeth yn ogystal â sefydlu mesur hawliau.

Glyn Davies: A gytunwch fod cyflwyno Mesur i wahardd hela â chŵn yn fygythiad i hawl cannoedd ar filoedd o bobl sydd yn mwynhau chwaraeon gwledig a'r cannoedd ar filoedd o ffermwyr drwy'r wlad a fydd yn dioddef cost fawr ar adeg anodd iawn?

Andrew Davies: Efallai y byddwch yn synnu clywed, Glyn, nad wyf yn cytuno â chi. Mae hela â chŵn a hela er pleser yn farbaraidd. Pe bawn yn Aelod Seneddol byddwn wedi cefnogi'r mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin ar y mater hwnnw.

Val Feld: A ydych yn ymwybodol, Andrew, bod y Llywodraeth yn San Steffan yn ddiweddar wedi sefydlu pwyllgor i ystyried y cwestiwn a ddylid cael comisiwn hawliau dynol? Pe digwyddai hynny, fe goda'r cwestiwn pa un a fyddem am gael comisiwn hawliau dynol yng Nghymru i alluogi unigolion orfodi eu hawliau newydd o dan y ddeddfwriaeth newydd ai peidio. Efallai y byddai gan yr Aelodau ddi-ddordeb mewn mynychu seminar ar hyn ddydd Llun nesaf. Fodd bynnag, a gytunwch y dylem ystyried yn ddifrifol yn y Cynulliad hwn sut i alluogi i bobl yng Nghymru orfodi'r hawliau hynny?

Andrew Davies: Yn ystod oes fer y Cynulliad, buom ar y blaen wrth ddiogelu hawliau, yn enwedig hawliau plant. Dengys sefydlu'r Comisiynydd Plant ein hymrwymiad i hynny. O ran comisiwn

that. In terms of a human rights commission, we would need to consider how best the Assembly's views could be communicated. I would need to discuss with the First Minister whether we would be represented on that commission or whether there would be a parallel body in Wales. We would have to consider that. We need to ensure that our views are represented.

hawliau dynol, byddai angen inni ystyried y ffordd orau o gyfathrebu barn y Cynulliad. Byddai angen imi drafod â'r Prif Weinidog pa un a gawn ein cynrychioli ar y comisiwn hwnnw neu a fyddai corff cyfochrog yng Nghymru. Byddai'n rhaid inni ystyried hynny. Mae angen inni sicrhau y cynrychiolir ein barn.

2:40 p.m.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Darparu Llety ar gyfer Ceiswyr Lloches Housing Asylum Seekers

The Presiding Officer: I have allowed an urgent question, under Standing Order No. 6.31, on a matter of urgent public importance, which will be answered by the Minister for Finance, Local Government and Communities.

Y Llywydd: Yr wyf wedi caniatáu cwestiwn brys, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.31, ar fater o bwys cyhoeddus mawr, a atebir gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Nick Bourne: Will the Minister for Finance, Local Government and Communities make a statement on the Home Office's intention to house 100 asylum seekers in Cardiff prison? (EAQ9326)

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar fwriad y Swyddfa Gartref i ddarparu lloches i 100 o geiswyr lloches yng ngharchar Caerdydd? (EAQ9326)

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I am grateful for the opportunity to comment on this issue, which has been the subject of much media speculation today. You will all be aware that the responsibility for policies relating to asylum seekers is a matter for the Home Office and not a devolved matter. However, the Assembly has a direct responsibility for matters such as health, housing and accommodation and the general support and wellbeing of any asylum seekers dispersed to Wales. I am in the process of clarifying this position and I have asked my officials to speak to the Home Office to gain an accurate assessment of the current situation. I will, providing the Presiding Officer and the Minister for Assembly Business are agreeable, make a full statement on the outcome of this next

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i roi sylwadau ar y mater hwn, a fu'n destun cryn sylw yn y cyfryngau heddiw. Byddwch oll yn ymwybodol mai mater i'r Swyddfa Gartref yw'r cyfrifoldeb am bolisiau sydd yn ymwneud â cheiswyr lloches ac nad mater a ddatganolwyd ydyw. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol dros faterion megis iechyd, tai a llety a chymorth cyffredinol a lles unrhyw geisiwr lloches a anfonir i Gymru. Yr wyf yn y broses o egluro'r sefyllfa hon ac yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion siarad â'r Swyddfa Gartref i gael asesiad cywir o'r sefyllfa bresennol. Byddaf, ar yr amod y bydd y Llywydd a'r Trefnydd yn cytuno, yn gwneud datganiad llawn ar ganlyniad hyn yr wythnos nesaf.

week.

Nick Bourne: The Minister is right that this is primarily a Home Office responsibility, but, as she also says, some of the responsibility for asylum seekers lies with this Assembly. Reports suggest that 100 asylum seekers are to be held in Cardiff prison. Is it not the result of a failure to run an effective, clear and speedy asylum policy that there are so many asylum seekers in this country? Does this not fit uncomfortably with your attitude to the Conservative Party's proposals to put asylum seekers in dedicated reception centres, where there would be staff who could understand and deal with their concerns? These people are not convicted criminals. Indeed, they have not been charged with any offence. Is it not inappropriate that they should be put in prison?

The Welsh Refugee Council has already objected to these proposals. The Prison Officers' Association is against them. There does not appear to be any additional resources to deal with this. Will you use your own office and those of the administration to object to this Home Office decision? If, indeed, it is a decision—it appears to be such. Do you not agree that reception centres with dedicated staff would provide a better way of dealing with this problem in the short term? However, in the medium to long-term, would it not be better to have a speedy, effective way of dealing with asylum seekers, not least so that genuine asylum seekers can have the haven that they deserve?

Edwina Hart: My understanding from the Home Office, which I am currently confirming, is that these numbers relate to the target for removing asylum seekers who have been unsuccessful in their applications. There has been a high level of absconding, and the facilities to detain these people are not available. The context of the Cardiff arrangement is that several prisons were considered to house these failed applicants,

Nick Bourne: Mae'r Gweinidog yn gywir i ddweud mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref ydyw yn bennaf, ond, fel y dyweda hefyd, mae peth o'r cyfrifoldeb am geiswyr lloches gyda'r Cynulliad hwn. Mae adroddiadau'n cynnig y dylid cadw 100 o geiswyr lloches yng ngharchar Caerdydd. Onid canlyniad methiant i redeg polisi lloches effeithiol, clir a chyflym yw bod cymaint o geiswyr lloches yn y wlad hon? Onid yw hyn yn gweddu'n anghyfforddus â'ch agwedd at gynigion y Blaid Geidwadol i roi ceiswyr lloches mewn canolfannau derbyn penodedig, lle byddai staff a allai ddeall ac ymdrin â'u pryderon? Nid yw'r bobl hyn yn droseddwyd collfarnedig. Yn wir, ni chawsant eu cyhuddo ag unrhyw drosedd. Oni fyddai'n amhriodol eu rhoi yn y carchar?

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru eisoes wedi gwrthwynebu'r cynigion hyn. Mae Cymdeithas y Swyddogion Carchardai yn eu gwrthwynebu. Nid ymddengys bod unrhyw adnoddau ychwanegol i ymdrin â hyn. A ddefnyddiwch eich swyddfa eich hun a swyddfeydd y weinyddiaeth i wrthwynebu'r penderfyniad hwn gan y Swyddfa Gartref? Os ydyw, yn wir, yn benderfyniad—ymddengys ei fod. Onid ydych yn cytuno y byddai canolfannau derbyn gyda staff ymroddedig yn darparu ffordd well o ymdrin â'r broblem hon yn y tymor byr? Fodd bynnag, yn y tymor canolig i'r tymor hir, oni fyddai'n well cael ffordd gyflym, effeithiol o ymdrin â cheiswyr lloches, o leiaf fel y gall ceiswyr lloches dilys gael y noddfa y maent yn ei haeddu?

Edwina Hart: Yn ôl yr hyn a ddeallaf gan y Swyddfa Gartref, a gadarnhaf ar hyn o bryd, mae'r niferoedd hyn yn gysylltiedig â'r targed ar gyfer symud ceiswyr lloches a fu'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau. Cafwyd lefel uchel o ddianc, ac nid yw'r cyfleusterau i gadw'r bobl hyn ar gael. Cyd-destun trefniant Caerdydd yw yr ystyriwyd sawl carchar i roi llety i'r ymgeiswyr hyn a fethodd, sydd wedyn yn gorfod cael eu hanfon o'r wlad.

who must then be sent out from the country. I will confirm that when I have the necessary information. The National Assembly's views and my views on asylum seekers are well known in terms of what we need to consider as regards the system. However, I agree, and the majority of the Assembly agrees, that we have a moral obligation to ensure that people seeking asylum here, for good reasons, are well treated and that we have the necessary facilities to accommodate them. That is always the tack that I have taken as the Minister with responsibility for asylum seekers, and I know that that is the National Assembly's view. However, I do not want to engage in a debate that is for another place.

Pauline Jarman: I declare an interest as a member of one of the local government consortia established to consider the issue of asylum seekers and reception centres. Surely prison is a place for punishment. Do you not think that these people have been punished sufficiently? If this is to be the case—and I hope that all of us will object to it being so—can you indicate the age and sex of the asylum seekers? Can the Home Office assure us that no-one under 18 will be incarcerated in Cardiff prison? It is a tragedy when consortia in Wales have been set up specifically to consider the human rights issues involved in this. I wonder what consultation has taken place with those consortia.

Edwina Hart: The issue of Cardiff prison relates to immigration offenders and failed asylum applicants, not to asylum seekers whose applications are being processed. I understand that the Home Office's objective is that, as there is insufficient provision in detention centres for this group, it is looking to the prison service to provide accommodation for a certain period. I will clarify this when I discuss it with the Home Office.

On immigration and asylum seekers in general, I am committed to ensuring that those who come to Wales are treated with courtesy and respect and that the necessary

Byddaf yn cadarnhau hynny pan gaf yr wybodaeth angenrheidiol. Mae barn y Cynulliad Cenedlaethol a'm barn i ar geiswyr lloches yn hysbys o ran yr hyn sydd ei angen inni ei ystyried o safbwynt y system. Fodd bynnag, cytunaf, ac mae mwyafrif y Cynulliad yn cytuno, y dylai fod gennym ddyletswydd foesol i sicrhau y caiff pobl sydd yn ceisio lloches yma, am resymau da, eu trin yn dda a bod gennym y cyfleusterau angenrheidiol i'w lletya. Dyna'r trywydd a gymerais fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros geiswyr lloches, a gwn mai dyna yw barn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, nid wyf am gymryd rhan mewn trafodaeth y dylai gael ei chynnal rywle arall.

Pauline Jarman: Datganaf fuddiant fel aelod o un o'r consortia llywodraeth leol a sefydlwyd i ystyried mater ceiswyr lloches a chanolfannau derbyn. Siawns nad lle i gosbi yw carchar. Oni chredwch y cosbwyd y bobl hyn yn ddigonol? Os na chredwch—a gobeithiaf y bydd pawb ohonom yn gwrthwynebu—allwch chi nodi oed a rhyw y ceiswyr lloches? A all y Swyddfa Gartref ein sicrhau na chaiff unrhyw un o dan 18 oed eu rhoi yng ngharchar Caerdydd? Mae'n drasiedi pan sefydlwyd consortia yng Nghymru yn arbennig i ystyried y materion hawliau dynol sydd ynghlwm â hyn. Tybed pa drafodaethau a gynhaliwyd â'r consortia hynny.

Edwina Hart: Mae mater carchar Caerdydd yn ymwneud â throseddwyd mewn fudo a cheiswyr lloches a fethodd, nid â cheiswyr lloches y caiff eu ceisiadau eu prosesu. Deallaf mai amcan y Swyddfa Gartref, gan fod darpariaeth ddigonol mewn canolfannau cadw ar gyfer y grŵp hwn, yw troi at y gwasanaeth carcharau i ddarparu llety am gyfnod penodol. Egluraf hyn pan fyddaf yn ei drafod â'r Swyddfa Gartref.

Ar fater mewn fudo a cheiswyr lloches yn gyffredinol, yr wyf yn ymroddedig i sicrhau y caiff y rhai hynny a ddaw i Gymru eu trin â chwarteisi a pharch ac y gwneir y

provisions are made to ensure that their children are educated and that we can deal with their health needs. However, we are perhaps talking about two slightly different issues.

Peter Law: I hope that what we heard from the Conservatives was only wild speculation. I know that the Minister is committed to dealing with asylum seekers humanely. I would be appalled if any such suggestion about using Cardiff prison were to prove true. Cardiff prison and all prisons in Wales are overcrowded in any case as a result of meeting their original purpose. It is very wrong to suggest that asylum seekers who have come from backgrounds of terror and oppression should be housed in prison. I am sure that the Minister will strongly convey those feelings to whomever is responsible. We do not want to see this happening in Wales; Britain should make appropriate provision in the right and proper manner.

Edwina Hart: I concur with Peter's comments. However, I make the point that we are referring to a number of illegal immigrants and asylum seekers whose applications have been denied. It is in this context that the Home Office is looking to the prison service, not in the context of relocating asylum seekers and their families. It is about that narrow area. I have taken on board the points made by Members today on the appropriateness of housing any asylum seekers in Her Majesty's prisons, and will make a full statement next week, after I have clarified the position.

Jocelyn Davies: To clarify, these are not people who have appeared before a court of law in this land and have been found guilty. They are not criminals and are not awaiting a court appearance. Therefore, even if they are failed applicants, this is not appropriate provision for them. They may well be failed applicants but still be people who have been subject to torture in their own lands. To house such people in prison is very wrong. I

darpariaethau angenrheidiol i sicrhau y caiff eu plant eu haddysgu ac y gallwn gwrdd â'u hanghenion iechyd. Fodd bynnag, efallai ein bod yn siarad am ddau fater sydd ychydig yn wahanol.

Peter Law: Gobeithiaf mai damcaniaethu gwyllt yn unig oedd yr hyn a glywsom gan y Ceidwadwyr. Gwn bod y Gweinidog yn ymroddedig i ymdrin â cheiswyr lloches mewn ffordd ddynol. Byddwn yn dychryn pe bai unrhyw gynnig o'r fath am ddefnyddio carchar Caerdydd yn dod yn wir. Mae carchar Caerdydd a phob carchar yng Nghymru yn orlawn eisoes o ganlyniad i gwrdd â'u pwrpas gwreiddiol. Mae'n hollol anghywir cynnig y dylid rhoi llety mewn carchar i geiswyr lloches sydd wedi dod o gefndiroedd o ofn a gorthrwm. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn lleisio'r teimladau hynny'n gryf i bwy bynnag sydd yn gyfrifol. Nid ydym am weld hyn yn digwydd yng Nghymru; dylai Prydain wneud darpariaeth briodol mewn modd cywir a phriodol.

Edwina Hart: Cytunaf â sylwadau Peter. Fodd bynnag, gwnaf y pwynt ein bod yn cyfeirio at nifer o fewnfudwyr anghyfreithlon a cheiswyr lloches y gwrthodwyd eu cais. Yn y cyd-destun hwn y mae'r Swyddfa Gartref yn edrych tuag at y gwasanaeth carcharau, nid yng nghyd-destun ad-leoli ceiswyr lloches a'u teuluoedd. Mae'n ymwneud â'r ardal gul honno. Yr wyf wedi ystyried y pwyntiau a wnaethpwyd gan Aelodau heddiw ar briodolrwydd lletya unrhyw geiswyr lloches yng ngharchardai Ei Mawrhydi, a byddaf yn gwneud datganiad llawn yr wythnos nesaf, ar ôl imi egluro'r sefyllfa.

Jocelyn Davies: I egluro, nid yw'r rhain yn bobl sydd wedi ymddangos gerbron llys cyfreithiol yn y wlad hon ac wedi eu canfod yn euog. Nid ydynt yn droseddwyr ac nid ydynt yn aros i ymddangos gerbron llys. Felly, hyd yn oed os ydynt yn geiswyr lloches a fethodd yn eu cais, nid yw hyn yn ddarpariaeth briodol iddynt. Efallai eu bod yn geiswyr lloches a fethodd yn eu cais ond maent yn dal yn bobl a ddiodefodd artaith

support Peter Law's comment on that. This is true, Peter, as it was on the news last night and prison officers were interviewed about it. I would like it to be made clear that even though these people may be failed applicants, they are not criminals and are not facing charges in this country.

Edwina Hart: What you have said, Jocelyn, is self-evident. The system exists. These people's asylum applications have been rejected and some of them have come into the country illegally and hence are being deported. It is clear that the Assembly has concern for these individuals and I will make Members' views known to Home Office Ministers.

Peter Black: When you make your statement next week, will you confirm that you will have expressed to the Home Office the common view of Assembly Members that this kind of accommodation is inappropriate for asylum seekers, whether failed applicants or otherwise? Will you also report back on the communication between the Assembly and the Home Office on asylum seekers who come to Wales, and what notification local authorities and the Assembly receive about asylum seekers before they are put on the train to Wales? I have a case in relation to that about which I will talk to you privately.

Edwina Hart: I can see that there is general agreement on that point, and I am aware that Members are concerned about the operation of the system. Therefore, perhaps I should make a full statement about asylum seekers next week to update Members, taking into account the points raised by Nick Bourne's original question, but also looking at the wider picture.

David Melding: Before the Minister makes a full statement next week, will she ascertain what support services will be available, particularly for health needs? We all know

yn eu gwledydd eu hunain. Byddai lletya pobl o'r fath mewn carchar yn gwbl anghywir. Cefnogaf sylw Peter Law ar hynny. Mae hyn yn wir, Peter, oherwydd ei fod ar y newyddion neithiwr a chyfwelwyd swyddogion carchar amdano. Hoffwn egluro, er efallai fod y bobl hyn yn geiswyr lloches a fethodd yn eu cais, nad ydynt yn droseddwyr ac nad ydynt yn wynebu cyhuddiadau yn y wlad hon.

Edwina Hart: Mae'r hyn a ddywedasoeh yn amlwg ynddo'i hun, Jocelyn. Mae'r system yn bodoli. Gwrthodwyd ceisiadau lloches y bobl hyn a daeth rhai ohonynt i'r wlad yn anghyfreithlon ac felly cânt eu halltudio. Mae'n amlwg bod y Cynulliad yn bryderus am yr unigolion hyn a lleisiaf farn yr Aelodau i Weinidogion y Swyddfa Gartref.

Peter Black: Pan fyddwch yn gwneud eich datganiad yr wythnos nesaf, a wnewch chi gadarnhau y byddwch wedi lleisio barn gyffredinol Aelodau'r Cynulliad i'r Swyddfa Gartref, sef bod y math hwn o lety yn amhriodol ar gyfer ceiswyr lloches, boed yn geiswyr lloches a fethodd yn eu cais ai peidio? Hefyd a adroddwch yn ôl ar y cyfathrebu rhwng y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref ar geiswyr lloches a ddaeth i Gymru, a pha hysbysiad a dderbyniodd awdurdodau lleol a'r Cynulliad ar geiswyr lloches cyn y rhoddir hwy ar y trê'n i Gymru? Bwriadaf siarad â chi'n breifat ynglŷn ag achos mewn perthynas â hynny

Edwina Hart: Gallaf weld bod cytundeb cyffredinol ar hynny, ac yr wyf yn ymwybodol bod Aelodau yn poeni am weithrediad y system. Felly, efallai y dylwn wneud datganiad llawn am geiswyr lloches yr wythnos nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau, gan ystyried y pwyntiau a godwyd gan gwestiwn gwreiddiol Nick Bourne, ac edrych ar y darlun ehangach hefyd.

David Melding: Cyn i'r Gweinidog wneud datganiad llawn yr wythnos nesaf, a wnaiff hi ganfod pa wasanaethau cymorth fydd ar gael, yn enwedig ar gyfer anghenion iechyd? Gŵyr

that people who are incarcerated are at greater risk of mental ill-health and suicide. These people will already be under stress if they are about to be repatriated. I am concerned, therefore, that incarceration, on top of their other worries, would increase that risk. Will you also address next week the point that was raised by a Member of Plaid Cymru, namely that no-one in this group, were he or she a British citizen who had committed an offence, would have been kept in a young offenders institution. No-one in that category will be in Cardiff prison as a juvenile offender.

2:50 p.m.

Edwina Hart: Thank you for those points, David. I will ensure that I cover them in my statement next week. It is important that there is recognition that the National Assembly has taken a different attitude towards this issue, reflecting our cross-party concern to ensure that the necessary provisions are made in education and health. I hope that the wide consensus that we have on the majority of these issues will continue. I will encompass all the points raised by Members in my statement.

pawb ohonom fod pobl sydd wedi'u carcharu yn fwy tebygol o ddiodeff salwch meddwl neu gyflawni hunanladdiad. Bydd y bobl hyn o dan bwysau eisoes os ydynt ar fin cael eu hanfon yn ôl i'w gwlad eu hunain. Felly, yr wyf yn poeni y byddai eu carcharu, yngyhd â'u pryderon eraill, yn cynyddu'r risg honno. A wnewch chi hefyd yr wythnos nesaf ymdrin â'r pwynt a godwyd gan Aelod o Blaid Cymru, sef na fyddai unrhyw berson yn y grŵp hwn, pe bai'n ddinesydd Prydeinig a oedd wedi troseddu, yn cael ei roi mewn sefydliad i droseddwyr ifanc. Ni roddir unrhyw un yn y categori hwnnw yng ngharchar Caerdydd fel troseddwr ifanc.

Edwina Hart: Diolch am y pwyntiau hynny, David. Byddaf yn sicrhau fy mod yn eu cwmpasu yn fy natganiad yr wythnos nesaf. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod agwedd y Cynulliad Cenedlaethol tuag at y mater hwn yn wahanol ac yn adlewyrchu ein pryder trawsbleidiol i sicrhau bod y darpariaethau angenrheidiol mewn addysg ac iechyd ar gael. Gobeithiaf y bydd ein consensws eang ar y mwyafrif o'r materion hyn yn parhau. Byddaf yn cwmpasu'r holl bwyntiau a godwyd gan Aelodau yn fy natganiad.

Datganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru Statement on the Wales Millennium Centre

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I would like to make a short statement to inform Assembly Members of my decision to participate, in my capacity as Minister for Finance, Local Government and Communities, in future discussions and decisions within the National Assembly relating to the Wales Millennium Centre.

Members may be aware that, prior to my election to the Assembly in 1999, I was a member of the board of directors of the Wales Millennium Centre Limited. I resigned from the board upon my election, and since

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Hoffwn wneud datganiad byr i hysbysu Aelodau'r Cynulliad o'm penderfyniad i gymryd rhan, yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn y dyfodol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â Chanolfan Mileniwm Cymru.

Efallai y gŵyr Aelodau, cyn fy ethol i'r Cynulliad ym 1999, y bŵm yn aelod o fwrdd cyfarwyddwyr Canolfan Mileniwm Cymru Cyfyngedig. Ymddiswyddais o'r bwrdd wedi imi gael fy ethol, ac ers hynny nid wyf wedi

then I have not had any personal involvement in the affairs of the company.

Upon taking up my responsibilities as Minister for Finance, I took the decision that I should not have any involvement in issues relating to the centre that came before the Assembly. To date I have not taken any papers, attended any meetings or participated in any Assembly debates, either in Plenary or in Committee, on the issue. In my view, that was the most appropriate way to ensure that there was no perception, either among Assembly Members or the people of Wales, of a conflict of interest on my part.

Two years have now elapsed and it is clear that decisions must be taken with potential financial implications. It is appropriate for me to engage as Minister for Finance in discussions and decisions that need to be made in respect of the Millennium Centre. It raises important issues of financial accountability and I do not consider that, as the Minister for Finance, Local Government and Communities, I should continue to stand aside. I have been advised by the Permanent Secretary that this course of action is appropriate.

As from tomorrow, I propose to take papers relating to the centre and brief myself fully on the issues surrounding it. I can assure Members that I will bring the same objectivity, openness and propriety to bear on my involvement in matters relating to the centre that I hope that I bring to my other duties. I have consulted the Chair of the Committee on Standards of Conduct on my decision, and informed the Presiding Officer, the Leader of the Welsh Conservatives, the Deputy First Minister and the Leader of the Opposition. None have raised any concerns at this stage.

My purpose is to inform members of my decision and the reasons for making it. It is not to initiate debate on the Wales

cymryd rhan bersonol ym materion y cwmni.

Wedi derbyn fy nghyfrifoldebau fel Gweinidog dros Gyllid, gwneuthum y penderfyniad na ddylwn gymryd unrhyw ran mewn materion yn ymwneud â'r ganolfan a ddaeth gerbron y Cynulliad. Hyd yn hyn nid wyf wedi cymryd unrhyw bapurau, wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd nac wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau yn y Cynulliad, naill ai mewn Cyfarfod Llawn neu mewn Pwyllgor, yn ymwneud â'r mater hwn. Yn fy marn i, dyna oedd y ffordd fwyaf priodol i sicrhau na fyddai Aelodau'r Cynulliad neu bobl Cymru yn credu bod gennyf fuddiannau a oedd yn gwrthdaro.

Aeth dwy flynedd heibio erbyn hyn ac mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud penderfyniadau â goblygiadau ariannol posibl. Mae'n briodol imi weithredu fel Gweinidog dros Gyllid mewn trafodaethau a phenderfyniadau angenrheidiol yn ymwneud â Chanolfan y Mileniwm. Mae hyn yn codi materion pwysig o atebolrwydd ariannol ac nid wyf yn credu, fel y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y dylwn sefyll i'r naill ochr. Cefais gyngor gan yr Ysgrifennydd Parhaol bod hyn yn briodol.

O yfory ymlaen, bwriadaf fynd â'r papurau hyn sydd yn gysylltiedig â'r ganolfan er mwyn sicrhau bod gennyf yr holl wybodaeth ar y materion sydd yn ymwneud ag ef. Gallaf sicrhau'r Aelodau y byddaf yr un mor wrthrychol, agored a phriodol wrth ymwneud â materion sydd yn gysylltiedig â'r ganolfan ag yr ydwyf wrth gyflawni fy nyletswyddau eraill. Ymgynghorais â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch fy mhenderfyniad, a hysbysais y Llywydd, Arweinydd Ceidwadwyr Cymru, Dirprwy Brif Weinidog Cymru ac Arweinydd yr Wrthblaid. Ni chododd unrhyw un ohonynt bryderon hyd yma.

Pwrpas y datganiad hwn yw hysbysu'r Aelodau o'm penderfyniad a'r rhesymau drosto. Ni fwriadaf gychwyn trafodaeth ar

Millennium Centre as we have a busy Plenary session before us. This will enable me to play a full part in the decisions that confront us over the centre and will help to enable us to make such decisions having full regard to the principles of financial accountability, regularity and propriety, which the National Assembly upholds. I trust that Members will agree.

Owen John Thomas: Edwina, yr wyf yn croesawu'r datganiad ac yn gobeithio y bydd eich cysylltiad blaenorol â Chanolfan y Mileniwm ynghyd â'ch agwedd agored ac iach tuag at wleidyddiaeth yn gymorth mawr i symud y prosiect cyffrous a phwysig hwn ymlaen. Yr wyf yn ffyddiog y byddwch yn rhoi gwybod i'r pleidiau i gyd am ddatblygiadau o hyn ymlaen. A oes gennych unrhyw beth i ddweud ynghylch dyddiad ar gyfer dechrau'r gwaith ar y safle?

Edwina Hart: I will be able to answer that question more appropriately next week, when I have read some of the papers.

Nick Bourne: First of all—since nobody else has done so on behalf of the Assembly—I draw Members' attention to the fact that Lord Roberts of Conwy, Lord Islwyn and Lord Geraint are visiting us. We should extend a welcome to them.

In relation to Edwina's statement, she has behaved entirely appropriately. I have dropped her a note to indicate that the Welsh Conservatives have no problem at all with it. I have also spoken to her separately. It is entirely appropriate that she handles the matter in this way. We are wholly content.

Ganolfan Mileniwm Cymru gan fod gennym Gyfarfod Llawn prysur o'n blaen. Bydd hyn yn fy ngalluogi i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sydd yn ein hwynebu ar y ganolfan a bydd yn gymorth i'n galluogi i wneud penderfyniadau o'r fath gan roi ystyriaeth lawn i egwyddorion atebolrwydd ariannol, rheoleidd-dra a phriodoldeb, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ategu. Hyderaf y bydd yr Aelodau yn cytuno.

Owen John Thomas: Edwina, I welcome the statement and I hope that your previous links with the Millennium Centre as well as your open and healthy attitude towards politics will be of great assistance in moving this exciting and important project forward. I am sure that you will inform all the parties of any developments from now on. Have you anything to say regarding a date for work to begin on site?

Edwina Hart: Byddaf yn gallu ateb y cwestiwn hwnnw'n fwy priodol yr wythnos nesaf, pan fyddaf wedi darllen rhai o'r papurau.

Nick Bourne: I ddechrau—gan nad oes neb arall wedi gwneud hyn ar ran y Cynulliad—hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y ffaith bod yr Arglwydd Roberts o Gonwy, Arglwydd Islwyn a'r Arglwydd Geraint yn ymweld â ni. Dylem estyn croeso iddynt.

O ran datganiad Edwina, mae hi wedi ymddwyn yn hollol briodol. Ysgrifennais nodyn ati yn nodi nad oes gan Geidwadwyr Cymru unrhyw wrthwynebiad i hyn. Yr wyf hefyd wedi siarad â hi ar ei phen ei hun. Mae'n hollol briodol ei bod yn ymdrin â'r mater yn y modd hwn. Yr ydym yn gwbl fodlon.

Pwyntiau o Drefn Points of Order

Nick Bourne: Point of order. I raise this under Standing Orders Nos. 2 and 5 about division of power within the National Assembly. This is to do with the question of

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Codaf hyn o dan Reolau Sefydlog Rhifau 2 a 5 ynghylch rhannu pŵer o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hyn yn ymwneud â phryd

when something is done by the Government of Wales and when it is done by the National Assembly. This has been a concern previously and has been raised by Members of all parties. I draw the Assembly's attention to some recent press releases. One was about a visit by the Deputy First Minister, Michael German, in which he purported to be the National Assembly. That is dangerous. The press release stated that the National Assembly welcomes excellent high-tech investment for Newport. I am concerned, first, because it is misleading and, secondly, because we are trying to put out favourable messages about the National Assembly and we would not want it to be personified in the form of the Deputy First Minister.

Secondly—perhaps more seriously—a press release was put out on 18 January, which purported to state on behalf of the administration that, last November, the Assembly became one of the first governments in Europe to adopt its own sustainable development scheme. It is a great surprise to find that the whole Assembly has become a government. This is a concern that we have raised before. I hope that we will not have to keep raising it and that you can give a definitive ruling, Llywydd, and ask the administration to prevent this from happening.

Ieuan Wyn Jones: Mae hwn yn fater o gryn bwys. Yn gynyddol bellach, caiff pob cyhoeddiad ei wneud yn enw'r Cynulliad, ac nid yn enw'r Weithrediaeth neu'r Llywodraeth yn y Cynulliad. O'r herwydd, mae'r cyfryngau—y papurau, radio a theledu—yn dilyn y patrwm hwnnw. Byddai'n fuddiol inni gael datganiad buan ynglŷn â'r gwahaniaeth hwn fel ein bod fel corff yn gallu ei gwneud yn berffaith glir pryd y caiff rhywbeth ei wneud yn enw'r Llywodraeth, a phryd y caiff ei wneud yn enw'r Cynulliad fel corff.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): Further to that point of

y caiff rhywbeth ei wneud gan Lywodraeth Cymru a phryd y caiff ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol. Bu hyn yn bryder o'r blaen ac fe'i codwyd gan Aelodau o bob plaid. Tynnaf sylw'r Cynulliad at rai datganiadau diweddar i'r wasg. Yr oedd un yn sôn am ymweliad gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, Michael German, pryd yr honnodd mai ef oedd y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hynny'n beryglus. Nododd y datganiad i'r wasg bod y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu buddsoddiadau ardderchog yn y dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer Casnewydd. Yr wyf yn bryderus, i ddechrau, am ei fod yn gamarweiniol ac, yn ail, oherwydd ein bod yn ceisio cyfleu negeseuon ffafriol am y Cynulliad Cenedlaethol ac ni fyddem am bersonoli hynny ar ffurf y Dirprwy Brif Weinidog.

Yn ail—ac efallai yn fwy difrifol—cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar 18 Ionawr, a oedd yn honni nodi ar ran y weinyddiaeth i'r Cynulliad, fis Tachwedd diwethaf, ddod yn un o'r llywodraethau cyntaf yn Ewrop i fabwysiadu ei gynllun datblygiad cynaliadwy ei hun. Syndod oedd clywed bod y Cynulliad cyfan wedi troi'n llywodraeth. Mae hyn yn bryder a godwyd gennym o'r blaen. Gobeithio na fydd yn rhaid inni barhau i'w godi ac y gallwch roi dyfarniad pendant, Lywydd, a gofyn i'r weinyddiaeth atal hyn rhag digwydd.

Ieuan Wyn Jones: This is matter of great importance. Increasingly, announcements are made in the Assembly's name, and not in the name of the Executive or the Government in the Assembly. As a result, the media—the papers, radio and television—follow that pattern. It would be useful for us to have an early statement regarding this difference so that we as a body can make it perfectly clear when something is done in the Government's name, and when it is done in the name of the Assembly as a body.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, nid oeddwn yn

order, I was not aware of these issues until Nick raised them, but we will consider them. The First Minister, on previous occasions, has said that we will consider this. It may be an opportunity for you, Presiding Officer, and him to consider this issue and offer guidelines.

The Presiding Officer: We seem to visit this matter more and more often. Cynog Dafis raised it last week. I have taken advice on this. Under the Government of Wales Act 1998, we have a clear designation of the Cabinet as the Executive Committee, as it is referred to in the Act. We should be able to come to an understanding whereby we clarify our terminology. As someone who is responsible for ensuring that the rights of the opposition and the Government are protected in this Chamber, I understand the opposition's anxiety not to be associated with the Government when it feels that it does not want that to happen.

This is a serious terminology issue under the constitutional development of this body. That is why this issue was raised at the first public meeting of our review. It has been noted, and I am sure that it will progress during the course of the review. If it is possible for the First Minister and I to discuss this earlier than that and come to a clear understanding of terminology—dare I say the kind of understanding to which we have come regarding the use of the titles 'First Minister' and 'Minister' in this Assembly—that might be helpful, for ourselves, the public and the media. We have the titles 'the administration', 'the Executive', 'the Cabinet' and 'the Government of Wales', all of which have been used at different times by the Assembly Cabinet. There is no shortage of a choice of titles. It is a matter for the Government of Wales to agree what it wishes to call itself, and it should be a matter for the Government to agree with us on clarity.

Janice Gregory: Point of order. I raise this under Standing Order No. 6.30, which relates to supplementary questions. Some of us are

ymwybodol o'r materion hyn nes i Nick eu codi, ond byddwn yn eu hystyried. Dywedodd Prif Weinidog Cymru, ar sawl achlysur, y byddwn yn ystyried hyn. Gallai fod yn gyfle i chi, Lywydd, ac iddo ef ystyried y mater hwn a chynnig canllawiau.

Y Llywydd: Ymddengys ein bod yn trafod y mater hwn yn amlach o hyd. Codwyd y mater gan Cynog Dafis yr wythnos diwethaf. Cefais gyngor ar hyn. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gennym ddyndodiad clir o'r Cabinet fel y Pwyllgor Gweithredol, fel y cyfeirir ato yn y Ddeddf. Dylem allu dod i ddealltwriaeth o ran egluro ein terminoleg. Fel rhywun sydd yn gyfrifol am sicrhau y diogelir hawliau'r wrthblaid a'r Llywodraeth yn y Siambr hon, deallaf bryder yr wrthblaid ynglŷn â pheidio â chael ei chysylltu â'r Llywodraeth pan na theimla ei bod am i hynny ddigwydd.

Mae hwn yn fater terminoleg difrifol o dan ddatblygiad cyfansoddiadol y corff hwn. Dyna pam y codwyd y mater hwn yng nghyfarfod cyhoeddus cyntaf ein hadolygiad. Nodwyd, ac yr wyf yn siŵr y bydd hyn yn datblygu yn ystod yr adolygiad. Os yw'n bosibl i Brif Weinidog Cymru a minnau drafod hyn cyn hynny a dod i ddealltwriaeth glir o'r derminoleg—mi fentraf ddweud y math o ddealltwriaeth y daethom iddi ynghylch defnyddio'r teitlau 'Prif Weinidog Cymru' a 'Gweinidog' yn y Cynulliad—gallai hynny fod yn ddefnyddiol inni, y cyhoedd a'r cyfryngau. Mae gennym y teitlau 'y weinyddiaeth', 'y Weithrediaeth', 'y Cabinet' a 'Llywodraeth Cymru', y'u defnyddiwyd oll ar adegau gwahanol gan Gabinet y Cynulliad. Nid oes prinder o ran y dewis o deitlau. Mae'n fater i Lywodraeth Cymru gytuno ar yr hyn y dymuna ei galw ei hun a dylai fod yn fater i'r Llywodraeth gytuno gyda ni o ran eglurder.

Janice Gregory: Pwynt o drefn. Codaf hwn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.30, sydd yn ymwneud â chwestiynau atodol. Nid yw rhai

at a loss to understand why the Leader of the Opposition, Ieuan Wyn Jones, was allowed to rise, not once, but twice, to ask a supplementary question to Nick Bourne's question 3, in which he twice had the opportunity to make cheap political points. Is this what we can expect between now and the date of the next general election—whenever that may be?

3:00 p.m.

The Presiding Officer: Rising to ask supplementary questions is a matter for me. The questions must relate to the original question's subject matter. The original question, if Janice Gregory will check the Record, was

'What steps is the First Minister taking to ensure that the National Assembly is working for the benefit of all parts of Wales?'

I had assumed that miners seeking compensation are a part of Wales.

The other issue to which I have regard is whether or not Ministers have answered questions on the same subject previously. My recollection is—and I will check the Record—that supplementaries and points relating to this matter have been raised and responded to previously by Ministers.

I will respond to the point about Members rising to speak twice. When changes took place in the Assembly, whereby a majority coalition partnership Government was formed, an agreement was reached, following discussion between party leaders and in party groups. It was agreed that, rather than opt for a system of special open questions for party leaders, which was requested at the time, we would seek to develop a way of operating whereby the recognised leaders of the opposition parties should be called, at their request, to ask two supplementaries. It was also agreed that that should apply only to them. The term 'leaders of the opposition

ohonom yn deall pam y caniatwyd i Arweinydd yr Wrthblaid, Ieuan Wyn Jones, godi, nid unwaith, ond ddwywaith, i ofyn cwestiwn atodol i gwestiwn 3 Nick Bourne, lle cafodd ddau gyfle i wneud pwyntiau gwleidyddol rhad. Ai dyma'r hyn y dylid ei ddisgwyl rhwng nawr a dyddiad yr etholiad cyffredinol nesaf—pryd bynnag y bydd hynny?

Y Llywydd: Mater i mi yw codi i ofyn cwestiynau atodol. Rhaid i'r cwestiynau ymwneud â phwnc y cwestiwn gwreiddiol. Y cwestiwn gwreiddiol, os hoffai Janice Gregory wirio'r Cofnod, oedd

'Pa gamau mae Prif Weinidog Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio er lles pob rhan o Gymru?'

Derbyniais fod glowyr sydd yn ceisio iawndal yn rhan o Gymru.

Mater arall i mi ei ystyried yw a yw Gweinidogion wedi ateb cwestiynau ar yr un pwnc yn flaenorol ai peidio. Cofiaf—a byddaf yn gwirio'r Cofnod— i gwestiynau atodol gael eu gofyn ac y codwyd pwyntiau yn ymwneud â'r mater hwn a bod Gweinidogion wedi ymateb iddynt yn flaenorol.

Byddaf yn ymateb i'r pwynt am Aelodau'n codi i siarad ddwywaith. Pan ddigwyddodd newidiadau yn y Cynulliad, lle ffurfiwyd Llywodraeth bartneriaeth glymblaid sydd â mwyafrif, daethpwyd i gytundeb, yn dilyn trafodaeth rhwng arweinwyr pleidiau ac mewn grwpiau pleidiau. Cytunwyd, yn hytrach na dewis system o gwestiynau agored arbennig i arweinwyr pleidiau, sef yr hyn y gofynnwyd amdano ar y pryd, y byddem yn ceisio datblygu ffordd o weithredu lle dylid galw ar arweinwyr cydnabyddedig pleidiau'r wrthblaid, ar eu cais, i ofyn dau gwestiwn atodol. Cytunwyd hefyd mai dim ond ar eu cyfer hwy y dylai hyn fod yn berthnasol.

parties' refers to the person described in our Standing Orders as the leader of the largest party not represented in the Cabinet—that is a long title for me to use everyday, and he is therefore commonly known as the leader of the opposition—and the leader of the Welsh Conservatives. If the Assembly feels that that procedure needs to be reviewed, I encourage Members to raise that under the procedural aspect of the Business Committee's work.

Lorraine Barrett: Further to that point of order, I am concerned about Ieuan Wyn Jones's supplementary questions. He kept asking the Minister for Assembly Business what the Government is doing. He did not specify that he was referring to the UK Government, although we know that he was doing so.

Over the past few weeks, Llywydd, with respect, you have said that you would not allow questions about Westminster issues leading up to the election. I have no problem with the good work that the Westminster Government has done with regard to miners' compensation payments, but Ieuan Wyn Jones referred to 'the Government' in both his questions. That was not appropriate following a question to our Minister for Assembly Business on what the National Assembly is doing for people in all parts of Wales.

Brian Gibbons: Further to that point of order, I have a point in line with Lorraine Barrett's comments. The miners' compensation scheme is not a devolved matter and it should not be up to our Minister for Assembly Business to answer questions on non-devolved matters.

The Presiding Officer: The relationship between devolved and non-devolved matters and whether Ministers are prepared to answer questions on non-devolved matters is a matter of principle in the Assembly, but it is also a matter of precedence. Where Ministers have undertaken to answer

Mae'r term 'arweinwyr pleidiau'r wrthblaid' yn cyfeirio at y person a ddisgrifir yn ein Rheolau Safonol fel arweinydd y blaid fwyaf na chaiff ei chynrychioli yn y Cabinet—mae hynny'n deitl hir i mi ei ddefnyddio bob dydd, ac felly cyfeirir ato'n gyffredin fel arweinydd yr wrthblaid—ac arweinydd Ceidwadwyr Cymru. Os teimla'r Cynulliad bod angen adolygu'r weithdrefn honno, anogaf yr Aelodau i godi hynny o dan agwedd weithdrefnol gwaith y Pwyllgor Busnes.

Lorraine Barrett: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, yr wyf yn bryderus am gwestiynau atodol Ieuan Wyn Jones. Yr oedd yn cadw gofyn i'r Trefnydd am yr hyn yr oedd y Llywodraeth yn ei wneud. Ni fanylodd ei fod yn cyfeirio at Lywodraeth y DU, er y gwyddom mai dyna yr oedd yn ei wneud.

Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, Lywydd, â pharch, dywedasoeh na fydddech yn caniatáu cwestiynau am faterion yn ymwneud â San Steffan cyn yr etholiad. Nid oes gennyf broblem gyda'r gwaith da a wnaeth Llywodraeth San Steffan o ran taliadau iawndal i lowyr, ond cyfeiriodd Ieuan Wyn Jones at 'y Llywodraeth' yn ei ddau gwestiwn. Nid oedd hynny'n briodol yn dilyn cwestiwn i'r Trefnydd ar yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei wneud i helpu pobl ym mhob rhan o Gymru.

Brian Gibbons: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, mae gennyf bwynt sydd yn cyd-fynd â sylwadau Lorraine Barrett. Nid yw'r cynllun iawndal i lowyr yn fater a ddatganolwyd ac nid ein Trefnydd ddylai ateb cwestiynau ar faterion nas datganolwyd.

Y Llywydd: Mae'r berthynas rhwng materion a ddatganolwyd a materion nas datganolwyd a pha un ai a yw Gweinidogion yn barod i ateb cwestiynau ar faterion nas datganolwyd ai peidio yn fater o egwyddor yn y Cynulliad, ond hefyd mae'n fater o flaenoriaeth. Pan fydd Gweinidogion wedi

questions on ‘any matter affecting Wales’—to quote from section 33 of the Government of Wales Act 1998—I have regard to that matter.

On my earlier rulings on matters relating to Westminster elections, by that I mean electioneering points made in an electioneering manner, I have, at all times, sought to bring such points to order. I did not believe that the tone adopted in the question or in the answer, where reference was made to this being an all-party issue, was of that party political nature.

Nick Bourne: Further to that point of order, the Government of Wales Act states that the Assembly can give a view on any issue that affects Wales. Lorraine Barrett sought a debate in the Chamber on El Salvador. I have no problem with that but if we are to have that sort of scope, miners’ compensation is well within our ambit.

Ieuan Wyn Jones: Further to that point of order, one might have anticipated this kind of point of order from Members of the Labour Party, but I remind them, through you, Presiding Officer, that the wording that I used in both supplementary questions followed the precise wording of section 33 of the Government of Wales Act. I referred twice to the UK Government and I also made it clear that I was asking the Minister for Assembly Business to make representations on behalf of the Assembly to the UK Government. Section 33 states that the Assembly can make representations on any issue affecting Wales, and that includes non-devolved issues.

The Presiding Officer: I must concur, although it is difficult territory when the Presiding Officer agrees with the leader of the opposition. I concur with that interpretation of the Government of Wales Act 1998, having been part of the deliberations on that Act. We do not need to take this further today. However, I always try to have regard to sensitive issues, particularly

ymgymryd i ateb cwestiynau ar ‘unrhyw fater sydd yn effeithio ar Gymru’—gan ddyfynnu o adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998—ystyriaf y mater hwnnw.

Ar fy nyfarniadau blaenorol ar faterion yn ymwneud ag etholiadau San Steffan, sef pwyntiau ymgyrchol a wnaethpwyd mewn modd ymgyrchol, yr wyf, bob tro, wedi ceisio cadw trefn ar bwyntiau o’r fath. Ni chredais fod yr oslef a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn na’r ateb, lle cyfeiriwyd at y ffaith bod hyn yn fater i’r holl bleidiau, yn cyfleu gwleidyddiaeth plaid.

Nick Bourne: Ymhellach i’r pwynt hwnnw o drefn, noda Deddf Llywodraeth Cymru y gall y Cynulliad leisio barn ar unrhyw fater sydd yn effeithio ar Gymru. Ceisiodd Lorraine Barrett gael trafodaeth ar El Salvador yn y Siambr. Nid oes gennyf unrhyw broblem â hynny ond os ydym am roi cyfle o’r math hwnnw, mae iawndal i lowyr yn llwyr o fewn ein cwmpas.

Ieuan Wyn Jones: Ymhellach i’r pwynt hwnnw o drefn, gellid bod wedi disgwyl ymateb o’r fath gan Aelodau o’r Blaid Lafur, ond fe’u hatgoffaf, drwyddoch chi, Lywydd, bod y geiriau a ddefnyddiais yn y ddau gwestiwn atodol yn dilyn union eiriau adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru. Cyfeiriais ddwywaith at Lywodraeth y DU a hefyd eglurais fy mod yn gofyn i’r Trefnydd wneud sylwadau ar ran y Cynulliad i Lywodraeth y DU. Noda adran 33 y gall y Cynulliad wneud sylwadau ar unrhyw fater sydd yn effeithio ar Gymru, ac mae hynny’n cynnwys materion nas datganolwyd.

Y Llywydd: Rhaid imi gytuno, er bod clywed y Llywydd yn cytuno gydag arweinydd yr wrthblaid yn arwain at sefyllfa anodd. Cytunaf â’r dehongliad hwnnw o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gan imi fod yn rhan o’r trafodaethau ar y Ddeddf honno. Nid oes angen inni fynd â hyn ymhellach heddiw. Fodd bynnag, byddaf bob amser yn ceisio ystyried materion sensitif, yn

as we approach an election. I wish to refer to a further issue that arises from Standing Order No. 6.30. That Standing Order indicates that I may call other Members to ask related questions in calling Members to ask supplementary questions.

‘In calling Members to ask supplementary questions, the Presiding Officer shall seek to balance the need to explore an issue thoroughly with the need for Assembly Secretaries and the member of the House Committee to answer as many tabled questions as possible’.

I was concerned today that Welsh Labour Members in this Assembly seemed reticent to ask supplementaries. That creates difficulties for me in ensuring a balanced debate. I would warmly welcome attempts to ask supplementaries at all times. It enables me to balance the debate. That invitation is issued in a spirit of friendliness and co-operation to ensure that the record of the calling of Members to ask questions is not placed in dispute.

enwedig wrth inni agosáu at etholiad. Hoffwn gyfeirio at fater pellach sydd yn codi o Reol Sefydlog Rhif 6.30. Noda'r Rheol Sefydlog honno y gallaf alw ar Aelodau eraill i ofyn cwestiynau perthnasol wrth alw Aelodau i ofyn cwestiynau atodol.

‘Wrth alw ar Aelodau i ofyn cwestiynau atodol, bydd y Llywydd yn ceisio pwyso'r angen i archwilio mater yn drylwyr â'r angen i Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r aelod o Bwyllgor y Tŷ ateb cynifer o gwestiynau a gyflwynir â phosibl.’

Yr oeddwn yn bryderus heddiw bod Aelodau Plaid Lafur Cymru yn y Cynulliad hwn yn ymddangos yn dawedog o ran gofyn cwestiynau atodol. Mae hynny'n creu anawsterau imi wrth sicrhau trafodaeth gytbwys. Croesawaf yn gynnes ymdrechion i ofyn cwestiynau atodol bob amser. Mae'n fy ngalluogi i gael cydbwysedd o fewn y drafodaeth. Rhoddir y gwahoddiad hwnnw mewn ysbryd cyfeillgar a chydweithredol i sicrhau na cheir dadlau ynglŷn â'r cofnod o alw Aelodau i ofyn cwestiynau.

Datganiad Busnes Business Statement

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): Business for the next three weeks is as follows. On Tuesday 30 January, business will include a debate on the professional development of teachers, which is estimated to last between an hour and 90 minutes, and a motion to approve the next three months' business statement in accordance with Standing Order No. 5.1. As I explained to the Business Committee this morning, it is likely, in view of current events, that there may be one or two Cabinet statements. I gave an undertaking to the Business Committee this morning—as I did last week—that I would give Members and business managers as much notice as possible of these Cabinet statements.

Business on Thursday 1 February and Tuesday 6 February is as I reported last

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ganlyn. Ddydd Mawrth 30 Ionawr, bydd y busnes yn cynnwys dadl ar ddatblygiad proffesiynol athrawon, yr amcangyfrifir iddo bara tua awr i awr a hanner, a chynnig i gymeradwyo datganiad busnes y tri mis nesaf yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 5.1. Fel yr esboniais i'r Pwyllgor Busnes y bore yma, mae'n debygol, gan gofio digwyddiadau presennol, y gellir cael un neu ddau ddatganiad gan y Cabinet. Rhoddais addewid i'r Pwyllgor Busnes y bore yma—fel y gwneuthum yr wythnos diwethaf—y byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i'r Aelodau a rheolwyr busnes o'r datganiadau hyn gan y Cabinet.

Mae'r busnes ddydd Iau 1 Chwefror a dydd Mawrth 6 Chwefror fel yr adroddais yr

week. On 8 February, business will include a motion to approve subordinate legislation and a debate on broadcasting and communications. It is also expected that there will be a statement on the national economic development strategy consultation and a statement on the business support review undertaken by the Economic Development Committee. On Tuesday 13 February, there will be a motion to adopt revised guidance on the registration and declaration of Members' interests, a debate on the NHS Wales strategy and a minority party debate proposed by the Conservative Party. On Thursday 15 February, there will be a debate on the sustainable development action plan and a minority party debate proposed by Plaid Cymru.

On the advice of the Business Committee this morning, the Deputy Presiding Officer determined, in accordance with Standing Order No. 22.5, that the following items of subordinate legislation need not be referred to a Subject Committee. These are the NHS Professions Supplementary to Medicine (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Local Education Authority (Behaviour Support Plans) (Wales) Regulations 2001, the Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001, the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Highways Noise Payments (Movable Homes) (Wales) Regulations 2001 and the Education Pupil Registration Amendment (Wales) Regulations 2001. As in previous weeks, arrangements will be made to post this statement to the intranet and the internet today.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments on the Business Statement? I see that there are none. We will move on.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Dapariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a Rheoliadau

wythnos diwethaf. Ar 8 Chwefror, bydd y busnes yn cynnwys cynnig i gymeradwyo is-ddeddfwriaeth a dadl ar ddarlledu a chyfathrebu. Disgwylir hefyd y bydd datganiad ar yr ymgynghoriad ar strategaeth datblygu economaidd genedlaethol a datganiad ar yr adolygiad cymorth busnes sydd yn rhan o waith y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Ddydd Mawrth 13 Chwefror, ceir cynnig i fabwysiadu canllaw diwygiedig ar gofrestru a datgan buddiannau'r Aelodau, dadl ar strategaeth NHS Cymru a dadl plaid leiafrifol a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol. Ddydd Iau 15 Chwefror bydd trafodaeth ar y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy a dadl plaid leiafrifol a gynigiwyd gan Blaid Cymru.

Ar gyngor y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, nad oes rhaid cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth i Bwyllgor Pwnc, sef: Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sydd yn Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001, Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001, Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001. Yn yr un modd ag wythnosau blaenorol, gwneir trefniadau i roi copi o'r datganiad hwn ar y fewnwyd a'r rhyngwyd yn ddiweddarach heddiw.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes unrhyw sylwadau ar y Datganiad Busnes? Gwelaf nad oes. Symudwn ymlaen.

Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001
Composite Motion: Approval of the Care Standards Act 2000 (Commencement No. 2 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2001 and the Children's Homes Amendment (Wales) Regulations 2001

The Minister for Assembly Business Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigaf fod (Andrew Davies): I propose that

the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25: y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.25:

approves the Care Standards Act 2000 (Commencement No.2 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2001 laid in the Table Office on 14 December 2000, and; yn cymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2000, ac;

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Care Standards Act 2000 (Commencement No.2 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office 20 December 2000; yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Rhagfyr 2000;

Approves the Children's Homes Amendment (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 14 December 2000; and yn cymeradwyo Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2000; ac

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, The Children's Homes Amendment (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office 19 December 2000. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2000.

Y Llywydd: Byddwn yn pleidleisio ar y cynnig hwn heb gynnal dadl. **The Presiding Officer:** We will put this motion to a vote without debate.

Cynnig: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 44, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Dafis, Cynog

Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Graham, William
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.*

3:10 p.m.

Dirprwyo Swyddogaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Brif Weinidog Cymru
Delegation of the Functions of the Countryside and Rights of Way Act 2000 to the First Minister

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendment 2 in the names of William Graham and David Davies.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 2 yn enwau William Graham a David Davies.

The Minister for Environment (Sue Essex): I propose that

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Cynigiaf fod

the National Assembly, acting under section 62(1)(b) of the Government of Wales Act

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998,

1998, resolves to delegate all the functions of the National Assembly contained in the Countryside and Rights of Way Act 2000 (available on the HMSO website: <http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts/2000/20000037.htm>) to the Assembly First Minister, save those which by law cannot be so delegated.

The purpose of the motion is to seek your agreement to the delegation of the functions contained in the Countryside and Rights of Way Act 2000 to the First Minister. This delegation will be made in the knowledge that those functions will be further delegated to the appropriate Assembly Ministers and, where necessary, to staff. The Act, which is the first major piece of wildlife and countryside legislation for nearly 20 years, covers four main areas: better protection and conservation of wildlife and sights of special scientific interest; modernising the public rights of way system; stronger management of areas of outstanding natural beauty; and a new right of access to the open countryside.

I know that some of you, or your researchers at least, attended the excellent presentation at lunchtime given by the Countryside Council for Wales. Many of you will therefore be familiar with aspects of the Act, but I will run through the main points in more detail. First, on SSSIs and biodiversity, the Act's provisions on wildlife protection and conservation are a significant leap forward and have widespread support. They offer us a chance to promote the positive management of our finest wildlife and geological sites, and to prevent damage where they are threatened. Stronger penalties will send a clear message that wildlife crime and damage to SSSIs will not be tolerated. The Act reinforces the commitment to biodiversity in the partnership agreement and the sustainable development scheme, by placing a duty on the Assembly to have regard to the conservation of biodiversity in all that we do. Secondly, on areas of outstanding natural beauty, the Countryside Act includes important new provisions to strengthen the

yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a geir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (sydd ar gael ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi:

<http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts/2000/20000037.htm>) i Brif Weinidog y Cynulliad, heblaw'r rheini na ellir eu dirprwyo, yn ôl y gyfraith.

Diben y cynnig yw ceisio eich cytundeb ar ddiprwyo swyddogaethau a geir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Brif Weinidog Cymru. Fe'u dirprwyir gan wybod y caiff y swyddogaethau hynny eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidogion Cynulliad priodol a, lle y bo angen, i'r staff. Mae'r Ddeddf, sef y darn sylweddol cyntaf o ddeddfwriaeth ar fywyd gwylt a chefn gwlad ers bron i 20 mlynedd, yn cwmpasu pedwar prif faes: diogelu a gwarchod bywyd gwylt a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn well; moderneiddio'r system hawliau tramwy cyhoeddus; rheoli ardaloedd o harddwch naturiol neilltuol yn fwy cadarn; a hawl mynediad newydd i gefn gwlad agored.

Yr oedd rhai ohonoch, neu eich ymchwilyr o leiaf, yn bresennol yng nghyflwyniad gwych Cyngor Cefn Gwlad Cymru amser cinio. Bydd llawer ohonoch felly yn gyfarwydd ag agweddau ar y Ddeddf, ond af drwy'r prif bwyntiau yn fanylach. Yn gyntaf, o ran safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a bioamrywiaeth, mae darpariaethau'r Ddeddf ar ddiogelu a gwarchod bywyd gwylt yn gam sylweddol ymlaen a cheir cefnogaeth eang iddynt. Cynigiant y cyfle inni hyrwyddo ffordd gadarnhaol o reoli ein safleoedd bywyd gwylt a daearegol gorau, ac atal niwed lle y maent dan fygythiad. Bydd cosbau llymach yn anfon neges glir na oddefir troseddu yn erbyn bywyd gwylt a difrodi SoDdGA. Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i fioamrywiaeth yn y cytundeb partneriaeth a'r cynllun datblygu cynaliadwy, drwy roi dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried bioamrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Yn ail, o ran ardaloedd o harddwch naturiol neilltuol, mae'r Ddeddf Cefn Gwlad yn

management of the five AONBs in Wales. In particular, statutory management plans now have to be prepared by the relevant local authorities. We are keen to enhance the status of AONBs and are providing new funding under the environmental development fund for that purpose.

On public rights of way, Part 3 of the Act is about improving the opportunities for the enjoyment of the countryside in Wales. We have 25,000 miles of public rights of way in Wales. They form a recreational web that enables people to explore and enjoy the countryside. Recognising the importance of this network to our quality of life, the Act places a new duty on the highways departments of local authorities to publish and report on plans for improving rights of way in their areas, taking into account the needs of the public, including those with mobility problems. That is important in view of our recent discussions on access. Magistrates' Courts will now have the power to require a person who has been convicted of wilfully obstructing highways to remove the obstruction.

Finally, on access to the open countryside, the Countryside Act creates a statutory right for the public to explore and enjoy the open countryside. This is defined in the Act as mountain, moor, heath, down and common land. This new right of access will allow everyone the opportunity to enjoy large areas of open countryside in Wales and an area potentially more than double that of the existing three Welsh national parks. However, this does not mean the right to roam anywhere. There is no question of the right applying to cultivated land, for example. Those who make use of the new right—walkers and other visitors—must behave responsibly and abide by common sense restrictions.

There are some additional protections in the

cynnwys darpariaethau newydd pwysig i gryfhau'r ffordd y rheolir pum ardal o harddwch naturiol Cymru. Yn arbennig, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol perthnasol bellach baratoi cynlluniau rheoli statudol. Yr ydym yn awyddus i godi statws ardaloedd o harddwch naturiol ac yn darparu system ariannu newydd o dan y gronfa datblygu amgylcheddol at y diben hwnnw.

O ran hawliau tramwy, mae Rhan 3 y Ddeddf yn ymwneud â gwella cyfleoedd ar gyfer mwynhau cefn gwlad yng Nghymru. Mae gennym 25,000 o filltiroedd o hawliau tramwy yng Nghymru. Ffuriant we sydd yn galluogi pobl i fwynhau amser hamdden yng nghefn gwlad. Gan gydnabod pwysigrwydd y rhwydwaith hwn i ansawdd ein bywyd, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd newydd ar adrannau priffyrdd awdurdodau lleol i gyhoeddi a chyflwyno adroddiadau ar gynlluniau i wella hawliau tramwy yn eu hardaloedd, gan ystyried anghenion y cyhoedd, gan gynnwys y rheini â phroblemau symud. Mae hynny'n bwysig o ystyried ein trafodaethau diweddar ar fynediad. Bellach bydd gan Lysoedd Ynadon y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berson a gafwyd yn euog o achosi rhwystr i briffyrdd ar bwrpas gael gwared ar y rhwystr.

Yn olaf, o ran mynediad i gefn gwlad agored, mae'r Ddeddf Cefn Gwlad yn creu hawl statudol i'r cyhoedd allu mwynhau cefn gwlad agored. Diffinnir hyn yn y Ddeddf fel mynydd, rhos, gwaun, twyn a thir comin. Bydd yr hawl mynediad newydd hwn yn caniatáu'r cyfle i bawb fwynhau ardaloedd eang o gefn gwlad agored yng Nghymru. Gallai'r arwynebedd fod yn fwy na dwywaith maint arwynebedd tri pharc cenedlaethol presennol Cymru. Fodd bynnag, ni olyga hyn yr hawl i grwydro unrhyw le. Nid oes cwestiwn na chaiff yr hawl ei chymhwyso i dir â'r, er enghraifft. Bydd yn rhaid i'r rheini a fydd yn defnyddio'r hawl newydd—yn gerddwyr ac yn ymwelwyr eraill—ymddwyn yn gyfrifol a chadw at gyfyngiadau synhwyrol.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys rhai dulliau

Act, for example, restrictions to access for farmers to avoid interference with their legitimate interests. Landowners will be able to exclude or restrict access for up to 28 days per year. I also stress that the statutory right of access leaves farmers and landowners entirely free to farm, fence and otherwise develop their land within the existing constraints of the law. There is no intention to disrupt farming practices. The result is an Act which, after considerable consultation and discussion over the years and during the progress of the Bill, provides a balanced and measured package.

We must use this legislation as an opportunity for Wales. There is no shortage of visitors who want to enjoy our landscapes and spend money at the same time. A recent survey by the University of Wales, Aberystwyth estimated that walking in Wales accounts for expenditure of £182 million and creates over 4,000 jobs. We must implement this legislation in a way that enables people to visit Wales, but also—and this is important and I have said this time and again—respects local communities. There is much preparatory work to be done and it is important to emphasise that the new rights of access cannot and will not come into force immediately. To ensure that the public can exercise the new rights of way, we must have informed, safe and practical measures. The Countryside Council for Wales, the national parks and local authorities have taken the lead in initiating work on maps on accessed land, preparing guidance and setting up local access forums. I assure all Members and people in Wales that the Assembly will work closely with the Countryside Council for Wales and our partners to introduce this legislation sensitively and responsibly.

Jocelyn's amendment 1 changes the motion's wording to 'First Secretary'. I suspect that that is a legal point. However, the delegation of the wording reflects that the term 'First Minister' is contained in the motion, as it is

amddiffyn eraill, er enghraifft, cyfyngiadau ar fynediad er mwyn osgoi ymyrraeth â buddiannau cyfreithlon ffermwyr. Gall tîrfeddianwyr eithrio neu gyfyngu mynediad am hyd at 28 o ddiwrnodau y flwyddyn. Pwysleisiaf hefyd bod yr hawl mynediad statudol yn golygu bod ffermwyr a thîrfeddianwyr yn gwbl rydd i ffermio, ffensio a datblygu eu tir mewn ffyrdd eraill o fewn cyfyngiadau presennol y gyfraith. Nid oes unrhyw fwriad i darfu ar arferion ffermio. Y canlyniad yw Deddf sydd, ar ôl cryn ymgynghori a thrafod dros y blynnyddoedd ac wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd, yn darparu pecyn cytbwys a mesuredig.

Rhaid inni ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon fel cyfle i Gymru. Nid oes prinder ymwelwyr sydd am fwynhau ein tîrweddau a gwario arian ar yr un pryd. Yn ôl arolwg gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth, amcangyfrifir bod cerdded yng Nghymru yn cyfrif am wariant o £182 miliwn ac yn creu dros 4,000 o swyddi. Rhaid inni weithredu'r ddeddfwriaeth hon mewn ffordd sydd yn galluogi pobl i ymweld â Chymru, ond hefyd—ac mae hyn yn bwysig ac yr wyf wedi dweud hyn droeon—sydd yn parhau cymunedau lleol. Mae llawer o waith paratoi i'w wneud ac mae'n bwysig pwysleisio na all yr hawliau mynediad newydd ddod i rym yn syth. Er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd arfer yr hawliau tramwy newydd, rhaid inni gael mesurau goleuedig, diogel ac ymarferol. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y parciau cenedlaethol a'r awdurdodau lleol wedi cymryd yr awennau wrth ddechrau llunio mapiau tir y ceir mynediad iddo, paratoi arweiniad a sefydlu fforymau mynediad lleol. Rhoddaf sicrwydd i Aelodau, ac i bobl Cymru, y bydd y Cynulliad yn cydweithio'n agos â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'n partneriaid i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon mewn ffordd sensitif a chyfrifol.

Mae gwelliant 1 Jocelyn yn newid geiriad y cynnig i 'Brif Ysgrifennydd'. Tybiaf mai pwynt cyfreithiol yw hynny. Fodd bynnag, mae'r ffordd y dirprwyir y geiriad yn adlewyrchu'r ffaith bod y cynnig yn cynnwys

in usage in the Assembly and elsewhere. I have taken legal advice on this and it was felt that it is appropriate to keep the motion's wording as it is. I will be interested to hear Jocelyn's views. We should be clear that the terms by which politicians are known in Wales and elsewhere do not always reflect the statutory position nor do they need to.

I turn to amendment 2 in the names of William Graham and David Davies. This amendment contradicts the motion and, if adopted, it would create a nonsensical motion in my estimation. By simultaneously delegating a set of functions to the First Minister and resolving to resist their use in Wales, how would Ministers be able to exercise those functions and duties under the Act, while also resisting their implementation? We must remember that this legislation has been democratically passed by a democratically elected Government. Are the Welsh Conservatives suggesting that we do not respect a law, which has a mandate, because they do not like it? Besides being logically inconsistent, this amendment would throw away a great opportunity for Wales to strengthen wildlife protection and to reinvigorate local economies enabling everyone to enjoy our open countryside. It would also do this on the mistaken basis of severe financial implications as stated in amendment 2.

After discussion with the Welsh Local Government Association, we anticipated the expenditure and we have catered for that. Local authorities will receive an extra £2.4 million per year for the additional work required of them under the Act, the bulk of which relates to public rights of way. The Act ensures that landowners will not have liability for walkers' accidents arising from natural features of the land and they will only be liable for, under the existing duty owed to trespassers, those arising from non-natural features.

y term 'Prif Weinidog', gan y caiff ei ddefnyddio gan y Cynulliad ac mewn manau eraill. Yr wyf wedi cymryd cyngor cyfreithiol ar hyn a'r farn oedd ei bod yn briodol cadw geiriad y cynnig fel ag y mae. Bydd diddordeb gennyf glywed barn Jocelyn. Dylem fod yn glir nad yw'r termau a ddefnyddir ar gyfer gwleidyddion yng Nghymru ac mewn manau eraill yn adlewyrchu'r sefyllfa statudol bob amser ac nad oes angen iddynt.

Trof at welliant 2 yn enwau William Graham a David Davies. Mae'r gwelliant hwn yn mynd yn groes i'r cynnig ac, o'i fabwysiadu, byddai'n creu cynnig disynnwyr yn fy marn i. Drwy ddirprwyo set o swyddogaethau i'r Prif Weinidog a phenderfynu ymrthod â'u defnyddio yng Nghymru ar yr un pryd, sut y gallai Gweinidogion arfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau hynny o dan y Ddeddf, tra hefyd yn gwrthwynebu eu gweithredu? Rhaid inni gofio i'r ddeddfwriaeth hon gael ei phasio'n ddemocrataidd gan Lywodraeth a etholwyd yn ddemocrataidd. A yw Ceidwadwyr Cymru yn awgrymu na ddylem barchu cyfraith, sydd â mandad iddi, oherwydd nad ydynt yn ei hoffi? Ar wahân i fod yn rhesymegol anghyson, byddai'r gwelliant hwn yn taflu ymaith gyfle mawr i Gymru gryfhau'r ffordd y diogelir bywyd gwyllt ac adfywio economïau lleol gan ei gwneud yn bosibl i bawb fwynhau ein cefn gwlad agored. Byddai'n gwneud hyn hefyd ar sail gyfeiliornus goblygiadau ariannol difrifol fel y nodwyd yng ngwelliant 2.

Ar ôl trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr ydym wedi rhagweld y gwariant ac wedi gwneud trefniadau ar gyfer hynny. Bydd awdurdodau lleol yn derbyn £2.4 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol am y gwaith ychwanegol sydd yn ofynnol ganddynt o dan y Ddeddf, y mae'r rhan fwyaf ohono yn ymwneud â hawliau tramwy. Mae'r Ddeddf yn sicrhau na fydd trefeddiannwyr yn atebol am ddamweiniau cerddwyr yn deillio o nodweddion naturiol y tir. Byddant ond yn atebol am ddamweiniau yn deillio o nodweddion nad ydynt yn naturiol, o dan y ddyletswydd bresennol sydd yn ddyledus i

dremaswyr.

However, the Tories' amendment 2 is dangerous. Let us consider part 3 of this Act, which will come into force on 30 January. This is about long-awaited protection for vital valuable areas of wildlife land. These are the sites of special scientific interest. Some 11 per cent of Wales is designated as sites of special scientific interest. Part 3 of the Act, for the first time, gives statutory protection for SSSIs, the most important wildlife sites in Wales. Your amendment, which, in terms of its phrasing, asks us to resist implementing those functions, is an embarrassment. It is an embarrassment to your party and I am not prepared for this to be an embarrassment to the Assembly. Let us remember that today's debate is about the delegation of functions; in other words, starting the process that will implement the Countryside and Rights of Way Act 2000 in a way that is appropriate to Wales. A range of new subordinate legislation is needed to put the Act's provisions into effect. The Environment, Planning and Transport Committee will consider priorities for this soon.

Fodd bynnag, mae gwelliant 2 y Toriaid yn beryglus. Gadewch inni ystyried rhan 3 y Ddeddf hon, a ddaw i rym ar 30 Ionawr. Mae hyn yn ymwneud ag amddiffyn ardaloedd o dir bywyd gwyllt gwerthfawr hanfodol y bu hir ddisgwyl amdano. Dyma'r safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae tua 11 y cant o Gymru wedi'i phennu'n safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae Rhan 3 y Ddeddf, am y tro cyntaf, yn rhoi amddiffyniad statudol i SoDdGA, sef safleoedd bywyd gwyllt pwysicaf Cymru. Mae eich gwelliant, sydd, o ran y ffordd y'i geiriwyd, yn gofyn inni ymwrthod â gweithredu'r swyddogaethau hynny, yn gywilydd. Mae'n gywilydd i'ch plaid ac nid wyf yn fodlon i hyn fod yn gywilydd i'r Cynulliad. Gadewch inni gofio bod dadl heddiw yn ymwneud â dirprwyo swyddogaethau; mewn geiriau eraill, dechrau'r broses a fydd yn gweithredu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mewn ffordd sydd yn briodol i Gymru. Mae angen amrediad o is-ddeddfwriaeth newydd er mwyn rhoi darpariaethau'r Ddeddf ar waith. Bydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ystyried y blaenoriaethau ar gyfer hyn yn fuan.

3:20 p.m.

Dafydd Wigley: Beth yw'r peirianwaith i adolygu sut mae'r Gorchmynion hyn yn gweithredu i weld, ar ôl cyfnod rhesymol wedi iddynt ddod i rym, a oes problemau'n codi ac a oes angen inni eu hailystyried?

Dafydd Wigley: What is the mechanism for reviewing how these Orders are operating to see, after a reasonable period of their being in force, whether problems are arising and whether we need to reconsider them?

Sue Essex: That is a sensible point. We are duty bound to monitor legislation to ensure that it achieves what we want it to achieve. We particularly want to ensure that the appeals provisions work sensibly. I am sure that members of the Environment, Planning and Transport Committee would be anxious to do that. So it would be brought in to discussions.

Sue Essex: Mae hynny'n bwynt synhwyrol. Mae'n ddyletswydd arnom fonitro deddfwriaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni'r hyn yr ydym am iddi ei gyflawni. Yn arbennig, yr ydym am sicrhau bod y darpariaethau apelio yn gweithio'n synhwyrol. Yr wyf yn siŵr y byddai aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn awyddus i wneud hynny. Felly câi ei drafod.

The issues have moved on. I have had many

Mae pethau wedi symud yn eu blaenau. Yr

discussions with all interested organisations, whether for or against parts of the Act. I have had constructive dialogue with them all. It is time to take the legislation as it has been enacted, and to implement it, fairly and reasonably, in Wales.

Helen Mary Jones: I propose amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. In the last line replace the word ‘*Minister*’ with ‘*Secretary*’.

I broadly welcome this Act’s provisions and the opportunity that it gives the National Assembly to take autonomous action and ensure that the Act is implemented in a manner that is sensitive to and appropriate for Wales.

When the Act was going through Westminster, Plaid Cymru—The Party of Wales had genuine concerns about the nature of the legislation. Some of the concerns have been met in the primary legislation and others could be met with secondary legislation. I will draw your attention to some of these today.

It is vital that the appeals system regarding the designation of land as open countryside or not is swift and effective. It is in nobody’s interests—the farmer, the landowner, or walkers—to wait years for a decision. We know that the Act’s implementation will take time but once it begins, decisions must be made swiftly. The definition of open land will need to be considered carefully and we will look to the Minister to make appropriate definitions in secondary legislation. The most effective way of controlling dogs on open land must also be considered carefully. We have the powers, under this Act, to get this right. That is welcome.

There are huge resource implications in the implementation of this legislation. While we welcome the additional resources that have been made available, we still have concerns,

wyf wedi cael llawer o drafodaethau â phob sefydliad perthnasol, boed o blaid neu yn erbyn rhannau o’r Ddeddf. Cefais drafodaeth adeiladol gyda hwy i gyd. Gan fod y ddeddfwriaeth wedi ei deddfu, mae’n bryd ei gweithredu mewn ffordd deg a rhesymol, yng Nghymru.

Helen Mary Jones: Cyngiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Yn y llinell olaf, rhodder y gair ‘*Ysgrifennydd*’ yn lle ‘*Gweinidog*’.

Croesawaf ddarpariaethau’r Ddeddf hon yn gyffredinol a’r cyfle a rydd i’r Cynulliad Cenedlaethol gymryd camau ymreolus a sicrhau y gweithredir y Ddeddf mewn modd sydd yn sensitif i Gymru ac yn briodol iddi.

Pan oedd y Ddeddf yn mynd drwy San Steffan, yr oedd gan Blaid Cymru—The Party of Wales bryderon dilys ynglŷn â natur y ddeddfwriaeth. Mae’r ddeddfwriaeth sylfaenol wedi delio â rhai o’r pryderon, a gallai’r ddeddfwriaeth eilaidd ddelio ag eraill. Tynnaf eich sylw at rai o’r rhain heddiw.

Mae’n hanfodol bod y system apelio o ran pennu tir yn gefn gwlad agored neu beidio yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes neb yn elwa—y ffermwr, y tiffeddiannwr, na cherddwyr—o aros am flynyddoedd am benderfyniad. Gwyddom y bydd gweithredu’r Ddeddf yn cymryd amser ond unwaith y bydd yn dechrau, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau yn gyflym. Bydd angen ystyried yn ofalus sut i ddiffinio tir agored ac edrychwn at y Gweinidog i lunio diffiniadau priodol mewn deddfwriaeth eilaidd. Rhaid ystyried yn ofalus hefyd y ffordd fwyaf effeithiol o reoli cŵn ar dir agored. Mae gennym y pwerau, o dan y Ddeddf hon, i wneud hyn yn iawn. Croesawn hynny.

Mae goblygiadau enfawr o ran adnoddau wrth weithredu’r ddeddfwriaeth hon. Er ein bod yn croesawu’r adnoddau ychwanegol a ddarparwyd, mae gennym bryderon o hyd am

for example, about funding wardens. As areas are opened up to access, the public will have high expectations, and they will need the support of good warden services. There is also a concern about the resourcing of public information, about when areas are open and when they are closed. We will also need to use secondary legislation to define whose responsibility it is to ascertain whether an area of land is open, and how we will change that designation at the times of the year when farmers and landowners need to keep it closed.

We know that the mapping exercise will be a huge responsibility and we are still concerned about the level of resources, but we are satisfied that the Government of Wales has its heart in the right place. The question, as ever, is whether it will put its money where its mouth is.

We warmly welcome Part 3 of the Act: the legal underpinning, for example, for local biodiversity action plans is incredibly welcome. However, we are also concerned about the long-term resourcing of that aspect of the Act.

Jocelyn Davies will deal with the legal nature of our amendment. I am sorry that we cannot support the Conservatives' amendment. I am extremely surprised to see it tabled and to see its wording. William Graham's amendment calls on the Assembly to resist this measure. I look forward to being told what exactly they have in mind. This Act, as the Minister said, is the law. Surely it is now imperative to ensure that the Government of Wales gets its act together and implements the law effectively and sensitively.

I have told the Assembly before that I am a sucker for non-violent direct action and I would love to see William Graham and his colleagues chained to the odd stile. However, that can hardly be what they have in mind. It

ariannu wardeniaid, er enghraifft. Wrth greu mynediad i wahanol ardaloedd, bydd gan y cyhoedd ddisgwyliadau mawr, a bydd angen cefnogaeth gwasanaethau wardeniaid da arnynt. Mae pryder hefyd ynglŷn ag adnoddau gwybodaeth gyhoeddus, ynglŷn â phryd y mae ardaloedd yn agored a phryd y maent ar gau. Bydd angen inni hefyd ddefnyddio deddfwriaeth eilaidd i ddiffinio pwy sydd yn gyfrifol am ganfod pa un ai a yw ardal o dir yn agored ai peidio, a sut y byddwn yn newid yr hyn a bennwyd ar yr adegau hynny o'r flwyddyn pan fydd angen i ffermwyr a thirfeddianwyr ei gadw ar gau.

Gwyddom y bydd yr ymarfer mapio yn gyfrifoldeb enfawr ac mae lefel yr adnoddau yn peri pryder inni o hyd, ond yr ydym yn fodlon bod calon Llywodraeth Cymru yn y lle iawn. Y cwestiwn arferol yw a fydd y Llywodraeth yn ariannu'r darpariaethau hyn.

Croesawn Ran 3 y Ddeddf yn frwd: mae croeso anhygoel, er enghraifft, i'r sail gyfreithiol i gynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol. Fodd bynnag, mae sicrhau adnoddau i'r agwedd honno ar y Ddeddf yn y tymor hir yn peri pryder inni hefyd.

Bydd Jocelyn Davies yn ymdrin â natur gyfreithiol ein gwelliant. Mae'n flin gennyf na allwn gefnogi gwelliant y Ceidwadwyr. Yr wyf yn synnu'n fawr iddo gael ei gyflwyno, ac yr wyf yn synnu at y geiriad. Mae gwelliant William Graham yn galw ar y Cynulliad i ymwrthod â'r mesur hwn. Edrychaf ymlaen at gael gwybod beth yn union sydd ganddynt mewn golwg. Y Ddeddf hon, fel y dywedodd y Gweinidog, yw'r gyfraith. Y peth pwysig yn awr yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn bwrw i'r gwaith o weithredu'r gyfraith mewn ffordd effeithiol a sensitif.

Yr wyf wedi dweud wrth y Cynulliad o'r blaen fy mod yn frwd o blaid gweithredu uniongyrchol di-drais a byddwn wrth fy modd yn gweld William Graham a'i gyd-Aelodau wedi eu cadwyno i ambell sticil.

is difficult to imagine a party that has been more critical of people who have taken non-violent direct action to resist really pernicious measures, such as the poll tax. How can we resist this Act? The Welsh Conservative view is absurd. One way the Assembly could resist this legislation effectively would be to mess around with the secondary legislation. However, let us face it, the Government of Wales does not have the best record on bringing forward swiftly and effectively the secondary legislation that it needs. Perhaps, that is what William has in mind, that we ask our Ministers, who we continually criticise for taking their time and not getting on with things—

Glyn Davies: Will you give way?

Helen Mary Jones: No. I am sorry, Glyn, if I had time, I would be delighted to give way, but I am sure that you will explain the Conservative view to us shortly.

Surely, the Conservatives are not advocating that the Government of Wales does what we in the opposition parties spend our time criticising it for doing? As the Minister said, this Act gives the Assembly the opportunity to improve reasonable and responsible public access to the countryside, to protect biodiversity and to use secondary legislation to ensure that all this is done in a way that is most appropriate for Wales. However, the legislation is also a great responsibility. The Act calls for extensive, detailed secondary legislation. That is a matter on which, frankly, this Government's record is so far unimpressive.

Where it can, the opposition will co-operate with the Government to ensure that the interests of all—walkers, the general public, farmers, landowners and, above all, our precious environment—are addressed and protected in the Act's implementation.

Fodd bynnag, prin mai dyna sydd ganddynt mewn golwg. Mae'n anodd dychmygu plaid a fu'n fwy beirniadol o bobl a gymerodd gamau uniongyrchol di-drais er mwyn ymwrthod â mesurau gwirioneddol niweidiol, megis treth y pen. Sut y gallwn ymwrthod â'r Ddeddf hon? Mae safbwynt Ceidwadwyr Cymru yn abswrdd. Buasai chwarae â'r ddeddfwriaeth eilaidd yn un ffordd y gallai'r Cynulliad ymwrthod â'r ddeddfwriaeth hon yn effeithiol. Fodd bynnag, gadewch inni wynebu pethau, nid oes gan Lywodraeth Cymru y record orau o ran datblygu'r ddeddfwriaeth eilaidd sydd ei hangen arni yn gyflym ac yn effeithiol. Efallai mai dyna sydd gan William mewn golwg, ein bod yn gofyn i'n Gweinidogion, yr ydym yn eu beirniadu'n barhaus am gymryd eu hamser a pheidio â bwrw ymlaen â phethau—

Glyn Davies: A gaf i siarad?

Helen Mary Jones: Na. Mae'n flin gennyf, Glyn, pe bai amser gennyf, byddwn wrth fy modd yn gadael ichi siarad, ond yr wyf yn siŵr yr esboniwch safbwynt y Ceidwadwyr wrthym cyn bo hir.

Siawns nad yw'r Ceidwadwyr yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn yr ydym ni yn y gwrthbleidiau yn treulio ein hamser yn ei beirniadu am ei wneud? Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad wella mynediad rhesymol a chyfrifol i'r cyhoedd i gefn gwlad, diogelu bioamrywiaeth a defnyddio deddfwriaeth eilaidd er mwyn sicrhau y caiff hyn oll ei wneud mewn ffordd sydd yn briodol iawn i Gymru. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn gyfrifoldeb mawr. Geilw'r Ddeddf am ddeddfwriaeth eilaidd fanwl, helaeth. A bod yn onest, nid yw record y Llywodraeth hon yn drawiadol yn y mater hwnnw.

Lle y bo'n bosibl, bydd y gwrthbleidiau yn cydweithredu â'r Llywodraeth i sicrhau yr eir i'r afael â buddiannau pawb—cerddwyr, aelodau o'r cyhoedd, ffermwyr, yn dirfeddianwyr ac, uwchlaw popeth, ein hamgylchedd gwerthfawr—ac y'u diogelir

However, we reserve the right to hold the Government to account if the implementation is inefficient, delayed, unjust or not properly resourced.

David Davies: I propose amendment 2 in my name and the name of William Graham. Add at the end

notes that the Countryside and Rights of Way Act 2000 would have severe financial implications for Welsh local authorities and landowners, and resolves to resist this measure in Wales.

The Conservative Party and the Welsh Conservative group strongly oppose the implementation of the Countryside and Rights of Way Act 2000. For that reason alone, we will vote against the motion today. That is a good enough reason because I do not want farmers knocking on my constituency office door in a few months' time demanding to know why I voted in favour of a measure that will cost them so much economically as well as in other ways.

We support, in principle, greater rights of access to the countryside, but the question is, how best can that be achieved? This Act will cause many problems for farmers who, in many cases, already find it hard to keep their businesses going as a result of this Government's policies. This Act will increase costs for farmers and landowners, who, under its terms, could be held responsible by local authorities for some of the costs of opening up access. At the same time, they will inevitably face a decrease in the value of their land. Even more worryingly, farmers will be held legally responsible for the safety of anyone walking across their land. This Act does not make clear the difference in responsibility between somebody tripping over a piece of farm machinery or somebody stubbing their toe on a fence. Do not say that that could not happen because Conservative and Labour

wrth weithredu'r Ddeddf. Fodd bynnag, cadwn yr hawl i ddal y Llywodraeth yn atebol os bydd y ffordd y'i gweithreidir yn aneffeithlon, y bydd oedi ynglŷn â hi, y bydd yn annheg neu na chaiff yr adnoddau priodol.

David Davies: Cynigiau welliant 2 yn fy enw i ac yn enw William Graham. Ar y diwedd, ychwaneger:

yn nodi y byddai Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn arwain at oblygiadau ariannol difrifol o safbwynt awdurdodau lleol Cymru a thirfeddianwyr yng Nghymru, ac yn penderfynu ymwrthod â'r mesur hwn yng Nghymru.

Mae'r Blaid Geidwadol a grŵp Ceidwadwyr Cymru yn gwrthwynebu gweithredu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gryf. Oherwydd hynny yn unig, pleidleisiwn yn erbyn y cynnig heddiw. Mae hynny'n rheswm digon da gan nad wyf am gael ffermwyr yn curo ar ddrws fy swyddfa etholaethol ymhen ychydig fisoedd yn mynnu gwybod pam y pleidleisiais o blaid mesur a fydd yn costio cymaint iddynt hwy yn economaidd yn ogystal ag mewn ffyrdd eraill.

O ran egwyddor, cefnogwn fwy o hawliau mynediad i gefn gwlad, ond y cwestiwn yw, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hynny? Bydd y Ddeddf hon yn achosi llawer o broblemau i ffermwyr sydd, mewn sawl achos, eisoes yn ei chael yn anodd cadw eu busnesau i fynd o ganlyniad i bolisiau'r Llywodraeth hon. Bydd y Ddeddf hon yn cynyddu costau ffermwyr a thirfeddianwyr, y gallai awdurdodau lleol, o dan ei thelerau, eu dal yn gyfrifol am rai o gostau agor mynediad. Ar yr un pryd, byddant yn wynebu gostyngiad anochel yng ngwerth eu tir. Yn fwy o bryder byth, bydd ffermwyr yn gyfreithiol gyfrifol am ddiogelwch unrhyw un a fydd yn cerdded ar draws eu tir. Nid yw'r Ddeddf hon yn egluro'r gwahaniaeth o ran cyfrifoldeb rhwng rhywun yn baglu dros ddarn o offer peirianyddol fferm a rhywun yn taro bawd ei droed ar ffens. Peidiwch â dweud na allai hynny ddigwydd. Dywedodd

Governments stated that no-one would ever be taken to court for selling bananas in pounds instead of kilograms, but that happened last week. The Government will try to argue that it is hypothetical, but let its Members stand up now and tell us that they will offer to underwrite the costs incurred by any farmer or landowner due to the implementation of this legislation, if they do not think that there will be extra costs.

This Act rightly limits access to land where there are railway lines or quarrying because those areas are deemed unsafe for unfettered public access. Yet for some reason, food production is considered to be less important. Sadly, this Act seems to be part of an alarming trend by a Government that thinks that it can trample and roam over people's basic right to own land. I have already seen civil servants in Sue Essex's department behaving in a similar way towards landowners in Monmouthshire—

Sue Essex: That is quite an allegation.

David Davies: It is an allegation that I am happy to back up at any time. I have had many discussions with civil servants over the fact that they refuse to pay compensation to people on whose land they have trespassed.

This Act will have implications for conservation and law and order. Allowing everybody unfettered access to land will damage plants and wildlife, although, no doubt, the Government will be happy to hold the landowners responsible for that as well. The Act will also serve as a rural burglar's charter, giving criminals an ever-ready excuse to wander unsupervised through isolated rural areas. [*Laughter.*] Helen Mary appears to find that funny. I would like to think that she will have a change of heart at the last moment and think about the damage that this could do to the Welsh language. Only this week a professor of the University of Wales, Bangor claimed that the huge

y Llywodraeth Geidwadol a'r Llywodraeth Lafur na fyddai unrhyw un yn cael ei erlyn byth am werthu bananas wrth y pwys yn hytrach nag wrth y cilogram, ond digwyddodd hynny yr wythnos diwethaf. Bydd y Llywodraeth yn ceisio dadlau mai sefyllfa ddamcaniaethol ydyw, ond safed Aelodau'r Llywodraeth yn awr a dweud wrthym y cynigiant warantu costau unrhyw ffermwr neu dirfeddiannwr wrth weithredu'r ddeddfwriaeth hon, os na chredant y bydd unrhyw gostau ychwanegol.

Mae'r Ddeddf hon yn cyfyngu, yn gywir felly, ar fynediad i dir lle y mae llinellau rheilffordd neu gloddio gan nad ystyrir yr ardaloedd hynny yn ddiogel i'r cyhoedd gael mynediad rhydd iddynt. Eto i gyd, am ryw reswm, ystyrir cynhyrchu bwyd yn llai pwysig. Ymddengys fod y Ddeddf hon yn rhan o dueddiad brawychus ar ran Llywodraeth sydd yn credu y gall sathru ar hawl sylfaenol pobl i fod yn berchen ar dir. Yr wyf eisoes wedi gweld gweision sifil yn adran Sue Essex yn ymddwyn mewn ffordd debyg tuag at dirfeddianwyr yn Sir Fynwy—

Sue Essex: Mae hynny'n gryn honiad.

David Davies: Mae'n honiad yr wyf yn barod i'w gefnogi unrhyw bryd. Cefais sawl trafodaeth â gweision sifil ynglŷn â'r ffaith eu bod yn gwrthod talu iawndal i bobl y maent wedi tresmasu ar eu tir.

Bydd goblygiadau i'r Ddeddf hon o ran cadwraeth a chyfraith a threfn. Bydd rhoi caniatâd i bawb gael mynediad rhydd i dir yn niweidio planhigion a bywyd gwyllt, er, yn ddi-os, bydd y Llywodraeth yn barod i ddal y tîrfeddianwyr yn gyfrifol am hynny hefyd. Bydd y Ddeddf hefyd yn gweithredu fel siarter i ladron yng nghefn gwlad, gan roi esgus bythol barod i droseddwyr grwydro heb eu goruchwyllo drwy ardaloedd gwledig anghysbell. [*Chwerthin.*] Ymddengys fod Helen Mary yn gweld hynny'n ddoniol. Hoffwn gredu y bydd yn newid ei meddwl ar y funud olaf ac yn ystyried y niwed y gallai hyn ei wneud i'r iaith Gymraeg. Yr wythnos hon yn unig, honnodd un o athrawon

numbers of Welsh-speaking farmers having to leave the land and seek work elsewhere is damaging the language. This will be another nail in the coffin for farmers and the Welsh language. If you call yourselves friends of the language, you should think about supporting our amendment.

On Helen Mary's comments and those of the Minister about us resisting this, we believe in peaceful action. Although we did not want the Assembly, we have it and we are trying to make it work for the people of Wales. We are trying to put the money that is being spent on it and on the new building to good use. It is not my job to stand here and rubber stamp edicts from Millbank. If you, as the official opposition, think that that is your role, you are welcome to it. I propose that we reject this motion and that we do everything possible to resist this Act in Wales.

3:30 p.m.

Alun Pugh: The Countryside and Rights of Way Act 2000 is a landmark achievement of the UK Labour Government. It sits comfortably alongside the creation of the Assembly and the national minimum wage. The Welsh Conservatives opposed all three. Many people have campaigned for decades to secure the right of access to our high ground and wild places and I am delighted that those rights are now defined in primary law.

The new law, when it is fully in force, will have a big impact on climbers and walkers. The Minister is correct to say that outdoor recreation makes a huge and year-round contribution to the Welsh economy, particularly in north Wales. The new law will permit night access, which is essential to ascend snow and ice climbs in relative safety. The omission of night access could have criminalised hill walkers descending back to their vehicles at 5 p.m. at this time of year.

Prifysgol Cymru, Bangor fod y ffaith bod cymaint o ffermwyr sydd yn siarad Cymraeg yn gorfod gadael y tir a chwilio am waith mewn mannau eraill yn gwneud niwed i'r iaith. Bydd hyn yn hoelen arall yn yr arch i ffermwyr a'r iaith Gymraeg. Os ydych yn gyfeillion i'r iaith, dylech ystyried cefnogi ein gwelliant.

O ran sylwadau Helen Mary a sylwadau'r Gweinidog ynglŷn â'r ffaith ein bod am ymrwthod â hyn, credwn mewn gweithredu heddychlon. Er nad oeddem o blaid sefydlu'r Cynulliad, mae hynny wedi ei wneud ac yr ydym yn ceisio gwneud iddo weithio er mwyn pobl Cymru. Yr ydym yn ceisio defnyddio'r arian a werir arno ac ar yr adeilad newydd yn dda. Nid fy ngwaith i yw sefyll yma a rhoi sêl fy mendith ar orchmynion o Millbank. Os ydych chi, fel yr wrthblaid swyddogol, o'r farn mai dyna eich rôl chi, mae croeso ichi wneud hynny. Cynigiau ein bod yn gwrthod y cynnig hwn a'n bod yn gwneud popeth posibl i ymrwthod â'r Ddeddf hon yng Nghymru.

Alun Pugh: Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn un o gyflawniadau pwysig Llywodraeth Lafur y DU. Mae'n eistedd yn gyfforddus ochr yn ochr â chreu'r Cynulliad a'r isafswm cyflog cenedlaethol. Ymrwthododd Ceidwadwyr Cymru â phob un o'r tri. Mae llawer o bobl wedi ymgyrchu am ddegawdau i sicrhau hawl mynediad i'n tir uchel a'n llefydd gwyllt ac yr wyf wrth fy modd bod yr hawliau hynny bellach wedi eu diffinio mewn cyfraith sylfaenol.

Bydd y gyfraith newydd, pan fydd mewn grym yn llawn, yn cael effaith fawr ar ddringwyr a cherddwyr. Mae'r Gweinidog yn gywir wrth ddweud bod adloniant awyr agored yn cyfrannu'n fawr drwy gydol y flwyddyn at economi Cymru, yn arbennig yng ngogledd Cymru. Bydd y gyfraith newydd yn caniatáu mynediad yn ystod y nos, sydd yn hanfodol er mwyn dringo mewn eira ac ia yn gymharol ddiogel. Gallai hepgor mynediad yn ystod y nos droi dringwyr

bryniau sydd yn dychwelyd i'w cerbydau am 5pm yr adeg hon o'r flwyddyn yn droseddwy.

Access to mountain cliffs and crags is also included. Much of the Welsh landscape is vertical and, for the first time, climbers and mountaineers will have a legal right of access to those special landscape features. However, the highest ground in Wales, as well as being a place of great beauty, is potentially a place of danger. I hope that an increase in access is not accompanied by an increase in mountain accidents. Organisations such as the Welsh Mountain Leader Training Board have a long track record of safety and leader training. I hope that their considerable expertise will be used to ensure that, as more people take to the hills, they do so responsibly and safely.

Cwmpeisir mynediad i glogwyni a chreigiau mynyddoedd hefyd. Mae llawer o dirwedd Cymru yn unionsyth ac, am y tro cyntaf, bydd gan ddringwyr a mynyddwyr hawl mynediad cyfreithiol i'r nodweddion arbennig hynny o'r tirwedd. Fodd bynnag, yn ogystal â bod yn lle hardd iawn, mae tir uchaf Cymru yn gallu bod yn beryglus. Gobeithiaf na fydd mwy o fynediad yn arwain at fwy o ddamweiniau mynydd. Mae gan sefydliadau megis Bwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru record dda o ran diogelwch a hyfforddi arweinwyr. Gobeithiaf y defnyddir eu harbenigedd sylweddol i sicrhau bod pobl, wrth i fwy ohonynt gymryd at y bryniau, yn gwneud hynny mewn ffordd gyfrifol a diogel.

I conclude by asking the Minister to make these regulations law as quickly as possible. We have been waiting for far too long to get past the barbed wire and 'private' signs.

Dof i ben drwy ofyn i'r Gweinidog wneud y rheoliadau hyn yn gyfraith cyn gynted ag y bo modd. Buom yn aros yn llawer rhy hir i allu pasio'r wifren bigog a'r arwyddion 'preifat'.

Jocelyn Davies: I have no reservations about referring to Rhodri Morgan as our First Minister. It is a courtesy title and I was delighted that he decided to adopt it last October. However, having given the matter thought and discussed it with my friends in academia, it is clear that, in his legal capacity, Rhodri Morgan is the First Secretary. He confirmed that in his statement in Plenary on 17 October 2000.

Jocelyn Davies: Cyfeiriaf at Rhodri Morgan fel ein Prif Weinidog yn ddibetrus. Teitl cwrteisi ydyw ac yr oeddwn wrth fy modd iddo benderfynu ei fabwysiadu fis Hydref diwethaf. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y mater a'i drafod gyda'm cyfeillion yn y byd academiaidd, mae'n amlwg mai'r Prif Ysgrifennydd yw Rhodri Morgan, yn ôl y gyfraith. Cadarnhaodd hynny yn ei ddatganiad yn y Sesiwn Lawn ar 17 Hydref 2000.

In this motion, there is no doubt that the Assembly is exercising a statutory function, as permitted by the Government of Wales Act 1998. It is, therefore, different from many of the other motions that we adopt. It is a legal motion, unlike resolutions that might instruct the Cabinet to do something. Sue said that she has legal advice that says that that is okay. I hope that her advice is better than the legal advice that the First Minister relied upon when he quoted the Carltona

Yn y cynnig hwn, nid oes unrhyw amheuaeth bod y Cynulliad yn cyflawni swyddogaeth statudol, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'n wahanol, felly, i lawer o'r cynigion eraill a fabwysiadwn. Cynnig cyfreithiol ydyw, yn wahanol i benderfyniadau sydd efallai yn cyfarwyddo'r Cabinet i wneud rhywbeth. Dywed Sue fod ganddi gyngor cyfreithiol sydd yn dweud bod hynny'n iawn. Gobeithiaf fod ei chyngor hi yn well na'r cyngor cyfreithiol y dibynnodd y

doctrine to the Legislation Committee on why he would be able to use the title of Minister. That doctrine refers only to officials in central Government. There is no clear-cut answer to this and until there is, we should adopt a more precautionary approach.

This is controversial legislation and there is no doubt that it will be subject to considerable resistance and, perhaps, challenges. We should ensure that we do not open up the Assembly even to the possibility of court proceedings by providing grounds for judicial review. There have been no changes to our Standing Orders to officially recognise the title of First Minister or any other Minister. That change now seems unlikely to occur.

In addition to the Government of Wales Act, our Standing Orders and the question of judicial review, we must also consider other times when our First Minister and other Ministers use this title. Her Majesty's Stationary Office guidance on statutory instruments insists that official titles only as Ministers may be used. In exercising the functions that we delegate to Rhodri Morgan, he will be the First Secretary and not the First Minister. It is in that spirit that I ask you to support this amendment.

John Griffiths: I welcome this Act. It is long overdue and has been long awaited by people who enjoy walking in Wales. It has obvious potential to enhance the quality of life for the people of Wales. It will allow the enjoyment of the open countryside, which will have many beneficial side effects in encouraging the people of Wales to better value the countryside and the environment. Attitude is all-important on such matters. People will be more willing to protect green spaces and countryside when they see benefits in having access to those places.

The Act is also important for health. Fresh

Prif Weinidog arno pan ddyfynnodd athrawiaeth Carltona i'r Pwyllgor Deddfwriaeth o ran pam y gallai ddefnyddio'r teitl Gweinidog. Dim ond at swyddogion Llywodraeth ganolog y mae'r athrawiaeth honno'n cyfeirio. Nid oes ateb clir i hyni'r cwestwin hwn, felly dylem fod yn fwy gofalus.

Mae hon yn ddeddfwriaeth ddadleuol ac yn ddiau bydd pobl yn ymwrthod â hi ac, efallai, yn ei herio o ddifrif. Dylem sicrhau na adawn i'r Cynulliad fod yn agored i'r posibilrwydd o achos llys hyd yn oed, drwy roi rheswm dros arolwg barnwrol. Ni fu unrhyw newidiadau i'n Rheolau Sefydlog er mwyn cydnabod teitl y Prif Weinidog nac unrhyw Weinidog arall yn swyddogol. Mae'n annhebygol bellach y bydd y newid hwnnw'n digwydd.

Yn ychwanegol at Ddeddf Llywodraeth Cymru, ein Rheolau Sefydlog a'r mater o arolwg barnwrol, rhaid inni hefyd ystyried adegau eraill pan fydd ein Prif Weinidog a Gweinidogion eraill yn defnyddio'r teitl hwn. Mae arweiniad Llyfrfa Ei Mawrhydi ar offerynnau statudol yn mynnu mai dim ond fel Gweinidogion y ceir defnyddio teitlau swyddogol. Wrth gyflawni'r swyddogaethau a ddirprwywn iddo, bydd Rhodri Morgan yn gweithredu fel Prif Ysgrifennydd, nid fel Prif Weinidog. Yn yr ysbryd hwnnw y gofynnaf ichi gefnogi'r gwelliant hwn.

John Griffiths: Croesawaf y Ddeddf hon. Bu hir ddisgwyl amdani gan bobl sydd yn mwynhau cerdded yng Nghymru ac mae'n hen bryd iddi gael ei chyflwyno. Mae potensial amlwg ynddi i wella ansawdd bywyd pobl Cymru. Bydd yn caniatáu i bobl fwynhau cefn gwlad agored, a fydd yn dwyn llawer o sgîl-ffeithiau manteisiol wrth annog pobl Cymru i roi mwy o werth ar gefn gwlad a'r amgylchedd. Mae agwedd yn holl bwysig mewn materion o'r fath. Bydd pobl yn fwy parod i ddiogelu mannau gwyrdd a chefn gwlad pan welant fanteision cael mynediad i'r mannau hynny.

Mae'r Ddeddf yn bwysig hefyd o ran iechyd.

air and exercise are beneficial, and anything that encourages people to walk in the countryside and open spaces must be good. We also know that there will be many economic gains from this Act. Professor Peter Midmore published a study, which demonstrated the financial benefits of the Pembrokeshire coastal path. The relatively small investment in maintaining that path has great economic benefits. In that context, I ask Sue to carefully consider including coastal land in the definition of open country, notwithstanding the advice of the Countryside Council for Wales. It should be considered carefully and quickly. It has obvious tourism and general economic benefits. If we could market the opportunity for tourists to walk all along the coasts of Wales, we would benefit greatly economically.

Local authorities in Wales and the CCW deserve praise for the way in which they approach rights of way in Wales, maintaining and freeing them. Many of us receive a great deal of correspondence—I know that I do—about rights of way. They are important to people in terms of short cuts, opening up the countryside for access and allowing people to access public transport more easily in their local areas. I know that local authorities and the CCW have done much recently to ensure a pro-active approach to rights of way in Wales. They have concentrated on how best to use their resources to free the rights of way that have the most potential to benefit people and enhance the quality of life in Wales.

I wholeheartedly welcome this Act for those reasons. It contrasts with the usual attitude of the Conservatives who are again trying to safeguard the rights of the few rather than the many. Their attitude could be summed up by the phrase—

David Davies: Does the Member for Newport East believe that the rights of the few are any less important than the rights of

Mae awyr iach ac ymarfer corff yn llesol, a rhaid bod unrhyw beth sydd yn annog pobl i gerdded yng nghefn gwlad ac mewn mannau agored yn dda. Gwyddom hefyd y bydd llawer o fanteision economaidd i'r Ddeddf hon. Cyhoeddodd yr Athro Peter Midmore astudiaeth, a ddangosai fanteision ariannol llwybr arfordirol Sir Benfro. Mae manteision economaidd mawr i'r buddsoddiad cymharol fach sydd ynghlwm wrth gynnal a chadw'r llwybr hwnnw. Yn y cyd-destun hwnnw, gofynnaf i Sue ystyried tir arfordirol yn ofalus wrth ddiffinio cefn gwlad agored, er gwaethaf cyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Dylid ei ystyried yn ofalus ac yn gyflym. Mae manteision amlwg iddo o ran twristiaeth a'r economi yn gyffredinol. Pe gallem farchnata'r cyfle i dwristiaid gerdded ar hyd holl arfordir Cymru, byddai o fantais fawr inni yn economaidd.

Mae awdurdodau lleol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn haeddu clod am y ffordd y maent yn delio â hawliau tramwy yng Nghymru, gan eu cadw a'u cynnal a'u rhyddhau. Mae llawer ohonom yn derbyn cryn dipyn o ohebiaeth—gwn fy mod i—am hawliau tramwy. Maent yn bwysig i bobl o ran llwybrau tarw, gan agor cefn gwlad i bobl gael mynd iddo a chaniatáu i bobl allu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn haws yn eu hardaloedd lleol. Gwn fod awdurdodau lleol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi gwneud llawer yn ddiweddar i sicrhau ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at hawliau tramwy yng Nghymru. Maent wedi canolbwyntio ar y ffordd orau i ddefnyddio eu hadnoddau er mwyn rhyddhau hawliau tramwy sydd â'r potensial mwyaf i fod o les i bobl a gwella ansawdd bywyd yng Nghymru.

Croesawaf y Ddeddf hon yn gynnes am y rhesymau hynny. Mae'n cyferbynnu ag agwedd arferol y Ceidwadwyr sydd unwaith eto yn ceisio diogelu hawliau'r lleiafrif yn hytrach na'r mwyafrif. Gellid crynhoi eu hagwedd fel hyn—

David Davies: A yw'r Aelod dros Ddwyrain Casnewydd o'r farn bod hawliau'r lleiafrif yn llai pwysig na hawliau'r mwyafrif?

the many?

John Griffiths: You cannot put it in that context if we are to understand the arguments that surround these issues, David. The issue is the overall quality of life in Wales. As far as that is concerned, there can be little argument that people deserve the right to develop and use much greater access to the countryside and open spaces of Wales than was allowed prior to this Act was passed and before it is implemented. The overall attitude of some of the Welsh Conservatives could be summed up in the phrase, 'Get off my land', because that really seems to be the way they are representing landowners, one of their traditional constituencies.

3:40 p.m.

Peter Rogers: How do you explain the amount of land that has been opened up in the last few years through some of the environmental schemes? This was done on a voluntary basis in agreement with farmers, rather than setting farmers against other people as is being done now with this legislation. We are proud of our tremendous strides forward. We are not against ramblers. We are asking to be able to control this so that we all know exactly where we are going.

John Griffiths: I agree with Peter that it is good to see co-operation. I pay tribute to those people involved where that has opened up access. I hope that we can take that forward in implementing this Act.

I will close by asking Sue to heed the request of the Countryside Council for Wales in attempting to ensure that the regulations needed to implement this Act are passed in a timely fashion by the National Assembly. I note the suggestion that to enable CCW to prepare its draft maps, the appropriate initial regulations would need to be passed by July 2001, with a second tranche of regulations by the end of the year, and a third tranche by the beginning of 2002. I ask Sue to have a mind

John Griffiths: Nid yw'r cyd-destun hwnnw yn briodol er mwyn ddeall y dadleuon sydd yn amgylchynu'r materion hyn, David. Y mater dan sylw yw ansawdd cyffredinol bywyd yng Nghymru. Yn hynny o beth, nid oes amheuaeth bod pobl yn haeddu'r hawl i ddatblygu a defnyddio mynediad llawer mwy i gefn gwlad a mannau agored Cymru nag a ganiateid cyn pasio'r Ddeddf hon a chyn y caiff ei gweithredu. Gellid crynhoi agwedd gyffredinol rhai o Geidwadwyr Cymru gyda'r geiriau, 'Ewch oddi ar fy nhir', gan mai dyna'r ffordd, i bob golwg, y maent yn cynrychioli tîrfeddianwyr, sef un o'u hetholaethau traddodiadol.

Peter Rogers: Sut yr esboniwch faint o'r tir a agorwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf drwy rai o'r cynlluniau amgylcheddol? Gwnaethpwyd hyn yn wirfoddol mewn cytundeb â ffermwyr, yn hytrach na gosod ffermwyr yn erbyn pobl eraill fel y gwneir yn awr gyda'r ddeddfwriaeth hon. Yr ydym yn falch o'r camau breision rhyfeddol a gymerasom ymlaen. Nid ydym yn erbyn cerddwyr. Gofynnwn am y gallu i reoli hyn er mwyn inni i gyd wybod yn union i ble yr awn.

John Griffiths: Cytunaf â Peter ei bod yn dda gweld cydweithredu. Talaf deyrnged i'r bobl hynny sydd yn ymwneud â hyn lle yr agorodd hynny fynediad. Gobeithiaf y gallwn ddatblygu hynny wrth weithredu'r Ddeddf hon.

Dof i ben drwy ofyn i Sue nodi cais Cyngor Cefn Gwlad Cymru wrth geisio sicrhau y caiff y rheoliadau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf hon eu pasio mewn modd amserol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nodaf yr awgrym y byddai'n rhaid i'r rheoliadau cychwynnol priodol gael eu pasio erbyn mis Gorffennaf 2001 er mwyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru allu paratoi ei fapiau drafft, gydag ail haen o reoliadau erbyn diwedd y flwyddyn, a thrydedd haen

to acceding to those requests.

Glyn Davies: There are parts of the Act with which I agree. However, the part with which I fundamentally disagree is the imposition of a statutory right to roam. This was a huge mistake and it would have been far better to continue with what was happening, namely a massive increase on a voluntary basis through Tir Gofal and other agreements to increase access to the countryside.

I will refer to the cost of implementation. I asked a written question about a month ago and received an answer that the cost of the mapping operation to CCW was £1.7 million. I immediately asked further questions about the cost. I saw a brochure from CCW advertising this new Act soon afterwards, so I asked about the cost of the brochure, and if costs for advertising the brochure were included. Today I received a reply saying that they were not. One can only hazard a guess as to what the true cost to CCW will be.

I will also refer to the cost to local authorities. The reply I received to that question was that the cost is £2.4 million. Can we be confident that this National Assembly will meet that cost, or will that be yet another burden that local authorities are required to pile on to the Council Tax in ever increasing levels?

The support for the Bill requires this National Assembly to allocate these massive sums of money for expenditure on this Act over the next few years. This support requires us as a party to agree to that. I do not agree. When I speak in the Budget debate I will be speaking against allocating the money. In my view this is resisting the Act in a perfectly right and proper way.

Geraint Davies: I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council. As Helen Mary Jones said,

erbyn dechrau 2002. Gofynnaf i Sue gytuno i'r ceisiadau hynny.

Glyn Davies: Yr wyf yn cytuno â rhannau o'r Ddeddf. Fodd bynnag, y rhan yr anghytunaf yn sylfaenol â hi yw pasio hawl statudol i gerdded. Yr oedd hyn yn gamgymeriad enfawr a byddai wedi bod yn llawer gwell parhau â'r hyn a oedd yn digwydd, sef cynnydd anferth gwirfoddol drwy Dir Gofal a chytundebau eraill i gynyddu mynediad i gefn gwlad.

Cyfeirïaf at gost ei gweithredu. Gofynnais gwestiwn ysgrifenedig tua mis yn ôl a derbyn ateb mai £1.7 miliwn oedd cost y broses mapio i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Ar unwaith gofynnais gwestiynau pellach ynglŷn â'r gost. Gwelais un o daflenni Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn hysbysebu'r Ddeddf newydd hon yn fuan wedi hynny, felly gofynnais ynglŷn â chost y daflen, a ph'un a oedd costau hysbysebu'r daflen wedi eu cynnwys ai peidio. Heddiw derbynais ateb yn dweud nad oeddent. Ni allwn ond amcangyfrif beth fydd y gost wirioneddol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Cyfeirïaf hefyd at y gost i awdurdodau lleol. Yr ateb a gefais i'r cwestiwn hwnnw oedd mai £2.4 miliwn yw'r gost. A allwn fod yn hyderus y bydd y Cynulliad Cenedlaethol hwn yn talu'r gost honno, neu a fydd hynny yn faich arall eto y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ei lwytho ar ben y Dreth Gyngor mewn lefelau bythol gynyddol?

Mae'r gefnogaeth i'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu'r symiau arian anferth hyn i'w gwario ar y Ddeddf hon dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r gefnogaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol inni fel plaid gytuno i hynny. Ni chytunaf. Pan siaradaf yn nadl y Gyllideb, siaradaf yn erbyn dyrannu'r arian. Yn fy marn i, mae hyn yn ffordd gwbl gywir o ymrwngthod â'r Ddeddf.

Geraint Davies: Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Fel y dywedodd Helen Mary Jones,

Plaid Cymru will fully support the improvement in conservation and wildlife protection that comes under Part 3 of the Act. Although there are some difficulties with issues of access, we support the principle of encouraging people to enjoy and respect the countryside.

We welcome this Act as a good example of bottom-up community approach that we are trying to introduce across the board. Communities are best able to decide what they believe is most important to them in their enjoyment of their environment. I welcome the example of the new working arrangement between the Forestry Enterprise and local communities. In the past, it has planted trees, especially in valley areas, without consultation, ignoring local communities, covering mountains, and taking play areas away from children. Now it is starting to include communities in its decision making process regarding land use and what to plant. It is important for the communities to have ownership so that there will be less vandalism and irresponsible lighting of fires. This community involvement will be strengthened by the requirement in the Act to set up local access forums, which is welcome.

Clause 74 is another welcome clause. It imposes a duty on the Assembly to have regard to conserving biodiversity in accordance with the Rio convention of 1992. It is essential that the Assembly uses that power to ensure, for example, that Assembly sponsored public bodies, such as the WDA, do not destroy important sites of biodiversity as happened at Parc Eirin in Tonyrefail, or as is threatened on several important sites of interest for nature conservation in Rhondda Cynon Taff. No form of mitigation will compensate for the loss of landscape features such as the rhos pastures, for which Rhondda Cynon Taff is famous, and which have taken centuries to develop.

As we have always argued, it is vital that different community initiatives are not left

bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r mesurau i wella cadwraeth a diogelu bywyd gwylt a ddaw o dan Ran 3 y Ddeddf yn llawn. Er bod rhai anawsterau gyda materion mynediad, cefnogwn yr egwyddor o annog pobl i fwynhau a pharchu cefn gwlad.

Croesawn y Ddeddf hon fel enghraifft dda o'r ymagwedd gymunedol o'r bôn i'r brig yr ydym yn ceisio ei chyflwyno yn gyffredinol. Y cymunedau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sydd bwysicaf iddynt o ran mwynhau'r amgylchedd. Croesawaf yr enghraifft o'r trefniant gweithio newydd rhwng y Fenter Coedwigaeth a chymunedau lleol. Yn y gorffennol, plannodd goed, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd, heb ymgynghori, gan anwybyddu cymunedau lleol, gorchuddio mynyddoedd, a chymryd ardaloedd chwarae oddi wrth blant. Bellach mae'n dechrau cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau ynghylch defnyddio tir a beth i'w blannu. Mae'n bwysig i'r cymunedau deimlo eu bod yn berchen ar yr ardaloedd hyn fel y bydd llai o fandaliaeth a chynnau tanau yn anghyfrifol. Atgyfnerthir y cyfranogiad cymunedol hwn gan y gofyniad yn y Ddeddf i sefydlu fforymau mynediad lleol, sydd i'w groesawu.

Mae cymal 74 yn gymal arall a groesewir. Mae'n gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth yn unol â chytundeb Rio ym 1992. Mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn defnyddio'r pŵer hwnnw er mwyn sicrhau, er enghraifft, nad yw cyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, megis y WDA, yn dinistrio safleoedd pwysig o ran bioamrywiaeth fel y digwyddodd ym Mharc Eirin yn Nhonyrefail, neu fel y bygythir ar sawl safle pwysig o ddiddordeb o ran cadwraeth natur yn Rhondda Cynon Taf. Ni fydd unrhyw ddull o liniaru yn gwneud iawn am gollu nodweddion tirwedd megis y rhostiroedd, y mae Rhondda Cynon Taf yn enwog amdanynt, ac sydd wedi datblygu dros ganrifoedd.

Fel y dadleuwyd o'r cychwyn, mae'n hanfodol na chaiff gwahanol fentrau

isolated, but are joined-up and integrated. We need to consider how we should incorporate our environment into decisions on planning, transport and economic development. We should also be considering the social and economic benefits that communities can derive from their environment. How will schools, for example, be able to take advantage of the countryside on their doorstep? What are the health benefits of people walking and cycling in the local countryside? What are the economic benefits of eco-tourism for poor communities and what are the opportunities for recreation? In particular, what are the opportunities for our young people, especially those in socially deprived areas, to take up hobbies such as mountain biking? In the Valleys there are excellent examples of organisations working with disadvantaged youths through outdoor activities to help their personal development and to give them the confidence that they need.

This Act is a great opportunity to consider how we can integrate differing aspects and promote sustainable development in community regeneration programmes. Communities First is being further developed, and we should ensure that the countryside aspects are fully integrated into it.

Mick Bates: I declare an interest as a partner in a farming business. As we have heard, this Bill aims to provide public access to open countryside and registered common land, amend the law of rights of way, and strengthen protection for sites of special scientific interest. The Liberal Democrats believe that there must be recognition that public access must be managed and subjected to some restrictions to be decided upon by local access forums. The mapping process by the Countryside Council for Wales must clearly define which land will be open to access, and recognise the associated environmental costs of access. In particular, we must ensure that those who manage the land do not face an extra financial burden. We must also ensure that activities such as

cymunedol eu hynysu, ond y cânt eu cysylltu a'u hintegreiddio. Mae angen inni ystyried sut y dylem ymgorffori ein hamgylchedd i benderfyniadau ar gynllunio, trafndiaeth a datblygu economaidd. Dylem hefyd ystyried y buddiannau cymdeithasol ac economaidd y gall cymunedau eu mwynhau o'u hamgylchedd. Sut y gall ysgolion, er enghraifft, fanteisio ar gefn gwlad eu cymdogaeth? Beth yw'r buddiannau iechyd i bobl sydd yn cerdded ac yn seiclo yng nghefn gwlad? Beth yw buddiannau economaidd eco-dwristiaeth i gymunedau tlawd a beth yw'r cyfleoedd o ran hamdden? Yn benodol, beth yw'r cyfleoedd i'n pobl ifanc, yn arbennig y rheini mewn ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig, i fwynhau diddordebau megis seiclo mynydd? Yn y Cymoedd ceir enghreifftiau ardderchog o sefydliadau yn gweithio gyda phobl ifanc difreintiedig drwy weithgareddau awyr agored i hybu eu datblygiad personol ac i roi'r hyder sydd ei angen iddynt.

Mae'r Ddeddf hon yn gyfle ardderchog i ystyried sut y gallwn integreiddio gwahanol agweddau a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy mewn rhaglenni adfywio cymunedau. Datblygir Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ymhellach, a dylem sicrhau y caiff yr agweddau cefn gwlad eu hintegreiddio'n llawn ynddi.

Mick Bates: Datganaf fuddiant fel partner mewn busnes ffermio. Fel y clywsom, nod y Mesur hwn yw darparu mynediad i'r cyhoedd i gefn gwlad agored a thir cyffredin cofrestredig, diwygio'r gyfraith hawliau tramwy, ac atgyfnerthu'r amddiffyniad i safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Cred y Democratiaid Rhyddfrydol y dylid cydnabod bod yn rhaid i fynediad cyhoeddus gael ei reoli a bod yn agored i rywfaint o gyfyngiadau i'w pennu gan fforymau mynediad lleol. Rhaid i'r broses fapio gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ddiffinio'n glir pa dir fydd yn agored i fynediad, a chydabod costau amgylcheddol cysylltiedig mynediad. Yn benodol, rhaid inni sicrhau nad yw'r sawl sydd yn rheoli'r tir yn wynebu baich ariannol ychwanegol. Rhaid inni hefyd

fellings of forestry can be carried out effectively and that the role of liability is clearly defined.

The Liberal Democrats support the opportunity that the Bill presents to modernise the laws behind the rights of way, but we seek extra assurances that those who own or manage the land affected do not have any extra financial burden at a time of deep crisis in the farming industry. The Bill, as has already been mentioned, fails to cover marine environments, peat, or enshrine in law biodiversity action plans. The Bill also fails to provide the extra £20 million needed to make good damage to existing sites of special scientific interest.

On amendment 2, this debate is not about the merits or otherwise of the Act—which the Liberal Democrats broadly supports with the reservations that I have mentioned. It is about delegating the functions that the Assembly has been given to the First Minister. Passing this amendment would make the status of that delegation somewhat unclear. Also, the amendment calls for us to resist this measure in Wales. However, this is being passed as an Act of Parliament. Does this therefore mean that the Tories are advocating that we break the law? Would it not be irresponsible to pass an amendment that could be interpreted as the Assembly calling on people to break the law?

3:50 p.m.

The Minister for Environment (Sue Essex): As Mick said, much of the discussion covered the essence of the Act rather than its implementation. However, I will try to pick up all the points that were raised. Jocelyn's point was meant to be helpful. I have taken legal advice. The legal point is whether it is appropriate for this delegation or any other delegation to refer to the First Minister in this way and that we should try to be consistent. I hope that that

sicrhau y gellir cynnal gweithgareddau megis torri coed yn effeithiol ac y diffinnir rôl atebolrwydd yn glir.

Cefnoga'r Democratiaid Rhyddfrydol y cyfle a gyflwynir gan y Mesur i foderneiddio'r deddfau sydd yn sylfaen i hawliau tramwy, ond gofynnwn am sicrwydd ychwanegol na fydd baich ariannol ychwanegol ar y sawl sydd yn berchen ar y tir yr effeithir arno, neu sydd yn ei reoli, ar adeg o argyfwng difrifol yn y diwydiant ffermio. Nid yw'r Mesur, fel y crybwyllwyd eisoes, yn cwmpasu amgylcheddau morol, mawn, nac yn ymgorffori cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth i gyfraith. Metha'r Mesur hefyd â darparu'r £20 miliwn ychwanegol sydd ei angen i unioni difrod i safleoedd presennol o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

O ran gwelliant 2, nid yw'r ddadl hon yn ymwneud â rhinweddau neu ffaeiddau'r Ddeddf—y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei chefnogi'n gyffredinol gyda'r amheuan a grybwyllais. Mae'n ymwneud â dirprwyo'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad i Brif Weinidog Cymru. Byddai derbyn y gwelliant hwn yn golygu y byddai statws y dirprwyaeth honno rywfaint yn aneglur. Hefyd, mae'r gwelliant yn gofyn inni ymwrthod â'r mesur hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n cael ei dderbyn fel Deddf Seneddol. A yw hynny felly yn golygu bod y Torïaid yn argymhell y dylem dorri'r gyfraith? Oni fyddai'n anghyfrifol derbyn gwelliant y gellid ei ddehongli fel pe bai'r Cynulliad yn gofyn i bobl dorri'r gyfraith?

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Fel y nododd Mick, yr oedd llawer o'r drafodaeth yn ymwneud â hanfod y Ddeddf yn hytrach na'i gweithredu. Fodd bynnag, ceisiaf ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd. Bwriad pwynt Jocelyn oedd helpu. Yr wyf wedi cymryd cyngor cyfreithiol. Y pwynt cyfreithiol yw a yw'n briodol i'r ddirprwyaeth hon neu unrhyw ddirprwyaeth arall gyfeirio at Brif Weinidog Cymru yn y fath fodd ac y dylem geisio bod yn gyson.

legal advice, as she says, is trustworthy and strong. I appreciate that your points were meant to be helpful.

Helen Mary and Geraint raised useful points of support. Geraint's point about the impact of the environment in the local community and people's access and enjoyment was well made. I also assure Helen Mary that I want to involve the Environment, Planning and Transport Committee in looking at the legislation and how it is implemented. That relates to John's point about progressing that in a way that gives some certainty and enables this legislation to be put in place.

I consider this access to be an opportunity for Wales. On the cost, we have provided the money, sat down with our partners and looked at the sums that are needed. As a result of the sums that they have identified, the money has been allocated. However, access provides an economic opportunity that organisations such as the Welsh Development Agency and the Wales Tourist Board may want to consider. The mapping exercise is progressing well. The money that was distributed earlier last year has helped that to progress.

I have difficulty with the contributions from Welsh Tory colleagues. Their amendment 2 states

'to resist this measure in Wales'.

It is no good for Glyn to say that he agrees with one or two parts of the Act because if the Tory amendment was passed, we would not see the huge progress that this Act would give us on SSSIs, rights of way and areas of outstanding natural beauty. Many people in the UK have been arguing about these issues for many years. I do not know who prepared your amendment, but I suggest that you try to work to get it more succinct in the future. I suspect that that is not what you meant to say. However, that is what it says and we must not support it.

Gobeithiaf fod y cyngor cyfreithiol hwnnw, fel y dywed, yn ddidwyll ac yn gryf. Gwerthfawrogaf mai helpu oedd bwriad eich pwyntiau.

Cododd Helen Mary a Geraint bwyntiau defnyddiol o gymorth. Cyflwynwyd pwynt da gan Geraint am effaith yr amgylchedd yn y gymuned leol a mynediad a mwynhad pobl. Gallaf sicrhau Helen Mary hefyd fy mod am gynnwys Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wrth edrych ar y ddeddfwriaeth a'r modd o'i gweithredu. Mae hynny'n gysylltiedig â phwynt John am ddatblygu mewn ffordd sydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ac sydd yn galluogi i'r ddeddfwriaeth hon gael ei sefydlu.

Ystyriaif fod y mynediad hwn yn gyfle i Gymru. O ran y gost, yr ydym wedi darparu'r arian, wedi cyfarfod â'n partneriaid ac wedi edrych ar y symiau arian angenrheidiol. O ganlyniad i'r symiau a nodwyd ganddynt, dyrannwyd yr arian. Fodd bynnag, mae mynediad yn darparu cyfle economaidd y gallai sefydliadau megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru fod am ei hystyried. Mae'r ymarfer mapio yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r arian a ddosbarthwyd yn gynharach y llynedd wedi helpu i ddatblygu hwnnw.

Caf anhawster â chyfraniadau fy nghyd-Aelodau o Geidwadwyr Cymru. Mae eu gwelliant 2 yn datgan

'ymwrthod â'r mesur hwn yng Nghymru'.

Nid oes gwerth i Glyn ddweud ei fod yn cytuno ag un neu ddwy ran o'r Ddeddf oherwydd pe derbyniwyd gwelliant y Torïaid, ni fyddem yn gweld y gwelliannau enfawr y byddai'r Ddeddf hon yn ei roi inni o ran SoDdGA, hawliau tramwy ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Bu llawer o bobl yn y DU yn dadlau am y materion hyn ers sawl blwyddyn. Ni wn pwy a baratôdd eich gwelliant, ond awgrymaf y dylech anelu at welliant mwy cryno yn y dyfodol. Yr wyf yn amau nad dyna yr oeddech am ei ddweud. Fodd bynnag, dyna a ddywed ac ni ddylem ei

gefnogi.

On Glyn's point about the cost—he is not in the Chamber at the moment—I repeat what I said that the sum that is going to local authorities, £2.4 million, was included in the budget. I do not know how he missed it, but it was included in the budget. It was included in association with local government who worked out those costs. In terms of the dreadful cost of the leaflet which he mentioned, £3,500 was given to the Countryside Council for Wales to distribute it. If Glyn had attended that presentation, he would have got an useful, informative publication. Therefore, he must get things in perspective. David is also not here. In some way, I wish I was not present to hear his contribution. I liken him to an ostrich: the ostrich puts its head in the sand, but the good thing about the ostrich is that it takes its head out of the sand and moves off. David is putting his head in the sand and is not moving on at all. The world has moved on. We all have to live with things that we do not like. You do not like elements of this legislation, but it is there. You are not doing your constituents any favours by taking this extremely negative view.

Helen Mary Jones: Do you agree, Minister that there are some aspects of the Countryside and Rights of Way Bill that provide enormous economic opportunities for our rural communities and may help to retain people in their Welsh speaking homeland, contrary to what David Davies has said?

Sue Essex: That is what we want. I think that there is a general consensus here that we want to work with landowners and farmers in the rural areas. I have many discussions with them about how access can help. It has helped in Tir Gofal. People now recognise that we do that. I understand that there is resistance and that people feel threatened and frightened by change. That is why, from working with CCW, I know that it will be sensitive about this. We will also work to ensure that. I would like for Peter, and others

O ran pwynt Glyn am y gost—nid yw yn y Siambr ar hyn o bryd—ailadroddaf yr hyn a ddywedais sef y cynhwyswyd y swm sydd yn mynd i awdurdodau lleol, £2.4 miliwn, o fewn y gyllideb. Ni wn sut y'i colodd, ond fe'i cynhwyswyd yn y gyllideb. Fe'i cynhwyswyd drwy gydweithio â llywodraeth leol a gyfrifodd y costau hynny. Yn nhermau cost ofnadwy'r daflen a grybwyllodd, rhoddwyd £3,500 i Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'w dosbarthu. Pe bai Glyn wedi mynychu'r cyflwyniad hwnnw, byddai wedi derbyn cyhoeddiad defnyddiol, llawn gwybodaeth. Felly, rhaid iddo roi pethau mewn persbectif. Nid yw David yma ychwaith. Mewn ffordd, byddai'n well gennyf pe na byddwn wedi clywed ei gyfraniad. Yr wyf yn ei gymharu ag estrys: mae'r estrys yn rhoi ei ben yn y tywod, ond y peth da am estrys yw ei fod yn tynnu ei ben o'r tywod ac yn mynd yn ei flaen. Mae David yn rhoi ei ben yn y tywod ac yn aros yno. Mae'r byd wedi mynd yn ei flaen. Rhaid i bob un ohonom fyw â phethau nad ydym yn eu hoffi. Nid ydych yn hoffi elfennau o'r ddeddfwriaeth hon, ond mae yno. Nid ydych yn helpu eich etholwyr drwy gyflwyno'r safbwynt hynod negyddol hwn.

Helen Mary Jones: A gytunwch, Weinidog, fod rhai agweddau ar y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu cyfleoedd economaidd enfawr i'n cymunedau gwledig ac y gallent helpu i gadw pobl yn eu cartrefdir Cymraeg, yn groes i'r hyn a ddywedodd David Davies?

Sue Essex: Dyna beth yr hoffem ei weld. Credaf fod cytundeb cyffredinol yma ein bod am weithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr yn yr ardaloedd gwledig. Cynhaliws lawer o drafodaethau â hwy am sut y gall mynediad helpu. Mae wedi helpu Tir Gofal. Mae pobl bellach yn cydnabod ein bod yn gwneud hynny. Deallaf fod rhai yn ei erbyn a bod pobl yn teimlo o dan fygythiad ac yn ofni newid. Dyna pam, o weithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, y gwn y bydd yn sensitif am hyn. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau

involved with farming communities, to convey that message. We recognise that it is a sensitive issue for many people. If you have any reason to believe that officials are not carrying out their work on this sensitively, I will deal with it.

Nick Bourne: You are not often unfair, Minister, as you generally realise that there is another side to the argument. However, you slipped into a patronising view in trying to suggest what our constituents and a large body of opinion in Wales think is proper. I hope that you will reconsider that. It is important that we do not just have a soggy consensus on issues in this Chamber. There is another side to this, as Peter Rogers rightly said. The best way forward is through voluntary agreement, rather than imposing on people measures to which they are opposed. I hope that you will reconsider your suggestion that we must follow the Government line on this.

Sue Essex: If you had listened, you would have heard that I said that, in my opinion, I do not think that you are helping your constituents by proposing such an amendment. You have your opinion, Nick; I am expressing mine at the moment. There is a constructive element to this. I know that you disagree with the principle of open access, and you, or your colleagues in another place, have argued that. However, that is life; the argument went the way of the majority, not your way. In all honesty, I think that you would be better served by trying to make this work. It is up to you whether you go along with that or not.

There is nothing to stop people making voluntary agreements. They exist, and I respect the decision of many landowners to enter into them. Let us, therefore, work this through. I have received good responses from colleagues and know that the majority of the Environment, Planning and Transport Committee members—I hope all of them—will try to make this work.

hynny. Hoffwn i Peter, ac eraill sydd yn ymwneud â chymunedau ffermio, gyfleu'r neges honno. Yr ydym yn cydnabod ei fod yn fater sensitif i lawer o bobl. Os oes gennych unrhyw reswm dros gredu nad yw'r swyddogion yn gwneud eu gwaith ar hyn mewn modd sensitif, deliaf â hynny.

Nick Bourne: Anaml yr ydych yn annheg, Weinidog, gan eich bod yn sylweddoli yn gyffredinol bod ochr arall i'r ddadl. Fodd bynnag, yr oedd eich safbwynt wrth geisio awgrymu beth mae ein hetholwyr a rhan fawr o'r boblogaeth yng Nghymru yn ei ystyried yn briodol yn nawddoglyd. Gobeithiaf y byddwch yn ailystyried hynny. Mae'n bwysig nad cydsyniad glastwraidd sydd gennym ar faterion yn y Siambr hon. Mae ochr arall i'r pwnc, fel y nododd Peter Rogers yn gywir. Y ffordd orau ymlaen yw drwy gytundeb gwirfoddol, yn hytrach na gorfodi mesurau ar bobl y maent yn anghytuno â hwy. Gobeithiaf y byddwch yn ailystyried eich awgrym y dylem ddilyn safbwynt y Llywodraeth ar y pwnc.

Sue Essex: Pe baech wedi gwranddo, byddech wedi clywed yr hyn a ddywedais sef, yn fy marn i, nad wyf yn credu eich bod yn helpu eich etholwyr drwy gynnig gwelliant o'r fath. Rhydd i bawb ei farn, Nick; yr wyf yn mynegi fy marn i ar hyn o bryd. Mae elfen adeiladol i hyn. Gwn eich bod yn anghytuno â'r egwyddor o fynediad agored, a'ch bod chi, neu eich cyd-Aelodau rywle arall, wedi dadlau hynny. Fodd bynnag, felly y mae bywyd; derbyniwyd dadl y mwyafrif, ac nid eich dadl chi. Mewn difrif calon, credaf y byddai'n fwy buddiol ichi geisio gwneud i hyn weithio. Eich dewis chi yw a ydych am wneud hynny ai peidio.

Does dim byd i rwystro pobl rhag llunio cytundebau gwirfoddol. Maent yn bodoli, a pharchaf benderfyniad llawer o dirfeddianwyr i'w llunio. Felly, gadewch inni drafod hyn. Derbyniais ymatebion da gan gyd-Aelodau a gwn y bydd mwyafrif aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth—gobeithiaf bob un ohonynt—yn ceisio sicrhau llwyddiant.

Peter Rogers: We would be failing our constituents if we did not stand up for our view. This is a tremendously controversial issue in our constituencies. Access during the hours of darkness is one problem. A neighbour of mine appeared before a court recently because his dog, in carrying out its job, bit a person who, on returning from a visit to an ancient monument, passed through his yard at about 10 p.m. one night in October. We must overcome such problems. There must be security in the countryside, and we must create a relationship based on understanding. We must iron out the numerous controversial aspects to this Act, many of which will create a legal nightmare. You were right to say that employment will be created, because that will certainly be true of the legal sector. We are making headway in the voluntary arrangements through the environmental schemes. That was an issue that had stood still for years, which suddenly moved forward. It is a shame that we could not have been a little more patient and opened up the whole of Wales on a voluntary basis.

Sue Essex: Peter, you said that the voluntary arrangements have worked. They increased with the proposed advent of the countryside legislation. Having said that, we welcome them. I accept that you have concerns about individual constituents. If you would like to take up those concerns with me—and any concerns about other aspects of the Act, not only about open access—I will ensure that they are passed on to the relevant people. This is a huge piece of legislation that covers a wide area.

To end on a constructive note, John and Alun raised points about the benefits of the Act. If we get this right, Wales will benefit greatly. It may be difficult at the beginning, and I accept the points raised by Peter and others about working with landowners and farmers to deal with the difficulties that they perceive may arise. I hope that many will remain as perceptions and will not materialise in reality. This will be a long and complex piece of legislation to enact. I would like to

Peter Rogers: Byddem yn methu ein hetholwyr pe na byddem yn dadlau ein safbwyntiau. Mae hwn yn bwnc llosg mawr yn ein hetholaethau. Mae mynediad yn ystod oriau'r nos yn un broblem. Ymddangosodd un o'm cymdogion ger bron y llys yn ddiweddar am i'w gi, wrth wneud ei waith, gnoi rhywun a oedd yn mynd drwy ei fuarth tua 10 p.m. un noson ym mis Hydref, wrth ddychwelyd o ymweld â heneb. Rhaid inni oresgyn problemau o'r fath. Rhaid sicrhau diogelwch yng nghefn gwlad, a rhaid inni greu perthynas ar sail cyd-ddeall. Rhaid inni ddatrys yr agweddau dadleugar niferus i'r Ddeddf hon, y bydd llawer ohonynt yn creu hunllef gyfreithiol. Yr oeddech yn llygad eich lle wrth nodi y creir cyflogaeth, oherwydd bydd hynny'n sicr yn wir am y sector cyfreithiol. Yr ydym yn gwneud cynnydd yn y trefniadau gwirfoddol drwy'r cynlluniau amgylcheddol. Yr oedd hwnnw'n broblem ers amser, a ddatryswyd yn sydyn. Trueni na fyddem wedi gallu bod ychydig yn fwy amyneddgar a rhoi mynediad i Gymru gyfan ar sail wirfoddol.

Sue Essex: Peter, dywedasoeh fod y trefniadau gwirfoddol wedi gweithio. Fe'u hehangwyd yn sgîl dyfodiad arfaethedig deddfwriaeth cefn gwlad. Wedi dweud hynny, fe'u croesawn. Derbyniaf fod gennych bryderon am etholwyr unigol. Os hoffech drafod y pryderon hynny â mi—ac unrhyw bryderon am agweddau eraill ar y Ddeddf, nid yn unig am fynediad agored—gwnaf yn siŵr y cânt eu trosglwyddo i'r bobl berthnasol. Mae hon yn ddarn enfawr o ddeddfwriaeth sydd yn cwmpasu maes eang.

I gloi ar nodyn adeiladol, cododd John ac Alun bwyntiau am fanteision y Ddeddf. Os caiff ei chyflwyno'n gywir, bydd Cymru yn fawr ar ei hennill. Efallai y bydd yn anodd ar y dechrau, a derbyniaf y pwyntiau a godwyd gan Peter ac eraill am weithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr i ddelio â'r anawsterau y tybiant y gallent godi. Gobeithiaf yr erys llawer ohonynt yn dybiaethau ac na cânt eu gwireddu. Bydd hwn yn ddarn hir a chymhleth o

think that, once it is properly implemented, fairly and responsibly, Wales will benefit greatly. I appreciate the co-operative comments made by colleagues today.

ddeddfwriaeth i'w weithredu. Hoffwn feddwl, unwaith y caiff ei weithredu'n gywir, yn deg ac yn gyfrifol, y bydd o fudd mawr i Gymru. Gwerthfawrogaf y sylwadau cydweithredol a wnaethpwyd gan fy nghyd-Aelodau heddiw.

*Gwelliant 1: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 1: For 18, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Graham, William
Hancock, Brian
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod
Rogers, Peter
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.*

*Gwelliant 2: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 37.
Amendment 2: For 9, Abstain 0, Against 37.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Geraint

Richards, Rod
Rogers, Peter

Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.*

*Cynnig: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 8.
Motion: For 38, Abstain 0, Against 8*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod
Rogers, Peter

Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Middlehurst, Tom
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion adopted.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.58 p.m.
 The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.58 p.m.*

Cyfeiriad Hir Dymor Amaethyddiaeth The Long-term Direction of Agriculture

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 3 in the names of William Graham and Peter Rogers and amendments 2, 4, 5 and 6 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 a gwelliant 3 yn enw William Graham a Peter Rogers a gwelliannau 2, 4, 5 a 6 yn enw Jocelyn Davies.

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): I propose that

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

the National Assembly, supports the work of the Minister for Rural Affairs to develop a future direction for Welsh farming based on the principles in the Rural Development Plan for Wales (available on the National Assembly's website: www.wales.gov.uk/polinifo/agriculture/agric_e.htm) and having regard to the objectives for rural affairs and agriculture as set out in 'Putting Wales First: A Partnership Agreement for the People of Wales' (available on the intranet at : <http://assembly/>)

y Cynulliad Cenedlaethol, yn cefnogi gwaith y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ddatblygu cyfeiriad y diwydiant ffermio yng Nghymru yn y dyfodol ar sail egwyddorion cynllun datblygu gwledig Cymru (sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.wales.gov.uk/polinifo/agriculture/agric_e.htm) ac yn ystyried yr amcanion ar gyfer materion gwledig ac amaethyddiaeth fel a bennwyd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' (sydd ar gael ar y fewnwyd: <http://assembly/>)

4:00 p.m.

Farming has a future in Wales. If none of us believe that, there is no point in having this debate. I was gratified to read the comments made by Glyn Davies, the Chair of the Agriculture and Rural Development

Mae gan ffermio ddyfodol yng Nghymru. Oni chred unrhyw un ohonom hynny, nid oes unrhyw ddiben i gynnal y ddadl hon. Yr oeddwn yn falch o ddarllen y sylwadau a wnaeth Glyn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor

Committee, in today's farming supplement of *The Western Mail*. He agreed that there is a glimmer at the end of the tunnel. We must recognise the positive contribution that farming makes to the economy of Wales, the social life of Wales and, importantly, the cultural life of Wales, because farmers and farming comprise one of the heartlands of the Welsh language.

Several amendments have been tabled to this motion. Amendment 4 in the name of Jocelyn Davies rightly reminds us of our commitment to sustainable development. It also reminds us that agriculture is a basic, vital industry. That need not be said in the first place. Therefore, I am prepared to support that amendment. On amendment 5, I recall some controversy in the Chamber over an answer to a question about agriculture's contribution to the gross domestic product of Wales. Crude indicators such as GDP do not reflect agriculture's contribution to the Welsh economy, particularly in sustaining rural communities. We know that agriculture provides significant employment in rural areas, that it shapes our landscape and natural environment, that it helps to encourage Wales's attractiveness to tourists, and is fundamental to the character of rural life. We all recognise the limitations of looking purely at economic indicators. We are working to draw up a range of wider indicators as part of the draft strategy document being considered by the Farming Futures group. I am, therefore, content to support amendment 5.

We all recognise the great difficulties that farming has experienced during recent years. We also recognise that there has been a steady drift away from the countryside for many years, for more than a century, probably. We must realise that farming incomes have been hit hard in the past few years for several economic reasons. The National Assembly has had significant success in exerting pressure on the UK Government to increase short-term aid for farmers. For example, £43 million has been

Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn atodiad ffermio *The Western Mail* heddiw. Cytunodd fod llygedyn o olau. Rhaid inni gydnabod y cyfraniad cadarnhaol a wna ffermio i economi Cymru, i fywyd cymdeithasol Cymru, ac yn bwysig, i fywyd diwylliannol Cymru, gan mai ffermwyr a'r byd ffermio yw un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg.

Cyflwynwyd sawl gwelliant i'r cynnig hwn. Mae gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies yn ein hatgoffa o'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy a hynny'n gwbl briodol. Mae hefyd yn ein hatgoffa bod amaethyddiaeth yn ddiwydiant sylfaenol, holl bwysig. Nid oes angen dweud hynny yn y lle cyntaf. Felly, yr wyf yn barod i gefnogi'r gwelliant hwnnw. O ran gwelliant 5, cofiaf fod peth dadlau yn y Siambr hon ynglŷn ag ateb i gwestiwn am gyfraniad amaethyddiaeth i gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru. Nid yw dangosyddion bras fel CMC yn adlewyrchu cyfraniad amaethyddiaeth i economi Cymru, yn enwedig o safbwynt cynnal cymunedau gwledig. Gwyddom fod amaethyddiaeth yn rhoi cyflogaeth sylweddol mewn ardaloedd gwledig, ei bod yn llunio ein tirwedd a'n hamgylchedd naturiol, ei bod yn helpu i ddenu twristiaid i Gymru, a'i bod yn rhan hanfodol o nodweddion bywyd gwledig. Cydnabyddwn oll gyfyngiadau edrych ar ddangosyddion economaidd yn unig. Yr ydym wrthi'n llunio ystod o ddangosyddion ehangach fel rhan o'r ddogfen strategaeth ddrafft y mae'r grŵp Dyfodol Ffermio yn ei hystyried. Felly, yr wyf yn fodlon cefnogi gwelliant 5.

Cydnabyddwn oll fod ffermio wedi wynebu anawsterau enfawr yn ystod y blynyddoedd diweddar. Cydnabyddwn hefyd fod llif gyson o bobl yn symud o gefn gwlad ers blynyddoedd maith, ers dros ganrif, fwy na thebyg. Rhaid inni sylweddoli bod incwm ffermwyr wedi dioddef gryn dipyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd nifer o resymau economaidd. Bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn eithaf llwyddiannus wrth roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gynyddu'r cymorth tymor byr i ffermwyr. Er enghraifft,

delivered in special aid packages for the industry, including additional support for the less favoured areas. We have also had agri-monetary compensation, the abolition of the weight limit in the over 30 months scheme and also the abolition in Wales of dairy hygiene inspection charges.

That is what has happened in the past. We must look forward to the future. Yesterday I met with my colleagues from other territories within the UK. I pressed Nick Brown to press the Treasury for payment of agri-monetary compensation for our farmers.

Cynog Dafis *rose*—

Carwyn Jones: Nid wyf am ildio yn awr. Mae'r ddadl i ddod. Fe ildiaf wrth ateb y ddadl.

I will continue to press Nick Brown for agri-monetary compensation. However, we have to be realistic about what we can and cannot do. We cannot wish away the powerful forces that are ranged against the industry. Short-term help is important—we all know that—but it will not solve the industry's deep-seated problems. We cannot stand still.

We must recognise that the impetus and the reform of the common agricultural policy since 1992 has been to reduce the degree of protection for farmers and increase their exposure to market forces. World Trade Organisation negotiations will mean that that process will continue. We also face challenges with the enlargement of the European Union in to Eastern Europe, particularly from countries such as Poland.

World market prices for beef and lamb are well below levels in the European Union. In New Zealand, lamb producers received about 55p per kilo liveweight in comparison with 84p per kilo liveweight in the UK. Those were the figures for last November, although the price of lamb has gone up significantly

cyflwynwyd £43 miliwn mewn pecynnau cymorth arbennig i'r diwydiant, gan gynnwys cymorth ychwanegol i ardaloedd llai breintiedig. Yr ydym hefyd wedi cyflwyno iawndal amaeth-arianyddol, diddymu'r terfyn pwysau yn y cynllun dros 30 mis a diddymu'r taliadau a godir am arolygiadau hylendid cynnyrch llaeth hefyd.

Dyna beth a ddigwyddodd yn y gorffennol. Rhaid inni edrych ymlaen i'r dyfodol. Ddoe, cyfarfûm â'm cyd-Aelodau o wledydd eraill y DU. Pwysais ar Nick Brown i bwysu ar y Trysorlys i dalu iawndal amaeth-arianyddol i'n ffermwyr.

Cynog Dafis *a gododd*—

Carwyn Jones: I will not take an intervention now. The debate is to come. I will take interventions when I reply.

Byddaf yn parhau i bwysu ar Nick Brown am iawndal amaeth-arianyddol. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gallwn a na allwn ei wneud. Ni allwn gymryd arnom na fodola'r grymoedd pwerus sydd yn ymosod ar y diwydiant. Mae cymorth tymor byr yn bwysig—gwyddom oll hynny—ond ni fydd yn datrys problemau sylfaenol y diwydiant. Ni allwn sefyll yn yr unfan.

Rhaid inni gydnabod mai byrdwn y polisi amaethyddiaeth cyffredin a'r diwygiadau iddo ers 1992 oedd lleihau i ba raddau y câi ffermwyr eu hamddiffyn a'u gwneud yn fwy agored i rymoedd y farchnad. Bydd negodiadau Sefydliad Masnach y Byd yn golygu mai parhau fydd y broses hon. Yr ydym hefyd yn wynebu sialensau wrth i'r Undeb Ewropeaidd ymestyn i Ddwyrain Ewrop, yn enwedig gwledydd fel Gwlad Pwyl.

Mae prisiau marchnad y byd ar gyfer cig eidion a chig oen dipyn yn is na'r Undeb Ewropeaidd. Yn Seland Newydd, cafodd cynhyrchwyr cig oen tua 55c fesul kilo pwysau byw o gymharu â 84c fesul kilo pwysau byw yn y DU. Dyna'r ffigurau fis Tachwedd diwethaf, er bod pris cig oen wedi

recently in the markets. New Zealand producers were making profits at that level. Our producers were not. Also in New Zealand, the average cost of producing a litre of milk is about 9p. Welsh dairy farmers struggle to cover their costs on twice that.

These pressures will not go away. What do we do to address them? If Welsh agriculture continues trying to compete purely on price in these basic commodity markets with basic agricultural goods, the future is not good. The established trend towards polarisation of the farming structure will continue and accelerate. We will move towards fewer, larger full-time units—ranches if you like—and smaller, part-time holdings, with the traditional family farm, which is the basis of farming in Wales, being eroded.

We cannot welcome that trend. That is not what the structure of farming is about in Wales. What can we in the National Assembly do to mitigate the trend and to provide a future for the family farm? We have the rural development plan, the first to be approved in the UK territories. It was approved by the European Commission last October. In order to take matters forward, we must have—as far as possible—a spirit of consensus. That is why I cannot accept Jocelyn Davies's amendment 2 in which she proposes that the Assembly 'notes' rather than 'supports' the work in developing a future for Welsh farming. This is a Government motion, put before the Assembly for the Assembly to support or not.

I was struck, as I travelled all over Wales in my first months in this job, by the fact that farmers said to me 'What is the message for the future? What are we being asked to do?' That is why I set up last year the Farming Futures group to provide that message for farmers, so that they know the direction in

cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar yn y marchnadoedd. Yr oedd cynhyrchwyr Seland Newydd yn gwneud elw ar y lefel honno. Ni wnâi ein cynhyrchwyr ni. Hefyd yn Seland Newydd, mae'n costio tua 9c i gynhyrchu litr o laeth ar gyfartaledd. Caiff ffermwyr cynnyrch llaeth yng Nghymru anhawster wrth geisio adennill eu costau am ddwywaith hynny.

Ni fydd y pwysau hyn yn diflannu. Beth a wnawn i fynd i'r afael â hwy? Os pery amaethyddiaeth Cymru i gystadlu ar bris yn unig yn y marchnadoedd nwyddau sylfaenol hyn gan ddibynnu ar nwyddau amaethyddol sylfaenol, nid yw'n argoeli'n dda. Bydd y tueddiad sefydledig tuag at bolareiddio'r strwythur ffermio yn parhau ac yn cyflymu. Byddwn yn symud tuag at unedau amser llawn a fydd yn fwy o ran maint ond yn llai o ran nifer—ranshis os mynnwch—a ffermydd bach rhan amser, llai, a bydd y fferm deuluol draddodiadol, sef sylfaen ffermio yng Nghymru, yn edwino.

Ni allwn groesawu'r tueddiad hwnnw. Nid dyna sylfaen strwythur ffermio yng Nghymru. Beth allwn ni yn y Cynulliad Cenedlaethol ei wneud i leddfu hyn a sicrhau dyfodol i ffermydd teuluol? Mae gennym y cynllun datblygu gwledig, sef y cyntaf a gymeradwywyd o fewn gwledydd y DU. Fe'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fis Hydref diwethaf. Er mwyn symud ymlaen, rhaid inni—hyd y gellir—gael consensws. Dyna pam na allaf dderbyn gwelliant 2 Jocelyn Davies lle y cynigia fod y Cynulliad yn 'nodi' yn hytrach na 'chefnogi' y gwaith o ddatblygu dyfodol i ffermio yng Nghymru. Mae hwn yn gynnig gan y Llywodraeth, a osodir gerbron y Cynulliad i'r Cynulliad gefnogi ai peidio fel y mynno.

Yr hyn a'm tarodd wrth deithio ar hyd a lled Cymru yn fy misoedd cyntaf yn y swydd hon, oedd y ffaith i ffermwyr ddweud wrthyf 'Beth yw'r neges ar gyfer y dyfodol? Beth a ofynnir inni ei wneud?'. Dyna pam y sefydlais y grŵp Dyfodol Ffermio y llynedd er mwyn rhoi'r neges honno i'r ffermwyr, er

which they are expected to go. The group comprises experts from the farming, food and countryside sectors and leading academics. The group has met twice, its papers are made public, and when it produces its draft strategy it will be put before the Agriculture and Rural Development Committee for discussion before it is published.

The group's purpose is not to have a huge number of meetings nor is it to produce a lengthy document that gathers dust on a shelf. It is to produce a simple message and to set out a clear direction for where we are going and how we intend to get there. We know what our priorities are: a rural employment, a healthy environment, a strong, positive, international image for Welsh food and a productive and prosperous Welsh farming industry.

4:10 p.m.

We can draw lessons from what has occurred in other countries in the European Union. In Ireland, the industry has been encouraged to collaborate, to add value to produce and to develop brands and export markets. These are all ways to increase the income of the average farmer. The message must be that you do not have to compete on price alone, that you can go out to the world and say: we may not be the cheapest but we are the best. That takes a lot of shouting and organisation. However, on that basis, we can market ourselves to the world and provide a living for our family farms.

We must produce products that can be marketed on factors other than price. The agri-food strategy is therefore central. The industry must move as far as it can away from competing in bulk commodity markets towards producing products that compete on quality. That means creating an integrated agri-food industry in Wales, where farmers and food processors work together to target market opportunities. In the future, it will not

mwyn iddynt wybod beth yw'r cyfeiriad y disgwylir iddynt ei ddilyn. Mae'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr o'r sectorau ffermio, bwyd a chefn gwlad ynghyd ag academyddion blaenllaw. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith, mae ei bapurau ar gael i'r cyhoedd, a phan fydd yn llunio ei strategaeth ddrafft caiff ei osod gerbron y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i'w thrafod cyn cyhoeddi.

Nid diben y grŵp yw cynnal cyfarfodydd lu na chynhyrchu dogfen hirfaith a fydd ond yn casglu llwch ar silff. Y diben yw llunio neges syml a gosod cyfeiriad clir lle yr ydym yn mynd a sut y bwriadwn gyrraedd pen y daith. Gwyddom beth yw ein blaenoriaethau: cyflogaeth yng nghefn gwlad, amgylchedd iach, delwedd ryngwladol gryf, gadarnhaol i fwyd Cymru a diwydiant ffermio cynhyrchiol a llewyrchus.

Gallwn ddysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwledydd eraill o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Yn Iwerddon, anogwyd y diwydiant i gydweithio, i ychwanegu gwerth at gynnyrch a datblygu brandiau a marchnadoedd allforio. Dyma'r ffyrdd y gellir cynyddu incwm y ffermwr cyffredin. Y neges yw nad oes rhaid cystadlu ar bris yn unig, y gallwch fynd allan i'r byd a dweud: nid y rhataf ydym efallai, ond ni yw'r gorau. Mae hynny'n gofyn am gryn dipyn o weiddi a threfnu. Fodd bynnag, ar y sail honno, gallwn farchnata ein hunain i'r byd a sicrhau bywoliaeth i'n ffermydd teuluol.

Rhaid inni gynhyrchu cynnyrch y gellir eu marchnata am ffactorau heblaw pris. Mae'r strategaeth amaeth-fwyd yn hanfodol felly. Rhaid i'r diwydiant symud hyd y gellir oddi wrth gystadlu yn y marchnadoedd swmpnwyddau tuag at gynhyrchu cynnyrch sydd yn cystadlu o ran ansawdd. Golyga hynny greu diwydiant amaeth-fwyd integredig yng Nghymru, lle y mae ffermwyr a phroseswyr bwyd yn gweithio gyda'i gilydd i dargedu

be enough to think that, once the lamb or beef gets past the farm gate, that is the end of the matter. There must be more emphasis on what happens afterwards.

Farmers must be encouraged to collaborate and co-operate to enable them to have a greater stake in processing and marketing produce. We have seen examples of this in Wales. At the moment they are, in the main, small organisations, but we hope that, in future, we will have large organisations, as are seen in Europe. That will enable family farms to produce food and yet to market and sell as a group.

There are other issues. Information and communications technology has a strong role to play in farming. The Welsh sheep strategy found that cost of lamb production in Wales varies from 80p to over 170p per kilo liveweight. There are not many farmers who can tell you what their production cost per kilo is. That must be a fundamental weakness in any business. So we must encourage farmers to get over their fear of ICT and to understand that it has a role in farming, as in any other business.

We need to broaden the agricultural base in Wales: lamb, beef and dairy predominate at the moment and will probably always be our largest sector. However, we need to consider other ways of farming as well: organic horticulture, aquaculture, biomass. These are all ways of providing a future for Welsh farms and farming. There can be several answers, not just one.

We can look to develop other sources of income including agri-tourism, which is an influential and large part of the agricultural sector in countries such as Italy. It is important that we support farmers in looking for new ways for them to maximise income on their farms. Farming Connect enables people to receive advice and have business reviews made on the farm. That helps to

cyfleodd yn y farchnad. Yn y dyfodol, ni fydd yn ddigon i feddwl unwaith y bydd y cig oen neu'r cig eidion yn gadael y fferm mai dyna ddiwedd y gwaith. Rhaid bod mwy o bwyslais ar yr hyn a ddigwydd wedi hynny.

Rhaid annog ffermwyr i gydweithio a chydweithredu fel y bo mwy o fudd iddynt o ran prosesu a marchnata cynnyrch. Gwelsom enghreifftiau o hyn yng Nghymru. Ar hyn o bryd sefydliadau bach ydynt, ar y cyfan, ond gobeithiwn y bydd sefydliadau mawr gennym yn y dyfodol, fel sydd yn Ewrop. Bydd hynny'n galluogi ffermydd teuluol i gynhyrchu bwyd ond ei farchnata a'i werthu fel rhan o grŵp.

Mae materion eraill i'w hystyried. Mae i dechnoleg gwybodaeth a chyfathebu rôl gadarn i'w chwarae yn y byd ffermio. Canfu'r strategaeth defaid Cymru fod y gost o gynhyrchu cig oen yn amrywio o 80c i fwy na 170c fesul kilo pwysau byw yng Nghymru. Nid oes llawer o ffermwyr a all ddweud wrthyhych beth yw eu costau cynhyrchu fesul kilo. Byddai hynny'n wendid sylfaenol mewn unrhyw fusnes. Felly rhaid inni annog ffermwyr i oresgyn eu hofn o TGCh a deall bod rôl iddi yn y byd ffermio, fel ym mhob busnes arall.

Mae angen inni ehangu'r sylfaen amaethyddol yng Nghymru: cig oen, cig eidion a chynnyrch llaeth yw ein prif gynnyrch ar hyn o bryd a'r rhain a fydd ein sector mwyaf o hyd fwy na thebyg. Fodd bynnag mae angen inni ystyried ffyrdd eraill o ffermio yn ogystal â garddwriaeth organig, dyfryddiaeth, biomas. Dyma ffyrdd o sicrhau dyfodol i ffermydd ac amaeth Cymru. Gall fod sawl ateb, nid dim ond un.

Gallwn ystyried datblygu ffynonellau eraill o incwm gan gynnwys amaeth-dwristiaeth, sydd yn rhan ddylanwadol a sylweddol o'r sector amaethyddol mewn gwledydd fel yr Eidal. Mae'n bwysig inni gefnogi ffermwyr wrth chwilio am ffyrdd newydd o sicrhau'r incwm mwyaf posibl ar eu ffermydd. Mae Cyswllt Ffermio yn galluogi pobl i gael cyngor ac adolygiadau busnes ar y fferm.

overcome the fear of having to approach somebody to get advice. The network is being built. The Tir Gofal budget is £42 million over the next three years. Tir Gofal has been a successful scheme. However, it will be reviewed in April and its effectiveness and administrative costs examined. It will also be reviewed to ensure that family farms have a good opportunity to gain entry to the scheme.

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Rhodri, with respect, you should come in, sit down and listen to the debate for a few minutes. Then you can make an intervention.

Carwyn Jones: We are also committed to reducing the amount of red tape in the industry and ensuring that farmers find a way around it. Some of it is unavoidable. The JIGSAW programme, which is aimed at helping farmers understand how subsidies are paid and how to fill in forms, is coming on at a rate of knots. We have set up records clinics to enable farmers to receive advice on how to fill in forms and get them right to start off with rather than having them sent back and forth.

We are considering easing meat hygiene inspection charges on abattoirs. Money has been set aside in the budget to meet the requirements of the Maclean report. An independent appeals panel will be set up in April to consider appeals by Welsh farmers against subsidy penalties imposed on them under EU guidelines.

Let me now turn to young entrants. I was surprised to read in *The Western Mail* today that a Plaid Cymru MEP wished Brussels to impose something on the National Assembly for Wales. If a Labour MP had suggested that something should be imposed on the Assembly by the UK Parliament, there would have been uproar. I am not prepared to listen

Mae hynny'n helpu pobl i oresgyn eu hofn o fynd at rywun am gyngor. Mae'r rhwydwaith wrthi'n cael ei adeiladu. Bydd cyllideb o £42 miliwn gan gynllun Tir Gofal yn ystod y tair blynedd nesaf. Bu Tir Gofal yn gynllun llwyddiannus. Fodd bynnag, fe'i hadolygir ym mis Ebrill pan gaiff ei effeithiolrwydd a'i gostau gweinyddol eu harchwilio. Fe'i hadolygir hefyd er mwyn sicrhau bod ffermydd teuluol yn cael cyfle teg i ymuno â'r cynllun.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Rhodri, a phob parch, dylech ddod i mewn, eistedd i lawr a gwrandao ar y ddadl am ychydig funudau. Wedyn gallwch ymryd.

Carwyn Jones: Yr ydym hefyd yn ymrwymedig i leihau'r fiwrocratiaeth sydd yn y diwydiant a sicrhau y gall ffermwyr ymdopi â hi. Mae peth biwrocratiaeth yn anochel. Mae rhaglen JIGSAW, sydd â'r nod o helpu ffermwyr i ddeall sut y telir cymorthdaliadau a sut y dylid llenwi ffurflenni, yn datblygu'n gyflym. Yr ydym wedi sefydlu clinigau cofnodion i alluogi ffermwyr i gael cyngor ynglŷn â llenwi ffurflenni a sicrhau eu bod yn gywir o'r cychwyn yn hytrach na gorfod eu hanfon yn ôl ac ymlaen.

Yr ydym yn ystyried lleihau'r taliadau a godir ar ladd-dai am arolygiadau hylendid cig. Clustnodwyd arian yn y gyllideb i fodloni gofynion adroddiad Maclean. Caiff panel apeliadau annibynnol ei sefydlu ym mis Ebrill a fydd yn ystyried apeliadau gan ffermwyr Cymru yn erbyn y cosbau cymhorthdal a bennwyd o dan ganllawiau'r UE.

Gadewch imi droi at newydd-ddyfodiaid. Synnais wrth ddarllen *The Western Mail* heddiw fod Aelod Seneddol Ewropeaidd Plaid Cymru am i Frwsel orfodi rhywbeth ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pe bai AS Llafur wedi awgrymu y dylai Llywodraeth y DU orfodi rhywbeth ar y Cynulliad, byddai banllef o brotest. Nid wyf yn barod i wrando

to such viewpoints, when they go against the Assembly.

I do not set my face against helping young entrants. We have considered the young entrants' scheme proposed by Plaid Cymru. It has been analysed and was found to be wanting by the Agricultural Development Advisory Service. I met with young farmers clubs back in November, and I am waiting to hear their views as to what they would like me to do. They have ideas and when I receive them, I will take the question of young entrants forward. Young entrants have not been forgotten. The European scheme, pushed by Plaid Cymru, has been shown to be defective by our own independent research.

There are big challenges ahead. I know that my time is coming to an end so may I deal quickly with the—

The Deputy Presiding Officer: It came to an end five minutes ago.

Carwyn Jones: I thought I had 15 minutes—

The Deputy Presiding Officer: No, 10.

Carwyn Jones: Let me deal quickly with the other two amendments. The Conservatives' amendment 1 deals with substituting new words in the motion. I cannot support that. This is a Government motion and it is a matter for the Assembly to agree or disagree.

The Conservatives' amendment 3, dealing with a level playing-field, is too vague for me to support it. The words 'level playing-field' could be interpreted as saying that we should join the euro. I am sure that the Welsh Conservatives were not trying to say that, but that is one way in which it could be interpreted. I hope I am doing them a favour by not supporting that amendment.

We must work together to help our farmers. I look forward to working with you all, and I

ar safbwyntiau o'r fath, pan ânt yn groes i'r Cynulliad.

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i helpu newydd-ddyfodiaid. Yr ydym wedi ystyried y cynllun newydd-ddyfodiaid a gynigiwyd gan Blaid Cymru. Fe'i dadansoddwyd gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Datblygu Amaethyddol a ddaeth i'r casgliad ei fod yn ddiffygiol. Cyfarfûm â chlybiau ffermwyr ifanc ym mis Tachwedd, ac yr wyf yn aros i glywed eu barn ar yr hyn yr hoffent imi ei wneud. Mae ganddynt syniadau a phan dderbyniaf hwy, af â mater y newydd-ddyfodiaid yn ei flaen. Nid anghofiwyd am newydd-ddyfodiaid. Profodd ein hymchwil annibynnol ein hunain fod y cynllun Ewropeaidd a hyrwyddwyd gan Blaid Cymru yn ddiffygiol.

Mae sialensau mawr o'n blaenau. Gwn fod fy amser yn dirwyn i ben felly a gaf ymdrin yn gyflym â'r—

Y Dirprwy Lywydd: Daeth i ben bum munud yn ôl.

Carwyn Jones: Yr oeddwn yn meddwl bod gennyf 15 munud—

Y Dirprwy Lywydd: Nac oes, 10.

Carwyn Jones: Gadewch imi ymdrin yn gyflym â'r ddau welliant arall. Mae gwelliant 1 y Ceidwadwyr yn gofyn am newid geiriau yn y cynnig. Ni allaf gefnogi hynny. Cynnig y Llywodraeth ydyw ac mae'n fater i'r Cynulliad gytuno neu anghytuno ag ef.

Mae gwelliant 3 y Ceidwadwyr, yn sôn am chwarae teg, yn rhy annelwig imi ei gefnogi. Gellid dehongli'r geiriau 'gyfle teg' fel ffordd o ddweud y dylem ymuno â'r ewro. Yr wyf yn siŵr nad oedd Ceidwadwyr Cymru yn ceisio dweud hynny, ond dyna un ffordd y gellid ei ddehongli. Gobeithiaf fy mod yn gwneud cymwynas â hwy drwy beidio â chefnogi'r gwelliant hwnnw.

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i helpu ein ffermwyr. Edrychaf ymlaen at weithio â phob

urge you to support the motion.

un ohonoch, ac apeliaf arnoch i gefnogi'r cynnig.

The Deputy Presiding Officer: Rhodri, I did see you slipping out but you must have slipped back and I did not see you. I apologise for that. It must have been Cynog who slipped in at the end. So I recognise that you are here. I say that because I do not want people to read the record and think that you were trying to intervene without being here.

Y Dirprwy Lywydd: Rhodri, fe'ch gwelais yn mynd allan ond rhaid eich bod wedi dychwelyd heb imi weld. Ymddiheuraf am hynny. Rhaid mai Cynog a ddaeth i mewn ar y diwedd. Felly yr wyf yn cydnabod eich bod yma. Dywedaf hynny am nad wyf am i bobl ddarllen y cofnod gan feddwl eich bod yn ceisio ymyrryd heb fod yma.

I have selected six amendments to the motion and have grouped these according to party group. I call on Peter Rogers to propose amendments 1 and 3 in his name and that of William Graham.

Dewisais chwe gwelliant i'r cynnig gan eu trefnu yn ôl grwpiau pleidiau. Galwaf ar Peter Rogers i gynnig gwelliannau 1 a 3 yn ei enw ef ac enw William Graham.

Peter Rogers: How many minutes do I have?

Peter Roges: Faint o funudau sydd gennyf?

The Deputy Presiding Officer: Everybody has five minutes. There is no pressure. Everybody who wants to contribute will get a chance to do so. But if everybody can stick to five minutes, it would help.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gan bawb bum munud. Nid oes unrhyw bwysau. Bydd pawb sydd am gyfrannu yn cael cyfle i wneud hynny. Ond byddai o gymorth pe bai pawb yn cadw at bum munud.

Peter Rogers: I propose the following amendments in my name and that of William Graham.

Peter Rogers: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn fy enw i ac yn enw William Graham.

I propose amendment 1. After '*the National Assembly*,' replace text with

Cynigiaf welliant 1. Ar ôl '*y Cynulliad Cenedlaethol*' dileer y testun a rhoi'r canlynol yn ei le

acknowledges the long-term objectives as laid out in the rural development plan for Wales 2000-06, and recognises the importance of a partnership between the Assembly, farmers and their representatives in securing a long-term and sustainable future for the industry in Wales

yn arddel yr amcanion tymor hir fel y'u nodwyd yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer 2000-06, ac yn cydnabod pam mor bwysig yw partneriaeth rhwng y Cynulliad, ffermwyr a'u cynrychiolwyr o ran sicrhau dyfodol cynaliadwy yn y tymor hir i'r diwydiant yng Nghymru.

I also propose amendment 3. At the end of the motion add:

Cynigiaf hefyd welliant 3. Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger:

, which can only be achieved on the basis of a level playing-field for the industry based on a fair deal for farmers.

Ni ellir cyflawni hyn oni chaiff y diwydiant gyfle teg, yn seiliedig ar fargen deg ar gyfer ffermwyr.

I declare an interest as an Anglesey farmer. My message is loud and clear: unless there is

Datganaf fuddiant fel un sydd yn ffermio ar Ynys Môn. Mae fy neges yn gwbl glir: oni

a change of direction, this industry will have no future. We want less glossy strategy documents and partnership agreements, and more practical, common sense measures. Farm debts have risen to £10 billion and 73 jobs have been lost from Welsh farms. We do not need any more back slapping motions like this one. This is why I ask Members to support amendment 1, which offers a more reasonable alternative to the original motion and, in particular, recognises the important role of working with the industry. The industry does not want the bureaucratic nonsense, which this Government is peddling. Farmers do not want a mountain of paperwork, they want to farm. Unless they do, they do not have a future. They do not want the Government gilt-edging European regulation. They do not want those mindless, petty measures from Brussels that say that you cannot use tractors for more than two hours because of the danger to body vibration.

More observant Members will know that we have been campaigning for honest food labelling. The Government should not allow inferior foreign produce to be sold in Wales at the expense of our home market. For example, why do we allow inferior foreign food packaged in Wales to be passed as Welsh or British? That is a disgrace. The confirmation of BSE in France meant that the people who suffered were the British beef farmers because all that meat came flooding into this country. This must be fundamental to our desire to promote the Welsh brand because we need a level playing-field for the industry.

4:20 p.m.

The Assembly has one or two good schemes, particularly, Tir Gofal. The Minister for Rural Affairs has already admitted that the partnership document was misleading on this funding. It is time to consider whether the settlement is adequate for the scheme's needs. Tir Gofal shows that environmental

newidir cyfeiriad, ni fydd unrhyw ddyfodol i'r diwydiant hwn. Mesurau synnwyr cyffredin mwy ymarferol sydd eu hangen arnom yn hytrach na mwy o gytundebau partneriaeth a dogfennau strategaeth ar bapur sgleiniog. Mae dyledion ffermio wedi cynyddu i £10 biliwn a chollwyd 73 o swyddi ar ffermydd yng Nghymru. Nid oes angen rhagor o gynigion hunanfodlon fel yr un sydd ger ein bron. Dyma pam fy mod yn gofyn i'r Aelodau gefnogi gwelliant 1, sydd yn gynnig mwy rhesymol na'r un gwreiddiol ac, yn arbennig, yn cydnabod pa mor bwysig yw rôl y rhai sydd yn gweithio yn y diwydiant. Nid yw'r diwydiant am gael y sothach biwrocataidd, a argymhellir gan y Llywodraeth hon. Nid yw ffermwyr am gael pentwr o waith papur, ffermio y maent am ei wneud. Oni wnânt hynny, ni fydd ganddynt ddyfodol. Nid ydynt am i'r Llywodraeth roi sêl ei bendith ar reoliadau Ewropeaidd. Nid ydynt am gael y mesurau bach gwirion hynny o Frwsel sydd yn dweud na ellir defnyddio tractor am fwy na dwy awr oherwydd y perygl o ddirgryniadau i'r corff.

Gwyr yr Aelodau mwy sylwgar ein bod wedi bod yn ymgyrchu dros labelu bwyd yn onest. Ni ddylai'r Llywodraeth ganiatáu i gynnyrch tramor o safon is gael ei werthu yng Nghymru ar draul ein marchnad gartref. Er enghraifft, pam ein bod yn caniatáu i fwydydd tramor o safon is gael eu pecynnu yng Nghymru â label Cymru neu Brydain arnynt? Mae hynny'n warthus. Yn sgîl cadarnhau bod BSE yn Ffrainc ffermwyr cig eidion Prydain a oedd yn dioddef am fod yr holl gig hwnnw wedi llifo i mewn i'r wlad hon. Rhaid i hyn fod wrth wraidd ein hawydd i hyrwyddo brand Cymru gan fod angen chwarae teg ar gyfer y diwydiant.

Mae gan y Cynulliad un neu ddau o gynlluniau da, yn enwedig Tir Gofal. Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi cyfaddef eisoes bod y ddogfen bartneriaeth yn gamarweiniol ynglŷn ag ariannu. Mae'n bryd ystyried a yw'r setliad yn ddigonol ar gyfer anghenion y cynllun. Dengys Tir Gofal

stewardship and agricultural modernisation are not opposed and can feed off one another. The scheme also creates local jobs, new businesses and injects money into the local economy.

If we have the political will to try to save Corus we should have the same commitment to the future of farming in Wales. I fundamentally disagree with Carwyn's recent comments that the Assembly cannot tackle the challenges facing farming. He is wrong. It is no good blaming the strong pound for the industry's ills when the Government fails to draw down the agri-monetary compensation available.

There is no better testament to that than a letter that I received from a young farmer's wife this week. Her heartfelt words expressed farming families' sense of disappointment and desperation across Wales. She writes:

'We are young farmers. Since the Welsh Assembly in Cardiff has got underway all our payments have been slowed. We know that Scotland has had its suckler cow payments since October/November 2000. We have not received ours.

In the last couple of years, we have seen family and friends struggling and some failing to carry on due to the long wait for subsidies. Since the protests in Holyhead everything has quietened down. That is not because things have got better, but because everyone has given up.'

Her words say it all. This farmer's wife, and thousands like her struggle to survive daily. Her words show farmers' sense of resignation to their fate, their sense that no one cares and their sense of betrayal. We should all be frightened of that. This message should bring shame upon this coalition that it cannot even get payments out on time. To this farmer's wife and many more like her, suckler cow payments are the lifeblood of their survival. They are needed to cover the cost of winter-feeding and labour.

The Minister for Rural Affairs should apologise for this mess. Instead of doing so he went to Brecon and told a meeting that three quarters of claimants had been paid. A

nad yw gwarchod amgylcheddol a moderneiddio amaethyddol yn groes i'w gilydd ac y gall y naill elwa ar y llall. Mae'r cynllun hefyd yn creu swyddi lleol, busnesau newydd ac yn chwistrellu arian i'r economi leol.

Os oes gennym ewyllys wleidyddol i arbed Corus, dylem wneud yr un ymrwymiad i ddyfodol ffermio yng Nghymru. Ni chytunaf o gwbl â sylwadau diweddar Carwyn na all y Cynulliad fynd i'r afael â'r sialensau a wyneba'r byd ffermio. Mae'n anghywir. Nid oes diben beio'r bunt gryf am drafferthion y diwydiant pan fo'r Llywodraeth yn methu â hawlio'r iawndal amaeth-arianyddol sydd ar gael.

Nid oes gwell tystiolaeth o hynny na llythyr a gefais gan wraig i ffermwr ifanc yr wythnos hon. Yr oedd ei geiriau ingol yn mynegi'r siom a'r anobaith a deimlir gan deuluoedd ledled Cymru sydd yn ffermio. Ysgrifenna:

Mae ei geiriau'n dweud y cyfan. Mae'r wraig ffarm hon fel miloedd eraill fel hi, yn brwydro'n feunyddiol i oroesi. Dengys ei geiriau fod ffermwyr wedi anobeithio, eu bod yn teimlo nad oes neb yn poeni amdanynt a'u bod wedi eu bradychu. Dylai'r neges hon godi cywilydd ar y glymblaid hon nad yw hyd yn oed yn gallu sicrhau taliadau prydlon. I'r wraig fferm hon a llawer mwy yn yr un sefyllfa â hi, mae taliadau lloi sugno yn fodd o oroesi. Mae eu hangen i dalu am gost porthi gaeaf a llafur.

Dylai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ymddiheuro am yr anhrefn hon. Yn hytrach na gwneud hynny aeth i Aberhonddu a dweud wrth gyfarfod bod tri chwarter o'r

straw poll was conducted at that meeting and only one farmer had been paid. I have heard of farmers who have won cases against the Assembly for payments going back many years. Farmers are being fiddled out of their money. The Assembly has admitted that farmers are entitled to money but refuses to pay interest on payments that should have been paid out. I met a lady yesterday who is owed £11,000 since 1995. That has still not been paid and I know that she will not get the interest on it. Not only do farmers struggle to survive in the absence of what they should already have been paid but, even when the Assembly admits its mistake, it will not pay the real value of the payments. That is unfair and unjust and it must be stopped immediately.

I am sure that the Minister is a bright fellow but does he really understand what is going on in this industry? A clear example of this is illustrated in a case that I am fighting at the moment. It boils down to a farmer being cheated out of £2,500 because of inflexibility and stubbornness. In your reply to me on this matter, Carwyn, you told me that the civil servants said that the difference between the English and the Welsh case is the distinction between a 'spot check' and 'administrative checks'. They have dreamt up this distinction because they want to avoid the fact that this case is exactly the same as one won by an English farmer who took his argument to Brussels.

It took me six weeks and six telephone calls to Carwyn's office before I could get a reply to this. That is not good enough. Minister, you should not be rubber-stamping letters that have been prepared by civil servants and farmers' cases should not be getting lost. As a lawyer you should know that ignorance of the law is no defence. Ignorance of the farmer's plight is no defence against the charge of betrayal. Welsh farmers deserve better. They demand a fair deal from the Assembly and a level playing field so that

ceiswyr wedi eu talu. Cynhaliwyd pŵl sydyn yn y cyfarfod hwnnw a dim ond un ffermwr a oedd wedi ei dalu. Clywais am ffermwyr a enillodd achosion yn erbyn y Cynulliad am daliadau sydd yn mynd yn ôl flynyddoedd lawer. Mae ffermwyr yn colli arian sydd yn ddyledus iddynt. Cyfaddefodd y Cynulliad fod hawl gan y ffermwyr i'r arian ond mae'n gwrthod talu llog ar daliadau y dylid bod wedi eu gwneud. Cyfarfûm â gwraig ddoe y mae ar y Llywodraeth £11,000 iddi ers 1995. Ni thalwyd hynny hyd yma a gwn na chaiff log arno. Mae ffermwyr nid yn unig yn brwydro i oroesi lle nad ydynt wedi cael yr arian y dylent fod wedi ei gael erbyn hyn ond, hyd yn oed pan fydd y Cynulliad yn cwmpo ar ei fai, ni fydd yn talu gwir werth y taliadau. Mae hynny'n annheg ac yn anghyfiawn a rhaid i hynny ddod i ben ar unwaith.

Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ddyn deallus ond a yw'n wir ddeall yr hyn sydd yn digwydd yn y diwydiant hwn? Mae gennyf enghraifft amlwg o hyn mewn achos yr wyf yn ymwneud ag ef ar hyn o bryd. Gwraidd y broblem yw bod ffermwr yn colli £2,500 a hynny'n annheg oherwydd styfnigrwydd a diffyg hyblygrwydd. Yn eich ateb imi ar y mater hwn, Carwyn, dywedasoeh wrthyf i'r gweision sifil ddweud mai'r gwahaniaeth rhwng yr achos yng Nghymru a'r un yn Lloegr oedd y gwahaniaeth rhwng 'hapwiriad' a 'gwiriadau gweinyddol'. Maent wedi creu'r gwahaniaeth hwn er mwyn osgoi'r ffaith bod yr achos hwn yn dilyn yn union yr achos a enillodd ffermwr yn Lloegr a oedd wedi apelio i Frwsel.

Cymerodd chwe wythnos a chwe galwad ffôn i swyddfa Carwyn cyn imi gael ateb am hyn. Nid yw hynny'n ddigon da. Weinidog, ni ddylech fod yn arwyddo heb feddwl lythyrau a baratowyd gan weision sifil ac ni ddylai achosion ffermwyr fynd ar goll. Fel bargyfreithiwr dylech wybod nad yw anwybodaeth o'r gyfraith yn amddiffyniad. Nid yw anwybodaeth o drafferthion y ffermwyr yn amddiffyniad yn erbyn y cyhoeddiad o frad. Mae ffermwyr Cymru yn haeddu gwell. Mynnant fargen deg gan y

they can compete. Unless we begin to address these problems there will be no future for the industry.

Elin Jones: Cynigiau welliannau 2, 4, 5 a 6 yn enw Jocelyn Davies.

Cynigiau welliant 2. Yn y llinell gyntaf, rhodder y gair ‘*nodu*’ yn lle ‘*cefnogi*’.

Cynigiau welliant 4. Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel cymal newydd:

yn cadarnhau bod amaethyddiaeth yn ddiwydiant sylfaenol o werth holl bwysig i economi Cymru ac yn cydnabod bod cynhyrchu bwyd a defnydd tir yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu cynaliadwy.

Cynigiau welliant 5. Ychwaneger fel cymal newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn ystyried mabwysiadu dangosyddion eraill, yn ogystal â chynnyrch mewnwladol crynswth, er mwyn mesur cyfraniad amaethyddiaeth i economi Cymru.

Cynigiau welliant 6. Ychwaneger fel cymal newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod ffermwyr ifanc yn mynd i mewn i'r diwydiant amaeth ac yn gresynu ynghylch y ffaith nad yw Llywodraeth glymblaid Cymru wedi gweithredu penderfyniad y Pwyllgor i roi arian ar gyfer sefydlu cynllun newydd-ddyfodiaid fel un o'i brif flaenoriaethau.

Yr wythnos diwethaf, trafodasom drafferthion y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru—dur yn bennaf. Gobeithio na chlywn newyddion drwg ynglŷn â Llanwern neu unrhyw waith dur arall dros y dyddiau nesaf. Yr un yw'r rhesymau sydd wrth wraidd trafferthion diwydiannau gweithgynhyrchu â'r trafferthion presennol sydd yn taro'r diwydiant amaeth: globalaiddio'r farchnad, gallu'r cwsmer i brynu o unrhyw le yn y byd, lle bynnag y

Cynulliad a chwarae teg fel y gallant gystadlu. Oni ddechreuwn fynd i'r afael â'r problemau hyn ni fydd unrhyw ddyfodol i'r diwydiant.

Elin Jones: I propose amendments 2, 4, 5 and 6 in the name of Jocelyn Davies.

I propose amendment 2. In the first line replace the word ‘*supports*’ with ‘*notes*’.

I propose amendment 4. Add at end of motion as a new clause:

confirms that agriculture is a basic industry of vital importance to the Welsh economy and recognises that food production and land use is central to achieving the National Assembly's commitment to sustainable development.

I propose amendment 5. Add at the end of motion as a new clause:

considers the adoption of alternative indicators, in addition to gross domestic product, to measure the contribution of agriculture to the Welsh economy.

I propose amendment 6. Add at end of motion as a new clause:

recognises the importance of ensuring that young farmers enter the agriculture industry and regrets the failure of the coalition Government of Wales to implement the Committee decision to finance the establishment of a young entrants scheme as one of its main priorities.

Last week, we discussed the difficulties facing the manufacturing industries in Wales—steel in particular. I hope that we will not hear bad news regarding Llanwern or any other steelworks during the next few days. The reasons for the difficulties facing manufacturing industries and the current difficulties hitting the agriculture industry are, in essence, the same: market globalisation, the customer's ability to purchase from anywhere in the world,

mae rhataf wedi ei gyplysu â gallu'r cynhyrchydd i symud cyfalaf a chynhyrchu lle mae'r gost ar ei isaf. O ganlyniad, gall yr archfarchnad neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn brynu cig eidion rhad o'r Ariannin yn hytrach nag o Gymru, gall Marks & Spencer brynu dillad o Dewhirst ym Moroco yn hytrach nag o Dewhirst yn Llanbed a gall y diwydiant ceir brynu dur yn rhatach o Corea nag o Lanwern.

Tra bo Llywodraeth San Steffan yn parhau gyda pholisi economaidd sydd yn cynnal lefel uchel y bunt, bydd pob diwydiant yng Nghymru sydd yn masnachu mewn marchnad fyd-eang yn profi anawsterau i gystadlu, boed hynny'n ddiwydiant dur neu fwyd. Bydd bygythiad i swyddi fel yn Llanwern ac Abergwaun neu golli swyddi fel y 165 yn Dewhirst yn Llanbed neu'r 3,800 yn y diwydiant amaeth y llynedd yn parhau. Bydd Amcan 1, 2 a 3 a'r cynllun datblygu gwledig gyda'i gilydd yn ei ffeindio'n anodd i wrthdroi'r dirywiad hwn.

Clywsom eisoes am y mecanwaith ym mholisi amaethyddol yr UE i ddigolledu am werth uchel y bunt. Byddai hynny'n werth tua £20 miliwn i'r diwydiant amaeth yng Nghymru, ond mae angen ei hawlio. Yr wyf yn falch o glywed y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn datgan ei gefnogaeth am iawndal amaeth arianyddol ond, gofynnaf iddo barhau i fynnu bod y Trysorlys yn hawlio'r arian hwn sydd yn ddyledus i ffermwyr Cymru.

Mae llawer i'w groesawu yn y cynllun datblygu gwledig. Croesawaf y pwyslais ar farchnata a phrosesu. Mae gennym gynnyrch amaethyddol o ansawdd uchel yng Nghymru ond rhaid inni allu ei farchnata a darbwyllw cwsmeriaid tramor a Chymreig i'w brynu. Yn hyn o beth, byddai logo ar fwydydd Cymreig yn holl bwysig. Yr ydym wedi disgwyl yn eiddgar am y fath logo ers amser maith. Pryd y bydd y logo Cymreig ar gael ar gyfer cynhyrchwyr Cymreig?

Croesawaf hefyd y cynlluniau Tir Gofal a throsi organig a'r adnoddau ychwanegol sydd

wherever it is cheapest, coupled with the producer's ability to move capital and production where the costs are lowest. Consequently, supermarkets or the Ministry of Defence can purchase cheap beef from Argentina rather than from Wales, Marks & Spencer can purchase clothes from Dewhirst in Morocco rather than from Dewhirst in Lampeter and the automotive industry can purchase steel more cheaply from Korea than from Llanwern.

While the Westminster Government persists with an economic policy that maintains the high level of the pound, each industry in Wales trading in a global market will experience difficulties in competing, be it the steel or the food industry. Threats to jobs in Llanwern and Fishguard or job losses such as the 165 at Dewhirst in Lampeter or the 3,800 in the agriculture industry last year will continue. Objective 1, 2 and 3 and the rural development plan together will find it difficult to reverse this decline.

As we have heard, there is a mechanism to compensate for the high value of the pound in EU agricultural policy. That would be worth about £20 million to the agriculture industry in Wales, but it must be claimed. I am pleased to hear the Minister for Rural Affairs voicing his support for agri-monetary compensation, but I ask him to continue to insist that the Treasury claims this money that is due to farmers in Wales.

There is much to be welcomed in the rural development plan. I welcome the emphasis on marketing and processing. We have high quality agricultural produce in Wales but we must be allowed to market it and persuade foreign and Welsh customers to buy it. In this respect, a logo on Welsh foods would be all-important. We have waited for such a logo for some time. When will this Welsh logo be available to Welsh producers?

I also welcome the Tir Gofal and organic conversion schemes and the additional

wedi eu dyrannu i'r ddau gynllun hyn dros y blynyddoedd diwethaf. Heb os nac oni bai, mae i ffermio le canolog mewn datblygu cynaliadwy. Mae'r gallu i gynhyrchu a phrosesu bwyd yn lleol yn gyfraniad holl bwysig at gynaliadwyedd ein cymunedau. Gydag 80 y cant o dir Cymru yn dir amaethyddol, mae gan amaethyddiaeth hefyd rôl ganolog mewn cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol drwy gylluniau megis Tir Gofal. Dylid hefyd edrych o ddifrif ar gnydau ynni. Yr wyf yn siomedig mai ychydig iawn o gydnabyddiaeth sydd yn y cynllun datblygu gwledig i botensial sylweddol cnydau ynni fel cyfraniad pwysig i ynni adnewyddadwy i'r dyfodol.

Rhaid i amaethyddiaeth, sef cynhyrchu bwyd a'r defnydd o 80 y cant o dir Cymru, fod yn ganolog i'r agenda datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae mesur gwerth amaethyddiaeth yn ôl ei chyfraniad i'r CMC yn unig yn annigonol, fel y mae mesur unrhyw weithgaredd yn yr un modd at bwrpas cynaliadwyedd yn annigonol. Rhaid inni fabwysiadu dangosyddion sydd yn fwy cydnaws â'r agenda gynaliadwy. Yr wyf yn falch o glywed y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn datgan cefnogaeth i hyn ac i'n gwelliant 5.

Wrth groesawu Tir Gofal a throsi organig, rhaid cofio bod rhywfaint o'r adnoddau ychwanegol ar eu cyfer wedi dod o fodwleiddio taliadau yn uniongyrchol i ffermwyr. Cododd yr NFU bwynt pwysig a diddorol ddoe ynglŷn â gwybodaeth dryloyw am arian a arbedwyd drwy fodwleiddio a'r cyllid cyfatebol a ddaeth yn ei sgîl ac ymhle yn union y gwariwyd y symiau hyn. Byddai'r rheini ohonom a gefnogodd egwyddor fodwleiddio yn croesawu cael tablau ariannol gan y Weithrediaeth yn dangos ym mha le y gwariwyd adnoddau modwleiddio a'r cyllid cyfatebol cysylltiedig. Gwyddom na chafodd yr arian hwn ei wario ar gynllun mynediad i bobl ifanc.

4:30 p.m.

Cymerais ran mewn cyfweiliad ar Radio

resources allocated to these two schemes over recent years. Without doubt, farming has a central role to play in sustainable development. The ability to produce and process food locally is essential to the sustainability of our communities. As 80 per cent of Wales's land area is agricultural land, agriculture is also central to environmental sustainability through schemes such as Tir Gofal. Energy crops should also be given serious consideration. I am disappointed that there is little acknowledgement in the rural development plan of the great potential of energy crops as an important contribution to renewable energy in future.

Agriculture, that is food production and the use of 80 per cent of Wales's land area, must be at the heart of the sustainable development agenda. In this respect, measuring the value of agriculture according to its contribution to GDP only is inadequate, as measuring the value of any activity for sustainability purposes in this way is inadequate. We must adopt indicators that are more compatible with the sustainable agenda. I am pleased to hear the Minister for Rural Affairs voicing his support for this and for our amendment 5.

In welcoming Tir Gofal and organic conversion, it must be remembered that some of the additional resources for these have come from modulating direct payments to farmers. The NFU raised an important and interesting point yesterday regarding the transparency of information on money saved by modulation and the match funding that followed and where exactly these sums were spent. Those of us who supported the principle of modulation would welcome financial tables from the Executive, showing where the modulation and the associated match funding resources were spent. We know that this money was not spent on a young entrants scheme.

I took part in an interview on Radio Cymru a

Cymru ychydig o wythnosau yn ôl. Ar yr rhaglen honno yr oedd Cymro a oedd wedi elwa o gynllun cymorth cychwynnol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ffermwyr ifanc, ond nid oedd ei fferm yng Nghymru. Mae'n ffermio yn Ffrainc bellach. Mae cynllun o'r fath yn weithredol yn Ffrainc ac mewn rhannau helaeth o'r Undeb Ewropeaidd, ond nid yng Nghymru.

Yr wythnos diwethaf, pleidleisiodd Senedd Ewrop yn gyfan, nid dim ond aelodau Plaid Cymru, o blaid gwneud cynllun mynediad yn orfodol ar aelod wladwriaethau. Bydd Pwyllgor y Rhanbarthau, yr wyf yn aelod ohono, hefyd yn pleidleisio ar y mater hwn yn y dyfodol agos.

Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i wrthod cydnabod gwerth cynllun o'r fath, ar sail adroddiad arwynebol a mympwyol gan ADAS Consulting y llynedd. Gan yr ifanc y mae'r hyder a'r syniadau i gynnal y diwydiant amaethyddol ond mae cyfartaledd oedran ffermwyr Cymru dros 55 oed. Felly, gan y to hyn y mae'r llyfr siec a'r gair olaf. Nid oes amheuaeth fod angen ymyrraeth gyhoeddus i gymell trosglwyddiad cynharach o ffermydd o un genhedlaeth i'r nesaf ac i ddenu pobl newydd i mewn i'r diwydiant amaethyddol. Mae angen hynny'n fwy nag erioed mewn cyfnod du yn y diwydiant.

Ar welliannau y Torïaid, cefnogwn welliant 1 mewn egwyddor ond byddwn yn ymatal oherwydd y byddai derbyn y gwelliant hwnnw yn dileu ein gwelliannau ein hunain, pe byddent yn llwyddiannus. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3.

Mae'r cynnig yn gofyn inni gefnogi gwaith y Gweinidog ar sail y cynllun datblygu gwledig a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'. Fodd bynnag, dim ond nodi hynny y byddwn am ei wneud heddiw. Byddwn yn cefnogi gwaith y Gweinidog yn y dyfodol os bydd yn barod i gadarnhau rôl ganolog amaethyddiaeth yn strategaeth datblygu cynaliadwy y Llywodraeth ac i osod pobl ifanc yn flaenllaw yn ei gynlluniau ar

few weeks ago. On that programme there was a Welshman who had benefited from the European Union's installation aid scheme for young farmers, but his farm was not in Wales. He now farms in France. Such a scheme is operational in France and across much of the European Union, but not in Wales

Last week, the European Parliament as a whole, not only Plaid Cymru's members, voted in favour of making a new entrants scheme compulsory for member states. The Committee of the Regions, of which I am a member, will also vote on this matter in the near future.

This Government continues to refuse to acknowledge the value of such a scheme, on the basis of a superficial and arbitrary report by ADAS Consulting last year. It is the young who have the confidence and the ideas to sustain the agricultural industry but the average age of farmers in Wales is over 55. Therefore, the older generation holds the chequebook and has the last word. There is no doubt that we need public intervention to encourage earlier transfer of farms from one generation to the next and to attract new people into the agricultural industry. That is needed more than ever in these dark days for the industry.

On the Tories' amendments, we support amendment 1 in principle but will abstain because adopting that amendment would invalidate our own amendments, if they were adopted. We will support amendment 3.

The motion asks us to support the Minister's work based on the rural development plan and 'Putting Wales First: A Partnership Agreement for the People of Wales'. However, we will only wish to note that today. We will support the Minister's work in the future if he is prepared to affirm a central role for agriculture in the Government's sustainable development strategy and to give a prominent place to

gyfer amaeth, fel arwydd o'i hyder yn nyfodol ffermio yng Nghymru.

Karen Sinclair: I will respond to Jocelyn's amendment 6 on measures to ensure that young farmers enter the agriculture industry. Members of the Agriculture and Rural Development Committee will not be surprised about my stance on this. The rural development plan recognises the importance of ensuring that young farmers enter the agriculture industry. However, I dispute Plaid Cymru's proposal that a young entrants' scheme is the best way of achieving that.

The rural development plan refers consistently to maintaining a balanced age structure, developing innovation and measures that will sustain family farming. This document displays a strong commitment to supporting young people in the rural economy of Wales and to improving young people's skills and opportunities.

Plaid Cymru's amendment 6

'regrets the failure of the coalition Government of Wales to implement the Committee decision to finance the establishment of a young entrants scheme as one of its main priorities.'

In its initial budget discussion on 7 June 2000, the Agriculture and Rural Development Committee resolved that priority should be given to taking forward the results of the ADAS Consulting study on young entrants, which was presented to the Committee, of which I was a member at the time, on 5 July 2000. The overwhelming proof was that the scheme would not be of great benefit to young people wishing to enter farming. The summary concluded that a grant of 25,000 euros would not help young people to purchase a farm and that the number of young people likely to secure tenancies of a sufficient amount of land to farm a viable business was small. It went on to state that the grant was, therefore, likely to have only a marginal impact in enabling

young people in his plans for agriculture, as a sign of his confidence in the future of farming in Wales.

Karen Sinclair: Ymatebaf i welliant 6 Jocelyn ar fesurau i sicrhau y bydd ffermwyr ifanc yn mynd i mewn i'r diwydiant amaethyddol. Ni fydd Aelodau o'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn synnu at fy safbwynt ar hyn. Mae'r cynllun datblygu gwledig yn cydnabod pa mor bwysig ydyw sicrhau bod ffermwyr ifanc yn mynd i mewn i'r diwydiant amaethyddol. Fodd bynnag, ni dderbyniaf gynnig Plaid Cymru mai'r cynllun newydd-ddyfodiaid yw'r ffordd orau o gyflawni hynny.

Cyfeiria'r cynllun datblygu gwledig yn rheolaidd at gynnal strwythur oedran cytbwys, datblygu blaengaredd a mesurau a fydd yn cynnal ffermio teuluol. Dengys y ddogfen hon ymrwymiad cryf i roi cymorth i bobl ifanc yn economi wledig Cymru a gwella sgiliau a chyfleoedd pobl ifanc.

Mae gwelliant 6 Plaid Cymru

'yn gresynu ynghylch y ffaith nad yw Llywodraeth glymblaid Cymru wedi gweithredu penderfyniad y Pwyllgor i roi arian ar gyfer sefydlu cynllun newydd-ddyfodiaid fel un o'i brif flaenoriaethau.'

Yn ei drafodaeth gyntaf ar y gyllideb ar 7 Mehefin 2000, penderfynodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y dylid rhoi blaenoriaeth i weithredu ar ganlyniadau astudiaeth ADAS Consulting ar newydd-ddyfodiaid, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, yr oeddwn yn aelod ohono bryd hynny, sef 5 Gorffennaf 2000. Y dystiolaeth ddiwrthdro oedd na fyddai'r cynllun fawr o fudd i bobl ifanc sydd yn dymuno mynd i mewn i ffermio. Casgliad y crynodeb oedd na fyddai grant o 25,000 o ewros yn helpu pobl ifanc i brynu fferm ac mai ychydig o bobl ifanc a fyddai'n debygol o sicrhau deiliadaethau ar diroedd digon o faint i ffermio a chynnal busnes. Aeth ymlaen i nodi mai bach iawn felly fyddai effaith y grant yn fwy na thebyg o ran galluogi pobl ifanc na fyddent yn

young people who would not inherit family farms to enter farming. That is the crux. The final crucial statement noted that, if the grant were introduced, the main potential take-up would be in facilitating the transfer of management of a family farm to the next generation.

I cannot understand how a Committee that resolves to take forward the results of a study can read these statements as proof that the scheme should be one of the Committee's main priorities. The introduction of a scheme that would serve only to pay out £16,500, according to my calculations, for a process that would take place anyway would be an obscene waste of money. I made my stance clear at the time. It is money that could be spent on a huge range of other more beneficial measures to ensure a sustainable, innovative, adaptable and healthy rural economy in Wales. A scheme to encourage young entrants would be welcome. Carwyn said that he has met with young farmers and that he is open to ideas and to moving this forward. I have raised the question of, perhaps, bursaries for young entrants to farming. There are measures that can be explored that could be truly beneficial.

In general, I welcome the document. It is a fine example of joined-up government. I realise that that has become a somewhat over-used phrase, but the rural development plan for Wales demonstrates this principle. The plan successfully draws together the many different strands of policy and financial aid available to rural Wales into one cohesive vision for a vibrant, successful economy.

It has been reported that the European Parliament is considering aid for young farmers. It will also explore all sorts of avenues and at the moment, it has only voted to consider this issue. There is no directive, so that is very much a red herring. However, I have discussed the young entrants' scheme, the possibilities and the ways forward to encourage young people to enter farming.

etifeddu fferm deuluol i fynd i mewn i ffermio. Dyna graidd y mater. Nododd y gosodiad holl bwysig olaf mai hwyluso trosglwyddo fferm deuluol i'r genhedlaeth nesaf fyddai'r rhan fwyaf o geisiadau am grant pe bai'n cael ei gyflwyno.

Ni ddeallaf sut y gall Pwyllgor sydd yn penderfynu gweithredu ar ganlyniadau astudiaeth edrych ar y datganiadau hyn fel prawf y dylai'r cynllun fod yn un o brif flaenoriaethau'r Pwyllgor. Byddai cyflwyno cynllun na fyddai ond yn talu £16,500, yn ôl fy nghyfrifiadau i, am broses a fyddai'n digwydd fodd bynnag yn wastraff gwarthus o arian. Nodais fy safbwynt ar y pryd. Mae'n arian y gellid ei wario ar ystod eang o fesurau llawer mwy manteisiol er mwyn sicrhau economi wledig gynaliadwy, ddyfeisgar, hyblyg a iach yng Nghymru. Byddai croeso i gynllun i annog newydd-ddyfodiaid. Dywedodd Carwyn ei fod wedi cyfarfod â ffermwyr ifanc a'i fod yn agored i syniadau ac i ddatblygu hyn. Codais y mater o roi bwsariaethau efallai i newydd-ddyfodiad i ffermio. Ceir mesurau y gellir ymchwilio iddynt ac a allai fod o wir fantais.

Yn gyffredinol, croesawaf y ddogfen. Mae'n enghraifft wych o lywodraeth gydlynus. Sylweddolaf fod hwnnw wedi dod yn ymadrodd braidd yn ystrydebol erbyn hyn, ond dengys cynllun datblygu gwledig Cymru yr egwyddor hon. Mae'r cynllun yn llwyddo i dynnu ynghyd y gwahanol linyddau o bolisi a chymorth ariannol sydd ar gael i Gymru wledig mewn un weledigaeth gydlynus ar gyfer economi fywiog, lwyddiannus.

Nodwyd bod y Senedd Ewropeaidd yn ystyried rhoi cymorth i ffermwyr ifanc. Bydd hefyd yn ymchwilio i bob math o agweddau ac, mae ond wedi pleidleisio dros ystyried y mater hwn ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gyfarwydddeb, felly nid oes diben mynd ar y trywydd hwnnw. Fodd bynnag, trafodais y cynllun newydd-ddyfodiad, y posibiladau a'r ffordd ymlaen i annog pobl ifanc i fynd i mewn i ffermio.

Glyn Davies: I declare an interest as a farmer.

This is my first appropriate opportunity to say how privileged I feel to be serving the National Assembly as Chairman of the Agriculture and Rural Development Committee. It means a great deal to a man whose heart and roots lie deep in the Welsh countryside. When I hear politicians in Cardiff and Westminster taking decisions and making statements that will destroy country life, as I remember it in my youth, and change it in favour of some anaesthetised picture-book version, I despair.

Peter Rogers was right. He usually is. There is a question mark hanging over the very existence of farming as a significant industry in Britain. The scale of recent decline is staggering, but because of the dispersed nature of agriculture it passes by relatively unnoticed. Over the last two years, 40,000 jobs have been lost from UK farming. That is more than the entire UK workforce employed in steel making. Assembly Members are, rightly, deeply concerned about rumours that 2,000 jobs may go at Llanwern. At this stage, we do not know whether that is true, but we know that well over 2,000 jobs were lost from Welsh farming last year. That is why there is such despair on Wales's farms and such concern among the organisations that represent those farmers.

I was born into farming. Where today's kids use walking frames, I used a wheelbarrow and it was not a toy one. I have seen tough times on the farm, as has anybody involved in farming, but, perhaps because of that, I instinctively feel that the pendulum must eventually swing back. There will still be a future in farming. I must believe that, simply because of everything that I have done.

I only have time to mention a few of the issues that I believe will impact most on

Glyn Davies: Datganaf fuddiant fel ffermwr.

Dyma'r tro cyntaf imi gael cyfle i ddweud cymaint o fraint ydyw imi wasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Mae'n golygu cryn dipyn i ddyn sydd â'i galon a'i wreiddiau yn ddwfn yng nghefn gwlad Cymru. Pan glywaf am wleidyddion yng Nghaerdydd a San Steffan yn gwneud penderfyniadau a datganiadau a fydd yn dinistrio bywyd cefn gwlad fel y'i cofiaf o ddyddiau fy ieuenctid, a'i newid yn rhyw fath o ffug-ddarlun o ddedwyddwch perffaith, anobeithiaf.

Yr oedd Peter Rogers yn llygad ei le. Y mae felly fel arfer. Mae bodolaeth ffermio fel diwydiant o bwys ym Mhrydain yn y fantol. Mae maint y dirywiad diweddar yn ysgytwol, ond oherwydd natur wasgarog amaethyddiaeth, digwydd ymron yn ddarwybod. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, collwyd 40,000 o swyddi ffermio yn y DU. Mae hynny'n fwy na gweithlu cyfan y DU a gyflogir yn y diwydiant dur. Mae Aelodau'r Cynulliad yn pryderu'n fawr, a hynny'n hollol deg, am y sion y caiff 2,000 o swyddi eu colli yn Llanwern. Ar hyn o bryd, ni wyddom a yw hynny'n wir, ond gwyddom fod mwy na 2,000 o swyddi ffermio wedi eu colli yng Nghymru y llynedd. Dyna pam fod cymaint o anobaith ar ffermydd Cymru a chymaint o bryder ymhlith y sefydliadau a gynrychiola'r ffermwyr hynny.

Cefais fy ngeni i'r byd ffermio. Lle y mae plant heddiw yn defnyddio ffrâm gerdded, defnyddiwn ferfa ac nid tegan mohoni. Yr wyf wedi gweld cyni ar y fferm ar adegau, fel pawb sydd yn ffermio, ond, efallai, oherwydd hynny, teimlaf yn reddfod fod yn rhaid i'r rhod droi rywbyrd. Bydd i ffermio ddyfodol o hyd. Rhaid imi gredu hynny, dim ond oherwydd popeth a wneuthum.

Yn yr amser sydd gennyf ni allaf ond sôn am ychydig o faterion a fydd yn effeithio fwyaf

farming in the future. There are so many things that I would like to mention. We must have a strategy to encourage new entrants into agriculture. No industry can survive without the injection of the drive and dynamism that comes with new entrants. We can argue about the merits of a specific scheme—we have done to some extent today—but you seem to have turned your face against that. However, in my opinion, we can still do something. There is nothing to stop us finessing our existing schemes to encourage new entrants. We could set aside any future increases in the budget for the Tir Gofal scheme or the organic conversion scheme for the under 40s. That would give an added benefit of linking young, dynamic farmers to the avenues through which support will be channelled towards the industry in the future. It would encourage the older generation to step aside and give more young people their chance. We could consider changing the quota rules in favour of young people. There may be many better ideas, but we must have a strategy. The Government of Wales must have a strategy for new entrants.

4:40 p.m.

Tir Gofal is so much more than an agricultural support scheme. It promotes environmental good practice and produces the right to roam, on a wide-scale and voluntary basis. If Tir Gofal is successful, it could become an economic development scheme creating jobs off the farm and maintaining rural communities. Its predecessor pilot scheme, Tir Cymen, did exactly that. However, the scheme must have the necessary budget to succeed, otherwise it will not achieve the critical mass that it will need. Tir Gofal has the potential to give farming in Wales, a new sense of purpose, to make the industry, once again, one that the whole population appreciates and with which it sympathises.

The most worrying aspect of the future is the arrival of genetic modification. Like many others, I am not sure that I welcome it. However, the genie cannot be put back into

ar ffermio yn y dyfodol, yn fy marn i. Mae cymaint o bethau yr hoffwn eu crybwyll. Rhaid inni gael strategaeth a fydd yn annog newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth. Ni all unrhyw ddiwydiant oroesi heb egni a deinameg newydd-ddyfodiaid. Gallwn ddadlau ynghylch rhinweddau cynlluniau gwahanol—gwnaethom hynny i raddau heddiw—ond ymddengys imi eich bod yn cefnu ar hynny. Fodd bynnag, yn fy marn i, gallwn wneud rhywbeth o hyd. Nid oes dim byd i'n hatal rhag mireinio ein cynlluniau presennol er mwyn annog newydd-ddyfodiaid. Gallwn glustnodi unrhyw gynnydd pellach yn y gyllideb i gynllun Tir Gofal neu'r cynllun trosi organig i bobl o dan 40 oed. Byddai hynny yn rhoi mantais arall sef cysylltu ffermwyr ifanc, deinamig â'r llwybrau y caiff cymorth i'r diwydiant ei sianelu iddynt yn y dyfodol. Byddai'n annog y genhedlaeth hyn i gamu'n ôl a rhoi cyfle i fwy o bobl ifanc. Gallwn ystyried newid y rheolau cwota o blaid pobl ifanc. Efallai bod llawer o syniadau gwell, ond rhaid inni gael strategaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru lunio strategaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

Mae Tir Gofal gymaint mwy na chynllun cymorth amaethyddol. Mae'n hyrwyddo arfer amgylcheddol da ac yn rhoi'r hawl i grwydro, ar raddfa eang ac ar sail wirfoddol. Os bydd Tir Gofal yn llwyddo, gallai ddod yn gynllun datblygu economaidd a fydd yn creu swyddi heblaw am swyddi ar ffermydd a chynnal cymunedau gwledig. Gwnaeth y cynllun peilot rhagflaenol sef Tir Cymen hynny. Fodd bynnag, rhaid i'r cynllun gael y gyllideb angenrheidiol i lwyddo, neu fel arall ni fydd yn datblygu i'r graddau ag sydd eu hangen. Mae potensial i Tir Gofal roi pwrpas newydd i ffermio yng Nghymru, i sicrhau bod y diwydiant, unwaith eto, yn un y mae'r boblogaeth gyfan yn ei werthfawrogi ac yn cymdeimlo ag ef.

Yr hyn sydd yn achosi'r pryder mwyaf o ran y dyfodol yw dyfodiad addasu'n enetig. Fel llawer o bobl eraill, nid wyf yn siŵr a groesawaf hynny. Fodd bynnag, ni ellir

the bottle; it is already out there. Members must recognise that and the need for more testing. I have already supported attempts by the Assembly to prevent GM crops from being grown in Wales because of my, perhaps selfish, belief in wanting more testing. It is a good marketing opportunity for Wales. GM-free reinforces the image of a healthy produce from a green and pleasant land. That is a valuable image for us. However, it will also have little effect on risk if a GM-free label is limited to Wales only. Even in a horror scenario, a rampaging flesh-eating giant hogweed will not stop at Offa's Dyke because of some political statement. Genetic modification requires clear, logical thinking and careful decision-making and we must ensure that. I welcome the step that Carwyn Jones has taken in setting up a group to consider this important issue.

For the last year, the Agriculture and Rural Development Committee has been considering diversification of the rural economy. An interim report will be published shortly. I hope that it will call for more flexibility in planning controls and for ready access to business advice as well as other long-term recommendations. That will be an important document and the result of a great deal of work. I hope that Members on all sides of the Assembly will respond positively to it and support it. I desperately hope that farming will have a positive role to play in the future of the Welsh countryside. I also hope that every Assembly Member will want to play a part in making that happen.

Mick Bates: I declare an interest as a partner in a farming business.

The Liberal Democrats welcome the commitment to the rural development plan and 'Putting Wales First' as the basis for securing a sustainable existence for agriculture and rural communities both socially and culturally. At the heart of our commitment is our belief in the family farm.

dadwneud yr hyn a wnaethpwyd; mae eisoes ar waith. Rhaid i'r Aelodau gydnabod hynny a'r angen am fwy o brofion. Yr wyf eisoes wedi cefnogi ymgais gan y Cynulliad i atal cynydau a addaswyd yn enetig rhag cael eu tyfu yng Nghymru, oherwydd fy safbwynt, hunanol o bosibl, o fynnu cael mwy o brofion. Mae'n gyfle marchnata da i Gymru. Mae bod yn rhydd o addasu genetig yn atgyfnerthu'r ddelwedd o gynnyrch iach o wlad hyfryd ir. Mae honno'n ddelwedd werthfawr inni. Fodd bynnag, ni chaiff fawr o effaith ar y risg os mai dim ond Cymru sydd â'r label o fod yn rhydd o addasu'n enetig. Hyd yn oed mewn sefyllfa arswyd, ni fydd efwr cigysol enfawr gwyllt yn aros yn ei unfan wrth gyrraedd Clawdd Offa oherwydd rhyw ddatganiad gwleidyddol. Mae angen gwneud penderfyniadau mewn modd clir, rhesymol a gofalus o ran addasu'n genetig a rhaid inni sicrhau hynny. Croesawaf y cam a gymerodd Carwyn Jones wrth sefydlu grŵp i ystyried y mater pwysig hwn.

Ers blwyddyn, bu'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ystyried arallgyfeirio'r economi wledig. Cyhoeddir adroddiad interim cyn bo hir. Gobeithiaf y bydd yn galw am fwy o hyblygrwydd o ran y rheolaethau cynllunio a mynediad parod i gyngor busnes yn ogystal ag argymhellion tymor hir. Bydd yn ddogfen bwysig ac yn ganlyniad cryn dipyn o waith. Gobeithiaf y bydd Aelodau o bob plaid yn y Cynulliad yn ymateb yn gadarnhaol iddo ac yn ei gefnogi. Gobeithiaf yn fawr y bydd i ffermio rôl gadarnhaol i'w chwarae yn nyfodol cefn gwlad Cymru. Gobeithiaf hefyd y bydd pob Aelod o'r Cynulliad am chwarae rhan wrth i wneud hynny.

Mike Bates: Datganaf fuddiant fel partner mewn busnes ffermio.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu'r ymrwymiad i'r cynllun datblygu gwledig a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' fel sail dros sicrhau bodolaeth gynaliadwy i amaethyddiaeth a chymunedau gwledig, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae ein ffydd mewn ffermydd teuluol wrth wraidd

However, we should not lose sight of the fact that the World Trade Organisation and the policies developed in the European Union will have a significant impact on agriculture in Wales.

For rural Wales, time is short to stabilise and restructure, to rebuild with confidence and to make effective use of the EU structural funds that include Objectives 1, 2 and 3, LEADER, INTERREG, European Agricultural Guidance and Guarantee Fund and our Rural Development Plan as well as the various transitional funds. It is essential that the funding available through the structural programmes reaches the farmers. This process will also require independent evaluation so that we can identify best practice and reduce the complexity faced by individual farming businesses in their quest to obtain the money and build a new rural Wales. There must also be significant co-ordination between these funds, if we are to secure a long-term future for agriculture.

The partnership agreement 'Putting Wales First' is a significant marker and through our ambitions, we will play a fundamental part in achieving short-term needs and in meeting the long-term challenges of our agricultural industry. I am proud of the principles therein, and it appears to me today that a great many have not read them.

My individual crusade was to bring a positive attitude, with positive policies, which will give direction and security to rural Wales, and agriculture in particular. Within that process we must ensure that future legislation—particularly European legislation—does not disadvantage the development of our industry. We must also ensure that the rural development plan is not blocked by unhelpful planning guidelines, particularly, as has been mentioned before, where the development of renewable energy is concerned.

I also believe that the National Assembly's role can be creative and innovative, creating

ein hymrwymiad. Fodd bynnag, ni ddylem anghofio'r ffaith y bydd Sefydliad Masnach y Byd a'r polisiau a ddatblygir yn yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

O ran Cymru wledig, mae'r amser yn brin i sefydlogi ac ailstrwythuro, i ailadeiladu â hyder a gwneud defnydd effeithiol o gronfeydd strwythurol yr UE gan gynnwys Amcan 1, Amcan 2 ac Amcan 3, LEADER, INTERREG, Cronfa Gyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddol Ewrop a'n Cynllun Datblygu Gwledig yn ogystal ag amryw o gronfeydd trosiannol. Mae'n hanfodol bod yr arian sydd ar gael drwy'r rhaglenni strwythurol yn cyrraedd y ffermwyr. Hefyd bydd angen gwerthuso'r broses hon yn annibynnol fel y gallwn nodi arfer gorau a lleihau'r cymhlethdod a wyneba'r busnesau ffermio unigol wrth geisio cael arian ac adeiladu Cymru wledig newydd. Rhaid i'r cronfeydd hyn gael eu cydlynu hefyd, os ydym am sicrhau dyfodol tymor hir ar gyfer amaethyddiaeth.

Mae'r cytundeb partneriaeth 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn drobwynt arwyddocaol a thrwy ein huchelgais, byddwn yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni anghenion tymor byr ac wynebu sialensiau tymor hir ein diwydiant amaethyddol. Ymfalchïaf yn egwyddorion y cytundeb, ac ymddengys imi heddiw fod llawer iawn o bobl heb eu darllen.

Fy ymgyrch fach bersonol i oedd dod ag agwedd adeiladol, ynghyd â pholisiau adeiladol, a fydd yn rhoi cyfeiriad a sicrwydd i Gymru wledig, ac amaethyddiaeth yn arbennig. O fewn y broses honno, rhaid inni sicrhau na fydd deddfwriaeth yn y dyfodol—yn enwedig deddfwriaeth Ewropeaidd—yn amharu ar ddatblygu ein diwydiant. Rhaid inni hefyd sicrhau na chaiff y cynllun datblygu gwledig ei atal oherwydd canllawiau cynlluniau di-fudd, yn enwedig, fel y soniwyd eisoes, o ran datblygu ynni adnewyddadwy.

Credaf hefyd y gall rôl y Cynulliad Cenedlaethol fod yn greadigol ac yn flaengar,

policies that will be emulated in Scotland, England and Northern Ireland. Take our commitment to reintroduce free school milk, to broaden the skills base in rural areas, to develop ICT, to market tourism linked with sustainable integrated transport systems.

The crisis in rural Wales has left our industry without a way of managing the changes. In order to survive the crisis, this National Assembly must offer direction and advice. We must provide a structure to deliver the best possible advice for production and new technology whilst improving business viability. This is now in place. The 'Putting Wales First' document contains the Liberal Democrat concept we call Farming Connect. This integrated service will provide an easy guide to the funding available to assist the restructuring of Welsh agriculture.

We must build a good market both at home and abroad. For this to happen we must be in the euro. We already have a single market. It is only natural that we have a single currency. The delaying of the decision by Gordon Brown is only causing further hardship. It is creating euroscepticism when we should be celebrating euphoria.

However, we can begin to provide infrastructure for processing, blast freezing and the encouragement of local facilities in order to add value to our products and to keep the wealth in our communities, not as we have done for so many years, taking for granted that we export the raw material. Producers are beginning to co-operate and ensure that greater prosperity remains in Wales. In mid Wales, for example, we have Powys Foods, which is encouraging the processing and production of local food. They say 'Are you getting it locally? Buy it, eat it and enjoy it'. I am pleased that many rural people have this positive attitude. I met the Glamorgan branch of the Women's Food and Farming Union yesterday, which is

gan lunio polisiau a gaiff eu hefelychu yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ystyriwch ein hymrwymiad i ailgyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion, i ehangu'r sylfaen sgiliau mewn ardaloedd gwledig, i ddatblygu TGCH, i farchnata twristiaeth yn gysylltiedig â systemau trafndiaeth integredig cynaliadwy.

Mae'r argyfwng yng Nghymru wledig wedi amddifadu ein diwydiant o unrhyw ffordd o reoli'r newidiadau. Er mwyn goresgyn yr argyfwng, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn gynnig cyfeiriad a chyngor. Rhaid inni sefydlu strwythur a fydd yn rhoi'r cyngor gorau posibl ar gynhyrchu a thechnoleg newydd, tra'n gwella ymarferoldeb busnesau. Mae hynny eisoes ar waith. Mae'r ddogfen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cynnwys cysyniad y Democratiaid Rhyddfrydol a alwn yn Cyswllt Ffermio. Bydd y gwasanaeth integredig hwn yn rhoi canllaw syml ar yr arian sydd ar gael i gynorthwyo yn y broses o ailstrwythuro amaethyddiaeth Cymru.

Rhaid inni adeiladu marchnad dda gartref a thramor. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid inni ymuno â'r ewro. Mae gennym farchnad sengl eisoes. Mae'n naturiol felly inni gael arian sengl. Mae'r oedi cyn gwneud penderfyniad gan Gordon Brown ond yn achosi mwy o galedi. Mae'n creu ysbryd wrth-Ewropeaidd pan ddylem fod yn dathlu ein hewrophoria.

Fodd bynnag, gallwn ddechrau osod seilwaith ar gyfer prosesu a chwyth-rewi ac annog cyfleusterau lleol er mwyn ychwanegu gwerth at ein cynnyrch a chadw'r cyfoeth yn ein cymunedau, nid fel y gwnaethom am gymaint o flynyddoedd, sef cymryd yn ganiataol y gallwn allforio'r deunydd crai. Mae cynhyrchwyr yn dechrau cydweithredu a sicrhau yr erys mwy o ffyniant yng Nghymru. Yn y Canolbarth, er enghraifft, ceir Powys Foods, sydd yn annog prosesu a chynhyrchu bwyd lleol. Dywedant 'A ydych yn ei gael yn lleol? Prynwch, Bwytwch a Mwynhewch'. Mae'n dda gennyf fod gan lawer o bobl cefn gwlad yr agwedd gadarnhaol hon. Cyfarfûm â changen Morgannwg o Undeb Bwyd ac Amaeth y

promoting the farmhouse breakfast with great energy and enthusiasm. We need more people like that.

We are now showing signs that we will meet the marketing challenge of our quality food, produced to the highest environmental and animal welfare standards, and—I hope—free of GM crops. The challenge to compete in the increasingly competitive world is a great one, and I believe will only be met by farmers co-operating in order to have a significant impact in the market.

Briefly, the development of our agri-environment schemes, currently based on Tir Gofal—which I believe to be a good scheme—has turned out to be far too elitist. We must extend schemes to all farmers. I believe that we should target the renovation of hedgerows and linking woodlands, similar to the old CCW hedgerows scheme. We must also tackle rural stress and the Agriculture and Rural Development Committee should take evidence as a matter of urgency, and implement an all-Wales rural stress information network.

There has been a great deal of discussion on encouragement for young farmers. There are mixed messages in the Welsh Conservatives' amendments. On the one hand, a speaker says that there is no future in agriculture, and on the other, we should encourage more people into agriculture. This does not make sense. To reinforce my scepticism about their view, I fought these people for years and begged them not to destroy agriculture. When they cut 25 per cent of the hill farmers basic payment there was no sympathy; they only wanted a monetary policy, which they knew led to the death of hill farming in Wales.

We must be positive. There is little point in ranting and raving and increasing the depression in our industry. I am confident that with a guarantee of stability we can

Merched ddoe, sydd yn hyrwyddo'r brecwast fferm gyda chryn egni a brwdfrydedd. Mae angen mwy o bobl fel y rhain.

Erbyn hyn mae arwyddion y byddwn yn wynebu sialens farchnata ein bwyd o ansawdd, a gynhyrchir i'r safonau uchaf o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid, ac—gobeithiaf—yn rhydd o gnydau a addaswyd yn enetig. Mae'r sialens i gystadlu mewn byd mwyfwy cystadleuol yn un fawr, a chredaf mai dim ond drwy ffermwyr yn cydweithredu er mwyn cael effaith sylweddol ar y farchnad y gellir ei chyflawni.

Yn fyr, ymddengys i ddatblygiad ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol, sydd yn seiliedig ar Tir Gofal ar hyn o bryd—sydd yn gynllun da yn fy marn i—fod yn llawer rhy elitaidd yn y gorffennol. Rhaid inni ymestyn y cynlluniau i bob ffermwr. Credaf y dylem dargedu adnewyddu perthi a chysylltu coetiroedd, yn debyg i hen gynllun perthi Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Rhaid inni hefyd fynd i'r afael â phwysedd gwledig a dylai'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gymryd tystiolaeth fel mater o frys, a gweithredu rhwydwaith gwybodaeth Cymru gyfan dros bwysedd gwledig.

Bu cryn drafodaeth ynglŷn ag annog ffermwyr ifanc. Ceir negeseuon cymysglyd yng ngwelliannau Ceidwadwyr Cymru. Ar y naill law, dywed llefarydd nad oes dyfodol i amaethyddiaeth, ac ar y llaw arall, dylem annog mwy o bobl i ddod i mewn iddi. Nid yw hyn yn gwneud synnwyr. Yr hyn sydd yn dwysáu fy amheuan am eu safbwynt yw'r ffaith imi ymladd yn erbyn y bobl hyn am flynyddoedd gan erfyn arnynt i beidio â dinistrio amaethyddiaeth. Pan dorasant 25 y cant o daliad sylfaenol ffermwyr y tir uchel nid oedd unrhyw gydymdeimlad; dim ond polisi arianyddol a oedd yn bwysig iddynt, y gwyddant i hwnnw arwain at dranc ffermio ucheldiroedd yng Nghymru.

Rhaid inni fod yn gadarnhaol. Nid oes diben rafbïo a morio a chynyddu'r dirwasgiad yn ein diwydiant. Yr wyf yn hyderus, drwy sicrhau sefydlogrwydd, y gallwn ailadeiladu economi

rebuild the Welsh rural economy. We need to show rural Wales that we care and that we will take action. We must remember that great rural Liberal, Lloyd George who said, 'the finest eloquence is that which gets things done'. The Welsh Liberal Democrats inherited that belief, and through 'Putting Wales First', we are getting things done for rural Wales.

4:50 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Dirprwy Lywydd, yr wyf yn falch eich bod wedi sylwi fy mod yma, ac am y cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth hon. Mae'n drafodaeth bwysig, ond mae'n anodd gwybod beth yw ei statws a'i phwrpas. Yr ydym yn trafod materion a drafodwyd fwy nag unwaith yn y Siambr ac yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Mynegwyd llawer o syniadau da yn y drafodaeth hon, ond mae'n amser inni sicrhau strategaeth glir, diamwys i weithredu o blaid y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

Yr oeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn datgan ei fod yn credu bod dyfodol i amaethyddiaeth. Yr oeddwn hefyd yn falch o'i glywed yn cadarnhau statws y diwydiant amaethyddol fel conglfaen yr economi gwledig ac fel rhywbeth sydd yn cynnal ein cymunedau gwledig. Croesawaf y gweithgor a sefydlwyd ganddo i gyflwyno syniadau ar gyfer cynorthwyo'r diwydiant amaethyddol a sicrhau ei ddyfodol. Gwerthfawrogaf hefyd ei barodrwydd i weithredu'n uniongyrchol pan fo angen gwneud hynny. Manteisiaf ar y cyfle i'w longyfarch am y modd y sicrhaudd fod y cynllun Tir Mynydd yn ateb gofynion amaethyddiaeth yng Nghymru.

Fodd bynnag, y mae'n bryd symud ymlaen i gael strategaeth glir i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Gwnaethpwyd y pwynt lawer gwaith yn ystod y drafodaeth fod ffactorau yn bodoli sydd yn anghynaliadwy o fewn y diwydiant. Cyfartaledd oedran amaethwyr yng Nghymru yw tua 57 neu 58 mlwydd oed.

wledig Cymru. Mae angen inni brofi i Gymru wledig ein bod yn poeni ac y byddwn yn cymryd camau. Rhaid inni gofio'r Rhyddfrydwr mawr cefn gwlad, Lloyd George, a ddywedodd, 'the finest eloquence is that which gets things done'. Etifeddodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y gred honno, a thrwy 'Rhoi Cymru'n Gyntaf', yr ydym yn cyflawni pethau dros Gymru wledig.

Rhodri Glyn Thomas: Deputy Presiding Officer, I am glad that you have noticed my presence, and for the opportunity to contribute to this discussion. It is an important discussion, but it is difficult to know its status and purpose. We are discussing issues that have already been discussed more than once in this Chamber and in the Agriculture and Rural Development Committee. Many good ideas have been expressed in this discussion, but it is time to secure a clear, unambiguous strategy for the agriculture industry in Wales.

I was glad to hear the Minister stating that he believes that there is a future for agriculture. I was also pleased to hear him affirming the agriculture industry's status as a cornerstone of the rural economy and as something that sustains our rural communities. I welcome the working group that he established to consider ways of assisting the agriculture industry and securing its future. I also appreciate his willingness to take direct action when necessary. I take this opportunity to congratulate him on the way he ensured that the Tir Mynydd scheme responded to the needs of agriculture in Wales.

However, it is time to move forward and develop a clear strategy to secure a sustainable future for agriculture in Wales. The point has been made many times during the discussion that unsustainable factors exist within the agriculture industry. The average age of farmers in Wales is 57 or 58. If that trend continues, it is entirely unsustainable. I

Os bydd y duedd honno'n parhau, mae'n gwbl anghynaliadwy. Yr wyf wedi clywed Carwyn yn dadlau lawer gwaith yn erbyn cynllun a fyddai'n cynorthwyo pobl ifanc i ymuno â'r diwydiant amaethyddol a sicrhau dyfodol yng nghefn gwlad. Mae'n bryd iddo—os ydyw'n gwrthod y syniad a gyflwynwyd gan Blaid Cymru ac sydd wedi ei gefnogi gan bleidiau eraill—gyflwyno mesur pendant i gynorthwyo pobl ifanc i ymuno â'r diwydiant. Nid oes dyfodol i amaethyddiaeth hyd nes iddo ystyried y sefyllfa hon yn fanwl.

Gwyddom fod prisiau cynnyrch yn anghynaliadwy. Mae cyfartaledd incwm yn y diwydiant wedi gostwng i £4,000. Mae'n amlwg bod hynny yn gwbl anghynaliadwy. Mae Carwyn ac eraill wedi sôn am yr angen i ychwanegu gwerth, i arallgyfeirio a gwneud gwell defnydd o'r hyn sydd yn bodoli yn barod. Rhaid inni gael strategaeth glir ar hynny. Fy ofn innau yw bod cynlluniau yma ac acw. Fodd bynnag, mae rhai o'r cynlluniau hyn yn fuddiol. Yr ydym i gyd yn cefnogi'r cynllun trosglwyddo organig a'r cynllun Tir Gofal. Fodd bynnag, yr oeddwn am godi pwynt penodol gyda Carwyn yn gynharach ynglŷn â'r cynllun Tir Gofal. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, Carwyn, o'r 600 o geisiadau cyntaf y bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn eu hystyried a'u cymeradwyo, gwrthododd 80 ohonynt dderbyn y cyfle i ymuno â chynllun Tir Gofal. Mae hynny'n ganran uchel.

Rhaid i'r Gweinidog edrych yn fanwl ar y cynllun hwn a gofyn a yw'r amodau yn rhy llym. A yw'r cynllun Tir Gofal yn rhy fiwrocraataidd ac anodd i amaethwyr gael mynediad iddo?

Cynog Dafis: Dywed rhai ffermwyr wrthyf y byddai mynediad i'r cynllun yn golygu colled ariannol iddynt. Byddai'r gostyngiad yn y lefel stocio, a fyddai'n digwydd er mwyn cael mynediad i'r cynllun, yn golygu mwy o golled nag ennill drwy'r taliadau ychwanegol. Rhaid edrych ar y mater hwnnw.

have often heard Carwyn arguing against a scheme that would help young people into the industry and secure a future in rural Wales. It is time for him—if he opposes the idea proposed by Plaid Cymru and supported by other parties—to introduce a decisive measure to help young people into the industry. There is no future for agriculture until he considers this situation in detail.

We know that produce prices are unsustainable. The average income in the industry has fallen to £4,000. That is obviously unsustainable. Carwyn and others have mentioned the need to add value, to diversify and to make better use of what exists already. We must have a clear strategy on that. My fear is that there is a scheme here and a scheme there. However, some of these schemes are helpful. We all support the organic conversion scheme and the Tir Gofal scheme. However, I wanted to raise a specific point with Carwyn earlier about the Tir Gofal scheme. As I understand it, Carwyn, of the first 600 applications considered and approved by the Countryside Council for Wales, 80 applicants declined the invitation to join the Tir Gofal scheme. That is a significant percentage.

The Minister must consider this scheme in detail and ask if the conditions are too strict. Is the Tir Gofal scheme too bureaucratic and difficult for farmers to gain entry to it?

Cynog Dafis: Some farmers tell me that entry to the scheme would involve a financial loss for them. The decrease in levels of stock, which would occur in order to enter the scheme, would be a greater loss than the gain they would receive through the additional payments. We must consider that issue.

Rhodri Glyn Thomas: Galwaf ar y Gweinidog i gynnal adolygiad buan o'r sefyllfa hon. Mae'n gwbl annerbyniol bod 80 o ffermydd sydd wedi cael cynnig i ddod mewn i gynllun Tir Gofal wedi penderfynu peidio â'i dderbyn. Mae'n wastraff amser Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'n golygu nad yw pobl eraill yn cael y cyfle hwn, ac mae'n rhaid inni gael ateb buan i hyn.

Cyfeiriodd Glyn Davies at y cynllun a ragflaenodd Tir Gofal, sef cynllun Tir Cymen. Derbynnir yn gyffredinol yn y diwydiant y bu'r cynllun hwnnw'n llawer mwy ystwyth gan iddo ateb gofynion y diwydiant llawer yn fwy. A yw'r Gweinidog yn cytuno y bu'r cynllun hwnnw'n hynod lwyddiannus? A wnaiff gadarnhau ei fod yn gwbl fodlon â'r ffordd y cafodd y cynllun hwnnw ei weinyddu a'i weithredu yng Nghymru?

Mae angen strategaeth glir i'r cynlluniau hyn oherwydd bod amaethwyr wedi gofalu am yr amgylchedd a'r tir dros y cenedlaethau yn gwbl ddi-dâl. Mae'n gwbl briodol ein bod yn eu cydnabod yn ariannol am eu gwaith.

Yn olaf, nodaf yr elfennau sydd yn anghynaliadwy, y meysydd y mae'n rhaid inni weithio arnynt. Mae'n amlwg, a soniwyd am hyn eisoes, fod y diwydiant yn wynebu newidiadau mawr. Clywsom gyfeiriadau at y trafodaethau masnachu rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn adolygu'r holl sectorau amaethyddol a gwyddom fod newidiadau'n dod o ran taliadau heb eu cyfeirio at gynhyrchu. Yr ydym yn sôn am ehangu'r gymuned, ac mae dewisiadau a chyfleoedd mawr hefyd yn wynebu'r diwydiant. A wnaiff y Gweinidog ddatgan ei fod yn gwbl glir yn ei feddwl ei hun fod dyfodol i amaethyddiaeth? A yw'n barod i gynnal amaethwyr trwy'r newidiadau y bydd yn rhaid iddynt eu gwneud wrth drosglwyddo o fath o amaethyddiaeth ddwys a orfodwyd arnynt gan bolisïau llywodraethau—nid oes yr un ffermwr sydd eisieu cynhyrchu mwy a mwy os na chaiff fudd o hynny—er mwyn sicrhau'r dyfodol ffyniannus y mae'n ei ragweld i

Rhodri Glyn Thomas: I call on the Minister to undertake an urgent review of this situation. It is completely unacceptable that 80 farms that were offered entry into the Tir Gofal scheme decided not to accept. It is a waste of the Countryside Council for Wales's time. It means that others are not given this opportunity, and we must have an answer to this soon.

Glyn Davies referred to Tir Cymen, the scheme that preceded Tir Gofal. It is generally accepted in the industry that that was a much more flexible scheme and that it fulfilled the industry's needs to a much greater extent. Does the Minister agree that that scheme was extremely successful? Will he confirm that he is completely satisfied with the way in which that scheme was administered and implemented in Wales?

A clear strategy is needed for these schemes because farmers have looked after the environment and land for generations without any recompense. It is wholly fitting that we reimburse them for their work.

Finally, I note the elements that are unsustainable, those areas on which we must work. It is obvious, and this has already been mentioned, that the industry is facing great changes. We heard references to the international trade negotiations. At the moment, the European Commission is reviewing all the agricultural sectors and we know that changes in payments not directed at production are in the pipeline. We are talking about expanding the community, and there are also great choices and opportunities facing the industry. Will the Minister declare that he is completely clear in his own mind that there is a future for agriculture? Is he ready to support the farmers through the changes that they will have to undergo in changing over from a type of intensive agriculture that was imposed on them by government policy—no farmer wants to produce more and more if he gets no benefit from it—to secure the prosperous future that he predicts for agriculture?

amaethyddiaeth?

Delyth Evans: Croesawaf y drafodaeth hon yn fawr. Er gwaethaf y trafferthion difrifol sydd yn wynebu'r sector amaeth yng Nghymru, mae bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi dod â chanolbwynt newydd i'r sefyllfa yng nghefn gwlad a chreu penderfyniad ar draws y pleidiau bod yn rhaid inni atal y dirywiad a datblygu strategaeth glir a chynaliadwy i'r sector. Gallwn i gyd groesawu hyn. Cymeradwyaf yr arweiniad cadarn a chadarnhaol y mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ei roi i'r gwaith pwysig hwn.

Mae'n rhaid inni gofio un peth wrth drafod y maes hwn. Mae'r problemau sydd yn wynebu'r sector amaeth yn mynd yn ôl i'r chwyldro diwydiannol pan ddechreuodd pobl lifo allan o'r ardaloedd gwledig i weithio yn y trefi a'r ardaloedd diwydiannol. Dyna ddechrau'r symudiad poblogaeth sydd yn fygythiad difrifol i gynaliadwyedd a chymunedau gwledig o hyd. Datblygiadau mwy diweddar yw'r polisi amaeth Ewropeaidd a'r gystadleuaeth gan farchnadoedd y tu hwnt i Ewrop. Fodd bynnag, bu'r rhain hefyd yn corddi ers blynyddoedd maith; nid problemau newydd mohonynt.

Felly, mae'n rhaid osgoi rhoi'r argraff bod atebion hawdd i'r cwestiynau hyn. Nid oes dim. Mae'n rhaid inni edrych ar y tymor hir a dyma pam fod gwaith y grŵp Dyfodol Ffermio a sefydlodd Carwyn mor bwysig. Edrychaf ymlaen at ddarllen ei gasgliadau. Mae'n beryglus i'r pleidiau eraill annog pobl i feddwl bod atebion syml ar gael ac iddynt awgrymu mai'r Llywodraeth Lafur rywsut sydd yn gyfrifol am y sefyllfa heddiw. Maent yn gwneud cam difrifol â'r ffermwyr wrth wneud hynny. Nid yw'n helpu'r ffermwyr i roi'r argraff bod rhyw hudlath i drawsnewid eu sefyllfa dros nos. Os nad yw'r ffermwyr eu hunain yn wynebu gwirionedd y diwydiant amaeth modern ac addasu eu dulliau a'u harferion, nid oes gobaith iddynt. Byddai aros fel y maent yn awr, a gobeithio'n ofer am fwy o gymorthdaliadau a

Delyth Evans: I warmly welcome this discussion. In spite of the serious troubles facing the agricultural sector in Wales, the existence of the Assembly has brought a new focus to the situation in the countryside and brought about a cross-party resolve to arrest the decline and develop a clear and sustainable strategy for the sector. We can all welcome that. I commend the strong and positive leadership that the Minister for Rural Affairs is giving in this important work.

We must remember one thing when discussing this matter. The problems that face the agricultural sector go back to the industrial revolution when people started to flow out of the rural areas to work in towns and industrial areas. That was the start of the population shift that is a serious threat to sustainability and rural communities to this day. The European agricultural policy and competition from markets outside Europe are more recent developments. However, these also have been fermenting for many years; they are not new problems.

Therefore, we must avoid giving the impression that there are easy answers to these questions. There are not. We must look to the long term and that is why the work of the Farming Futures group that Carwyn established is so important. I look forward to reading its findings. It is dangerous for the other parties to encourage people to think that there are simple answers and to suggest that somehow the Labour Government is responsible for today's situation. They are doing a serious disservice to farmers in doing that. Giving the impression that there is a magic wand that will transform their situation overnight does not help farmers. If the farmers themselves do not face up to the reality of the modern agricultural industry and modify their methods and practices, there is no hope for them. Staying as they are

grantiau, yn drychinebus iddynt. Nid dyna'r ffordd i ddiogelu'r sector.

Creu a datblygu bwydydd arbenigol, canolbwyntio ar werth ychwanegol ac nid ar gynnyrch rhad, codi safonau cynhyrchu, marchnata effeithiol ac arallgyfeirio yw'r ffyrdd ymlaen. Dyma lle y gall y Llywodraeth ac asiantaethau megis Awdurdod Datblygu Cymru roi cymorth, cyngor ac arweiniad. Fodd bynnag, dim ond y cynhyrchwyr eu hunain a all drawsnewid eu sefyllfa.

I gloi, trafodwn y sector amaeth a'r ardaloedd gwledig heddiw. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â'u trin fel pwnc ynysig. Mae problemau difrifol y ffermwyr a'r cymunedau gwledig yn broblem ac yn her inni i gyd yn y Cynulliad ac i Gymru gyfan. Ni allwn fel cenedl fforddio gweld cefn gwlad Cymru yn marw. Nid oes cryfder mewn gwlad lle mae'r cyfoeth i gyd mewn pocedi yn y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain, a'r gweddill yn dlawd a difreintiedig. Rhaid inni ymestyn ein cyfoeth a'n cyfleoedd fel gwlad fach ar hyd a lled y tir—i'r ardaloedd gwledig yn ogystal â'r ardaloedd trefol. Dyna pam mae'r drafodaeth hon heddiw mor bwysig i bob un ohonom. Dyma'r sialens fwyaf sydd yn ein hwynebu yn y Cynulliad.

5:00 p.m.

Cynog Dafis: Hoffwn ddweud gair pellach am y cynllun Tir Gofal, yr ydym wedi clywed cymaint o sôn amdano heddiw. Mae'n gynllun pwysig. Mae angen ei addasu, ac yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi penderfynu bod angen adolygu sut y mae'n gweithio. Mae'n gynllun sydd â photensial arwyddocaol dros ben. Mae'n olynydd i Tir Cymen, a oedd yn un o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol gorau yn Ewrop yn ôl y dystiolaeth. Awdur y cynllun hwnnw oedd yr Athro Gareth Wyn Jones, ac y mae'n dal i fonitro Tir Gofal yn ofalus.

Yn ystod cyfnod Tir Cymen, rhwng 1992 ac

now, and hoping in vain for more subsidies and grants, would be disastrous for them. That is not the way to safeguard the sector.

The way ahead is in creating and developing specialist foods, concentrating on added value and not on cheap produce, on raising standards of production, effective marketing and diversification. This is where the Government and agencies such as the Welsh Development Agency can give assistance, advice and guidance. However, only the producers themselves can transform their situation.

To close, we are discussing the agricultural sector and rural areas today. However, we must not consider them in isolation. The serious problems facing farmers and rural communities are a problem and a challenge for all of us in the Assembly and for the whole of Wales. As a nation, we cannot afford to see the Welsh countryside die. There is no strength in a country where all its wealth is in pockets in the south-east and the north-east, and the rest is poor and deprived. We must extend our wealth and opportunities as a small nation to all parts of our land—to the rural areas as well as the urban areas. That is why today's discussion is so important for every one of us. This is the greatest challenge facing us in the Assembly.

Cynog Dafis: I would like to say a few more words on the Tir Gofal scheme, of which we have heard so much today. It is an important scheme. It needs adapting, and I am pleased that the Minister has decided that we need to review its operation. It is a scheme that has very significant potential. It is a successor to the Tir Cymen scheme, which was one of the best agri-environmental schemes in Europe according to the evidence. Professor Gareth Wyn Jones was the architect of that scheme, and he still monitors Tir Gofal closely.

During the period of Tir Cymen, between

1997 neu 1998, sylweddolodd Gareth Wyn Jones fod rhywbeth rhyfedd yn digwydd yng nghyswllt yr arian Ewropeaidd. Pwysodd ar yr hen Swyddfa Gymreig i wneud cais am arian Ewropeaidd i gryfhau'r cynllun. Daeth ar draws cryn dipyn o wrthwynebiad i hynny yn y Swyddfa Gymreig, ond fe'i perswadwyd i wneud hynny. Daeth yn ymwybodol wedyn nad oedd yr arian Ewropeaidd yn ychwanegol i wariant y Swyddfa Gymreig o'i chyllideb ei hunan. Gofynnodd imi, pan oeddwn yn Aelod Seneddol, i edrych i mewn i'r mater hwn. Gofynnais am friff ar y sefyllfa gan lyfrgell Ty'r Cyffredin. Y wybodaeth a dderbyniais oedd bod y bwrdd ymyrraeth yn talu siec i Gyngor Cefn Gwlad Cymru am y cyfraniad Ewropeaidd tuag at Dir Cymen. Yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn derbyn y siec ac wedyn yn talu siec am yr un swm i gyllideb y Swyddfa Gymreig, a oedd wedyn yn talu siec am yr un swm i'r Trysorlys. Felly, yr oedd arian Tir Cymen yn dod i mewn i Gymru drwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac yn llifo allan o Gymru yn llwyr. Nid oedd unrhyw elw o gwbl yn aros yng Nghymru nac yn y diwydiant ffermio yng Nghymru o ganlyniad i'r cyfraniad Ewropeaidd sylweddol hwn.

Honiad Gareth Wyn Jones yw bod yr un peth yn union yn digwydd gyda Thir Gofal. Mae ymgyrch ar droed gan Fforwm Gwledig Cymru i gywiro'r anghyfiawnder sylfaenol hwn a sefydlu egwyddor ychwanegedd ar gyfer cyllid Ewropeaidd i'r hyn y gellir ei alw yn gamau cysylltiedig o dan ddiwygiad y polisi amaethyddol cyffredin. Pe bai hyn yn llwyddo, byddai modd inni ddyblu'r arian sydd yn mynd i mewn i gynllun Tir Gofal, ac o bosibl fwy na hynny. Er enghraifft, mae Gweriniaeth Iwerddon yn derbyn 75 y cant o'r cyllid ar gyfer ei chynllun amaeth-amgylcheddol oherwydd ei statws Amcan 1. Mae Iwerddon yn talu £20 miliwn i mewn i'r cynllun hwn o'i hadnoddau ei hunan. Mae'n derbyn £60 miliwn gan y cronfeydd amaethyddol Ewropeaidd. Dyna gyfanswm o £80 miliwn yn mynd i mewn i'r economi wledig am gost o £20 miliwn yn unig i drysorlys Iwerddon. Digwydd yr un peth

1992 and 1997 or 1998, Gareth Wyn Jones realised that something strange was happening in the context of European funding. He pressurised the former Welsh Office to apply for European funding to strengthen the scheme. He encountered considerable opposition to that in the Welsh Office, but it was persuaded to do so. He then became aware that the European funding was not in addition to the Welsh Office's expenditure from its own budget. He asked me, when I was a Member of Parliament, to look into this matter. I asked for a brief on the situation from the House of Commons library. The information that I received was that the intervention board paid a cheque to the Countryside Council for Wales for the European contribution to Tir Cymen. The Countryside Council for Wales accepted the cheque and then paid a cheque for the same amount to the Welsh Office's budget, which then paid a cheque for the same amount to the Treasury. Therefore, Tir Cymen money came into Wales through the Countryside Council for Wales and was siphoned out of Wales completely. No profit whatsoever remained in Wales or in the Welsh farming industry as a result of this substantial European contribution.

